Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
49/2022
Dyddiad Cyhoeddi:
12/07/2022

# Ymchwil i Arferion Asesu yn y Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-80364-501-8

# Ymchwil i Arferion Asesu yn y Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol

Dr Nick Morgan, Tom Bajjada, Geof Andrews, Nick Miller / Miller Research (UK) Ltd.
Nia Bryer, Heledd Bebb / OB3
Meurig Roberts
Karen Lawrence

Ymchwil i Arferion Asesu yn y Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol: Morgan, N, Bajjada, T, Andrews, G, Miller, N, Bryer, N, Bebb, H, Roberts, M, Lawrence, K., (2022). *Ymchwil i Arferion Asesu yn y Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad YGLI 49/2022
Ar gael trwy: https://llyw.cymru/ymchwil-i-arferion-asesu-yn-y-cyfnod-sylfaen

Barn yr ymchwilydd yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Cangen Ymchwil Ysgolion
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Par Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000256812
E-bost: YmchwilYsgolion@Gov.Wales

## Tabl cynnwys


Crynodeb ....................................................................................................3

Canfyddiadau Allweddol ...........................................................................3

Rhan 1 – Cyflwyniad a Methodoleg ................................................................12

1. Cyflwyniad ................................................................................12

2. Methodoleg ................................................................................20

Rhan 2 – Proffil y Cyfnod Sylfaen: Canfyddiadau Manwl ................................25

3. Asesu yn y Cyfnod Sylfaen a Phroffil y Cyfnod Sylfaen .....................25

4. Proffil y Cyfnod Sylfaen ................................................................27

Rhan 3 – Asesiadau Personol Ar-lein: Canfyddiadau Manwl ..........................54

5. Asesiadau Personol Ar-lein yn y Cyfnod Sylfaen ..............................54

6. Casgliadau ac Argymhellion ..............................................................73

Argymhellion .........................................................................................86

Atodiad A – Dadansoddiad o Ymarferwyr a Gyfwelwyd yn ôl Math o Ysgol ..90

Atodiad B – Canllawiau Pwnc ...................................................................91

**Geirfa**

| Talfyriad/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| Addysgegol | Pedagogical |
| Asesiadau Personol Ar-lein | Online Personalised Assessments |
| Asesiad Sylfaenol | Baseline Assessment |
| eFSM | Cymhwysedd am Brydau Ysgol am Ddim |
| Proffil y Cyfnod Sylfaen | Foundation Phase Profile |
| TG | Technoleg Gwybodaeth |
| Ymagwedd | Disposition |

## Crynodeb

i. Comisiynwyd Miller Research, ar y cyd ag Old Bell 3 a Meurig Roberts, i gyflawni ymchwil i archwilio'r defnydd o asesiadau yn y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion.

ii. Diben yr ymchwil yw archwilio effaith asesu, gan gynnwys Proffil y Cyfnod Sylfaen a'r asesiadau personol mewn Darllen a Rhifedd (Gweithdrefnol), ar addysgu a dysgu yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a'r graddau y caiff y dulliau asesu hyn eu integreiddio ag arferion gwaith. Trwy archwilio'r hyn roedd gan ymarferwyr i'w ddweud ar gwestiynau allweddol ynghylch asesu, bwriad yr ymchwil yw galluogi Llywodraeth Cymru i elwa ar brofiad yr ymarferwyr a gyfwelwyd wrth lunio penderfyniadau ac o bosibl adnabod meysydd lle mae angen mwy o gefnogaeth ac adnoddau.

iii. Cynhwyswyd 20 o ysgolion astudiaethau achos i gyflawni gwaith maes. Dewiswyd ysgolion ar sail amrywiaeth helaeth o ffactorau, gan gynnwys lleoliad daearyddol, iaith, maint, a'r nifer o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim (eFSM).

iv. Cyfwelwyd cyfanswm o 76 o ymarferwyr addysg a rhiant-lywodraethwyr, yn ogystal â'r 18 o randdeiliaid a gyfwelwyd fel rhan o gyfnod cwmpasu'r ymchwil.

### Canfyddiadau Allweddol

*Cydnawsedd ag Egwyddorion Addysgegol y Cyfnod Sylfaen*

v. Roedd ymarferwyr ag agwedd gadarnhaol tuag at y cysondeb rhwng Proffil y Cyfnod Sylfaen ac egwyddorion addysgegol y Cyfnod Sylfaen. Roedd hyn yn bennaf oherwydd: gellid cyflawni'r asesiadau sylfaenol a diwedd-cyfnod yn bennaf trwy arsylwi. Roedd, fodd bynnag, llawer o enghreifftiau yn y mwyafrif o ysgolion o ymarferwyr yn disgrifio gorfod paratoi tasgau penodol, weithiau wrth ddesg, er mwyn asesu sgiliau penodol na ellid eu harsylwi mor rhwydd trwy

chwarae. Y ffactorau allweddol a oedd gyrru ymarferwyr i ddefnyddio tasgau penodol oedd cymhlethdod a natur y sgìl a aseswyd, gyda hyn yn dod yn fwy o anhawster mewn blynyddoedd hŷn yn y Cyfnod Sylfaen, a phwysau amser ar ymarferwyr.

*Y graddau y defnyddir Proffil y Cyfnod Sylfaen*

vi. Y tu hwnt i gyfnod statudol ei ddefnyddio yn chwe wythnos gyntaf y flwyddyn derbyn, defnyddiwyd Proffil y Cyfnod Syflaen gan chwarter o'r ysgolion astudiaethau achos (pump). Roedd pum ysgol wedi datblygu eu systemau asesu mewnol eu hunain, gyda'r deg a oedd yn weddill yn defnyddio pecynnau meddalwedd eraill.

vii. Er nad oedd y mwyafrif o'r ysgolion yn defnyddio'r Proffil y tu hwnt i'r flwyddyn derbyn, nid ymddengys fod hyn yn adlewyrchiad o ansawdd y Proffil ond ei fod i raddau helaeth o ganlyniad i'r graddau mae pecynnau eraill ar gael, sy'n cynnig llwyfan hygyrch y gellir ei gyrraedd trwy ddyfeisiadau symudol.

viii. Roedd mwyafrif y systemau a ddatblygwyd yn fewnol a ddefnyddid gan ysgolion yn seiliedig ar Broffil y Cyfnod Sylfaen, gydag ymarferwyr yn disgrifio'r ffordd roeddent wedi gwneud nifer o newidiadau i'w gwneud yn fwy addas ar gyfer eu hanghenion, a oedd yn cynnwys:

- Torri'r lefelau canlyniadau'n gamau cynyddrannol llai
- Canolbwyntio mwy ar ymagwedd at ddysgu yn hytrach nag ar sgiliau yn unig.

ix. Yn gyffredinol, roedd darlun cymysg ynghylch y tueddiadau i ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen o fewn yr ysgolion, gyda dwy ysgol yn ddiweddar wedi symud oddi wrth ddefnyddio pecynnau meddalwedd amgen, y naill ar sail awgrym awdurdod lleol a'r llall ar sail awgrym consortiwm rhanbarthol, gydag un wedi dychwelyd at ddefnyddio'r Proffil, a'r llall wedi datblygu eu system eu hunain.

*Ansawdd a Defnyddioldeb Proffil y Cyfnod Sylfaen*

x. Roedd ymarferwyr yn gyffedinol ag agwedd gadarnhaol tuag at ansawdd Proffil y Cyfnod Sylfaen, gan nodi bod y Proffil Cryno yn rhoi cyfrif da o allu cyffredinol dysgwyr, a'i fod yn cynnwys amrywiaeth ddigon helaeth o sgiliau i'w harsylwi a'u hasesu. Cafodd ei ddisgrifio fel rhywbeth defnyddiol ar gyfer gosod targedau ac adnabod y camau nesaf.

xi. Roedd y Proffil Cryno yn fwy addas ar gyfer asesu rhai meysydd na'i gilydd, gyda mwy o alluoedd "du a gwyn" yn haws eu hasesu na meysydd mwy "goddrychol", megis y rheini o fewn y grisiau Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Llesiant ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.

xii. Roedd y mân feirniadaethau mwyaf cyffredin a godwyd ynghylch Proffil y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys ei fod yn cymryd gormod o amser, ei fod yn ormod o broses ticio blychau, ac nad oedd wedi ei deilwra'n ddigonol ar gyfer y dysgwr unigol.

*Adnabod Dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Arbennig neu Ychwanegol*

xiii. Er nad ydyw wedi cael ei ddatblygu i helpu adnabod problemau datblygiadol mewn plant unigol, gallai Proffil y Cyfnod Sylfaen helpu adnabod dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Fe'i defnyddir yn helaeth i gasglu tystiolaeth ar broblemau datblygiadol posibl ochr yn ochr ag amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael i ymarferwyr. Cafodd y Proffil ei ddigrifio felly fel man gychwyn da, a dull defnyddiol ar gyfer olrhain anawsterau. Y ffactor a oedd yn cyfyngu ar ei allu i adnabod anawsterau dysgu oedd bod datganiadau o fewn Proffil y Cyfnod Sylfaen mewn rhai achosion yn rhy eang ac amwys.

*Proffil y Cyfnod Sylfaen ac Iaith*

*Cyfleu Asesiadau Proffil y Cyfnod Sylfaen i Rieni*

xvi. Roedd saith ysgol yn adrodd canlyniadau sylfaenol i rieni, fel arfer trwy adroddiadau diwedd blwyddyn a nosweithiau rhieni. O'r ysgolion a oedd yn weddill, roedd y mwyafrif yn defnyddio canlyniadau sylfaenol ar gyfer defnydd mewnol yn unig.

*Arferion Asesu yn y Cwricwlwm newydd i Gymru*

xvii. Roedd ymarferwyr yn gyffredinol ag agwedd gadarnhaol at y Cwricwlwm newydd i Gymru; fodd bynnag, codwyd nifer o bryderon ynghylch asesiadau. Roedd y rhain yn cynnwys ehangder y Camau Cynnydd[1], yr angen am fwy o ddeunydd canllawiau ar gyfer asesu a fframwaith asesu cyffredin, a'r potensial am rwystrau rhag cydweithio a chydweithredu rhwng ysgolion.

**Asesiadau Personol Ar-lein**

*Canllawiau ar gyfer asesiadau personol*

xviii. Un o ganfyddiadau allweddol yr ymchwil yw nad yw mwyafrif yr ysgolion o angenrheidrwydd wedi llwyr ddilyn y canllawiau sy'n mynd gyda'r asesiadau personol, gyda llawer heb gymryd mantais o'r hyblygrwydd a gynigir.

xix. Cymysg yw'r graddau mae ymarferwyr yn integreiddio asesiadau personol ag arferion y Cyfnod Sylfaen, gyda rhai agweddau o'r canllawiau a roddir i ymarferwyr yn cael eu derbyn, ac eraill yn cael eu dilyn yn llai manwl. Roedd y pwyntiau allweddol ynghylch glynu at y canllawiau fel a ganlyn:

Glynu at y canllawiau

[1] Er na fwriedir i ddysgwyr gael eu hasesu ar sail camau cynnydd o dan o cwricwlwm newydd, siaradodd nifer o ymarferwyr ynghylch asesu ar sail camau cynnydd.

- Roedd mwyafrif llethol yr ymarferwyr yn dilyn canllawiau ar annog dysgwyr i gymryd seibiant yn ystod yr asesiadau (pob ysgol ond un).
- Roedd bron i hanner yr ysgolion a gyfwelwyd wedi defnyddio, neu'n bwriadu defnyddio, asesiadau personol ddwywaith o fewn y flwyddyn academaidd i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer y dysgwyr a deall newid dros amser trwy gyflawni ail asesiad yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Peidio â chadw at y canllawiau:

- Roedd darlun cymysg gyda nifer bach o ysgolion yn dewis cyflawni asesiadau personol mewn amgylchiadau a oedd yn ymdebygu i amodau prawf, sy'n ymddangos fel parhad o weithredu profion ar bapur.
- Roedd darlun cymysg hefyd ynghylch *pa bryd* roedd ysgolion yn dewis trefnu asesiadau personol gyda thua hanner yr ysgolion yn dal i drefnu asesiadau o fewn ffenestri cul, fel arfer o ganlyniad i arferion amserlennu'r ysgol, sy'n ymddangos fel pe bai'n parhau â'r arfer o lynu at ofynion y profion ar bapur.
- Roedd tua hanner yr ysgolion yn dal i fwriadu defnyddio'r asesiadau unwaith yn unig yn y flwyddyn academaidd, gan nodi diffyg gwerth y data canlyniadau, ac effeithiau ar lesiant dysgwyr fel rhesymau.

*Y defnydd o Asesiadau Personol gan Ymarferwyr*

xx. Roedd cydberthynas rhwng ysgolion a oedd yn defnyddio'r asesiadau personol ar-lein mewn modd mwy hyblyg a pha mor gadarnhaol oedd eu teimladau tuag at yr asesiadau.

xxi. Ymddengys fod rhai o ysgolion yr astudiaethau achos wedi integreiddio asesu personol yn effeithiol gydag arferion y Cyfnod Sylfaen, gyda'r ysgolion hyn yn defnyddio'r asesiadau fel y bwriadwyd ac fel y nodwyd yn y canllawiau, gan olygu bod:

- Yr asesiadau wedi cael eu defnyddio'n hyblyg gan naill ai grwpiau bach neu unigolion.
- Dysgwyr yn gallu defnyddio dyfeisiadau llechi'r oeddent yn gyfarwydd â hwy.
- Dysgwyr yn cael seibiannau rheolaidd i dorri'r cyfnod asesu.
- Yr ysgolion yn cyflawni neu'n bwriadu cyflawni'r asesiadau ddwywaith y flwyddyn.

xxii. Nid oedd mwyafrif yr ysgolion fodd bynnag, er bod hyn i raddau amrywiol, wedi llwyr gofleidio'r canllawiau a'r hyblygrwydd a gynigir gan yr asesiadau personol.

xxiii. Cymysg hefyd yw'r darlun ynghylch y defnydd o ganlyniadau asesu. Roedd y mwyafrif o ysgolion yn mynegi amheuon ynghylch gwerth yr adborth a'r adroddiadau, yn trafod anghysondebau rhwng data canlyniadau a'u barn o rai dysgwyr penodol (er enghraifft, lle'r oeddent yn barnu y gallau dysgwyr fod wedi cyflawni canlyniadau 'drwy lwc' wrth ddewis atebion ar hap).

xxiv. Roedd ymarferwyr o'r farn fod data asesu yn fwyaf defnyddiol wrth adnabod bylchau sgiliau ar draws dosbarthiadau fel cyfanrwydd, gwybodaeth a ddefnyddid gan ymarferwyr wedyn i gynllunio addysgu ar gyfer cohortau yn y dyfodol.

xxv. Codwyd rhai amheuon gan ymarferwyr ynghylch ymarferoldeb cyflawni'r asesiadau personol, gan gynnwys y canlynol:

- Roedd nifer bach o achosion lle'r oedd dysgwyr yn ei chael yn anodd defnyddio caledwedd TG (llygoden cyfrifiadur)[2].
- Tynnwyd sylw at heriau gyda chymhwysedd TG dysgwyr gan naw o ymarferwyr ar draws chwe ysgol, yn enwedig ynghylch darllen asesiadau personol, gyda'r angen i symud rhwng ffenestri i ddarllen testun ac wedyn ateb cwestiynau. Dywedwyd bod hyn yn anodd i rai dysgwyr.

---

[2] Anogir ysgolion i ganiatáu defnyddwyr i gymryd yr asesiadau personol gan ddefnyddio pa bynnag ddyfais maent fwyaf cysurus ag ef, ee dyfeisiadau llechi neu liniaduron, ac felly nid yw defnyddio llygoden yn ofynnol o angenrheidrwydd.

- Roedd sgiliau llythrennedd nifer o ddysgwyr yn rhy isel i'w galluogi i ddeall rhai cwestiynau yn yr asesiadau personol rhifedd gweithdrefnol. Roedd ymarferwyr yn codi'r pwynt y byddai opsiwn o wrando ar y cwestiynau yn helpu dysgwyr.

xxvi. Roedd ymarferwyr fodd bynnag yn gadarnhaol eu hagwedd tuag at y lleihad mewn marcio gyda'r symudiad o brofion papur at asesiadau personol.

*Rhwystrau rhag Gweithredu: Newid diwylliannol*

xxvii. Mae'n amlwg o'r cyfweliadau a gyflawnwyd bod rhwystrau'n parhau rhag cadarnhau canllawiau ac ethos asesiadau personol o fewn y mwyafrif o ysgolion, gyda llawer o ysgolion yn dal heb wneud y newid diwylliannol oddi wrth yr arferion a sefydlwyd yn flaenorol trwy brofi ar bapur tuag at ddull mwy hyblyg ac anffurfiol a gynigir gan yr asesiadau personol.

xxviii. Roedd rhwystrau rhag defnyddio'r asesiadau personol yn fwy hyblyg yn cael eu hachosi mewn rhai achosion gan arferion amserlennu a ddefnyddir gan ysgolion er mwyn trefnu profion ac asesiadau, gyda phenderfyniadau ynghylch amserlennu yn cael eu gwneud yn ganolog gan reolwyr.

xxix. Roedd ysgolion eraill yn parhau i gynnal asesiadau yn ystod yr un cyfnod â'r hen brofion papurau ym mis Mai ar sail arferiad.

*Cyfleu Asesiadau Personol i Rieni*

xxx. Er mwyn osgoi gosod pwysau ar ddysgwyr, roedd yn gyffredin i ysgolion beidio â rhannu amserlenni asesiadau personol gyda rhieni a gwarcheidwaid y dysgwyr. Nid oedd yn ofynnol i ysgolion hysbysu rhieni o'r amserlennu.

xxxi. Roedd canlyniadau o asesiadau personol yn parhau i raddau helaeth i fod ar gyfer defnydd personol, ond roedd nifer bach o ddysgwyr wedi

rhannu data canlyniadau gyda rhieni. Mae’n ofynnol i ysgolion rannu adborth a chynnydd yn yr asesiadau personol gyda rhieni a gofalwyr.

*Defnyddio Adborth a Data Asesiadau*

xxxii. Roedd llawer o ymarferwyr a gyfwelwyd yn amheus ynghylch addasrwydd asesiadau personol ar-lein fel modd o fesur gallu dysgwr Cyfnod Sylfaen yn gywir.

xxxiii. Roedd yr amheuon y tynnwyd sylw atynt gan ymarferwyr yn cynnwys problemau gyda llythrennedd rhai dysgwyr yn effeithio ar eu gallu i ddarllen cwestiynau o fewn yr asesiad rhifedd gweithdrefnol, gan arwain at rai canlyniadau a sgoriau yn ymddangos fel pe baent yn gwyro oddi wrth ddisgwyliadau athrawon. Roedd mwy na chwarter yr ymarferwyr o’r farn fod yr asesiadau yn ychwanegiad diangen at asesu parhaus gan athrawon.

xxxiv. Rhoddwyd enghreifftiau lle mae’r data o’r asesiadau wedi cael ei ddefnyddio mewn modd cadarnhaol ar gyfer dysgwyr unigol a dosbarthiadau yn eu cyfanrwydd. Y farn oedd fodd bynnag fod y data fwyaf defnyddiol mewn achosion lle mae canlyniadau’n tynnu sylw at faterion yn ymwneud â’r dosbarth fel cyfanrwydd wrth adnabod yr elfennau’r oedd fwyaf o angen eu datblygu.

*Asesiadau Personol Ar-lein a Llesiant Dysgwyr*

xxxv. Teimlai ymarferwyr ar y cyfan fod yr asesiadau personol ar-lein yn well i lesiant dysgwyr na phrofion ar bapur. Roedd nifer bach o ymarferwyr yn cyfeirio mewn modd cadarnhaol hefyd at y ffaith fod yr asesiadau’n gadael i ddysgwyr symud ar eu cyflymder eu hunain.

Roedd y defnydd o gyfrifiaduron a llechi yn caniatáu athrawon i gyflwyno’r asesiadau fel “cwis” yn hytrach na “phrawf”. Roedd fodd bynnag nifer bach o ddysgwyr ar draws naw ysgol a oedd yn cael anawsterau gyda gofynion TG yr asesiad, naill ai yn sgil anawsterau

wrth ddefnyddio llygoden neu fysellfwrdd, neu anawsterau wrth symud rhwng ffenestri ar y sgrin yn ystod yr asesiad darllen personol.

xxxvi. Er bod natur ymaddasol yr asesiadau personol ar-lein wedi arwain at brofiad cadarnhaol i'r mwyafrif o ddysgwyr, mae wedi arwain at effaith negyddol ar lesiant rhai dysgwyr, gyda dysgwyr sy'n cyflawni'n uwch yn fwy tebygol o ddioddef straen yn sgil wynebu cwestiynau heriol, weithiau gan ymdrin â phynciau yn tu hwn i'r rheini yr ymdrinir â hwy yn yr ystafell ddosbarth. Roedd ymarferwyr yn esbonio eu bod yn lled-fychanu'r asesiadau wrth ddysgwyr er mwyn osgoi achosi straen neu bryder.[3]

xxxvii. Er bod y mwyafrif o ysgolion yn caniatáu seibiannau, roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn adrodd am achosion o ddysgwyr yn treulio cyfnodau hir yn cyflawni'r asesiadau.[4]

xxxviii. Roedd y defnydd o asesiadau personol yn y Cyfnod Sylfaen yn cael ei weld hefyd gan y mwyafrif o ymarferwyr fel rhywbeth nad oedd o anghenrheidrwydd yn gyson ag egwyddorion addysgegol y Cyfnod Sylfaen, gyda nifer bach yn dweud bod unrhyw asesu ffurfiol yn anghydnaws.

[3] Mae'r canllawiau sy'n ymwneud ag asesiadau personol yn annog ymarferwyr i esbonio i ddysgwyr y byddant yn wynebu rhai cwestiynau heriol.
[4] Mae'r canllawiau yn annog ymarferwyr i ddefnyddio eu doethineb wrth ddod ag asesiadau i ben gyda dysgwyr sy'n cymryd amser hir.

# Rhan 1 – Cyflwyniad a Methodoleg

## 1. Cyflwyniad

1.1 Comisiynwyd Miller Research, ar y cyd ag Old Bell 3 a Meurig Roberts, i gyflawni ymchwil i archwilio'r defnydd o asesiadau yn y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion.

1.2 Diben yr ymchwil yw archwilio'r graddau y caiff Proffil y Cyfnod Sylfaen ac asesiadau personol ar-lein eu integreiddio yn ymarferol, yn ogystal â'u heffaith ar addysgu a dysgu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Trwy archwilio'r hyn roedd gan ymarferwyr i'w ddweud am gwestiynau allweddol ynghylch asesu, bwriad yr ymchwil yw darparu data a dealltwriaeth i Lywodraeth Cymru i'w harwain wrth lunio penderfyniadau ac adnabod meysydd lle mae angen mwy o gefnogaeth ac adnoddau.

1.3 Mae'r ymchwil yn rhoi sylw i'r gwaith o gynllunio, gweinyddu a gweithredu asesiadau yn y Cyfnod Sylfaen, graddau integreiddio asesiadau wrth ymarfer a chynllunio (gan gynnwys asesiadau sylfaenol a diwedd cyfnod, a'r asesiadau personol), effeithiolrwydd canfyddedig amrywiol ddulliau a systemau asesu, defnyddioldeb y data a ddarperir gan ddulliau asesu, eu heffaith ar ddysgwyr, rhwystrau rhag arferion da, ac wrth edrych ymlaen, sut y bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn effeithio ar asesiadau. Mae'r ymchwil yn canolbwyntio ar Broffil y Cyfnod Sylfaen ac asesiadau personol ar-lein.

*Y Cyfnod Sylfaen*

1.4 Y Cyfnod Sylfaen, a gyflwynwyd yn 2010, yw'r cwricwlwm statudol i blant 3 i 7 mlwydd oed yng Nghymru. Mae'n annog dysgwyr i fod yn greadigol a dychmygus, gan wneud dysgu yn fwy pleserus ac effeithiol gan ddiwallu eu hanghenion datblygiadol.

1.5 Mae’r Cyfnod Sylfaen yn rhoi pwyslais mawr ar blant yn dysgu trwy wneud. Rhoddir mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ennill profiadau ymarferol trwy chwarae ac ymwneud gweithredol yn hytrach na thrwy gwblhau ymarferion mewn llyfrau.

1.6 Caiff cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ei weithredu fel fframwaith blaengar i ddiwallu anghenion amrywiol pob dysgwr, gan gynnwys y rheini sydd ar gam cynharach o ddatblygiad a’r rheini sy’n fwy abl. Dylai plant symud ymlaen i’r camau nesaf o’u dysgu pan maent yn barod o ran eu datblygiad ac yn eu hamser eu hunain.

1.7 Y saith Maes Dysgu a Phrofiad yn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd yw:

- datblygu’r Gymraeg (i leoliadau ac ysgolion lle mai’r Saesneg yw’r prif gyfrwng cyfathrebu)
- gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd
- datblygiad creadigol
- datblygiad personol a chymdeithasol, llesiant, ac amrywiaeth ddiwylliannol
- iaith, llythrennedd, a sgiliau cyfathrebu
- datblygiad mathemategol
- datblygiad corfforol.

1.8 Ar gyfer pob maes dysgu mae’r rhaglen addysgol yn nodi beth ddylid ei addysgu i ddysgwyr, ac mae’r *canlyniadau* yn nodi safonau disgwyliedig perfformiad dysgwyr.

*Asesu yn y Cyfnod Sylfaen*

1.9 Caiff y gwaith o asesu ei arwain gan Broffil y Cyfnod Sylfaen, dull asesu sy’n cysoni asesu yn 3 oed yr holl ffordd at ddiwedd y cyfnod. Mae’r Proffil hefyd yn helpu asesu cenedlaethol pob dysgwr er mwyn sefydlu llinell sylfaen o alluoedd a datblygiad dysgwyr yn y pedwar Maes Dysgu o fewn y chwe wythnos gyntaf o gychwyn yn y Flwyddyn Derbyn (a adnabyddir yn gyffredin fel yr asesiad sylfaenol).

1.10 Mae dau ran i'r Proffil – Proffil Cryno a Phroffil Llawn. Mae'r naill a'r llall yn helpu asesu dysg a datblygiad plant ochr yn ochr â chyfres o risiau sgiliau y dangosir enghreifftiau ohonynt mewn canllawiau.

1.11 Lluniwyd y *Proffil Cryno* i'w ddefnyddio fel asesiad sylfaenol yn y Flwyddyn Derbyn (y flwyddyn ysgol pan fo plentyn yn troi'n 5 oed) ac mae'n canolbwyntio ar set benodol o risiau sgiliau.

1.12 Lluniwyd y *Proffil Llawn* i helpu asesu drwy gydol y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd Blwyddyn 2. Mae'n cynnwys amrywiaeth helaethach o sgiliau na'r fersiwn Gryno, sy'n helpu asesu wrth i ddysgwr symud trwy'r Cyfnod Sylfaen i roi darlun llawnach o ddatblygiad. Gellir ei ddefnyddio hefyd i ddarparu gwybodaeth fanylach ar ddysgwyr sydd â phryderon yn eu cylch, waeth beth fo'u hoedran.

1.13 Er bod ymarferwyr (gan gynnwys mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir sy'n darparu addysg gynnar) yn cael eu hannog i ddefnyddio'r Proffil drwy gydol yr holl gyfnod, dim ond yr asesiad sylfaenol sy'n statudol.

*Y Cwricwlwm i Gymru*

1.14 O fis Medi 2022 ymlaen, bydd Fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddisodli gan y Cwricwlwm i Gymru. Nod canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yw helpu pob ysgol i lunio ei chwricwlwm ei hun, gan alluogi eu dysgwyr i ddatblygu tuag at bedwar diben y cwricwlwm – y man cychwyn a'r dyhead i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Mae'r cwricwlwm newydd yn sefydlu continwwm o ddysgu o'r oedrannau 3 i 16 trwy gael gwared ar gyfnodau allweddol 2, 3 a 4 a'r Cyfnog Sylfaen. Er y bydd newidiadau mewn terminoleg a strwythur yn anochel, mae'r awydd i adlewyrchu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen trwy'r cwricwlwm 3-16 newydd yn golygu y bydd egwyddorion addysgegol allweddol y Cyfnod Sylfaen yn dal i fod yn ysgogydd allweddol wrth ei ddatblygu, fel na bydd gofyn am newidiadau sylweddol mewn dull.

1.15 O dan y Cwricwlwm i Gymru, ysgolion fydd yn gyfrifol am lunio a chynllunio eu trefniadau asesu eu hunain. Felly, rhoddir mwy o ryddid i ysgolion ac ymarferwyr wrth lunio eu trefniadau asesu, yn unol â'r canllawiau statudol ar Gefnogi Cynnydd Dysgwyr: Canllawiau Asesu a ddarperir fel rhan o fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

*Asesiadau Personol Ar-lein*

1.16 Cafodd y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol eu cyflwyno yn 2013 i'w defnyddio mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru o'r Cyfnod Sylfaen at Flwyddyn 11. Ar y cychwyn, roedd y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol, sy'n statudol i bob dysgwr ym mlynyddoedd 2-9 mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, yn brofion ar bapur a weinyddid yn flynyddol mewn ysgolion (ar ddiwedd Ebrill/dechrau Mai). Roeddent yn cynnwys prawf Darllen awr o hyd, prawf 30-munud o Rifedd (Gweithdrefnol), a phrawf 30-munud o Rifedd (Rhesymu). Roedd y prawf Darllen yn asesu dealltwriaeth a sgiliau darllen uwch. Roedd y prawf Rhifedd (Gweithdrefnol) yn canolbwyntio ar ffeithiau a gweithdrefnau rhifol; y dulliau sydd eu hangen i weithredu rhifedd. Roedd y prawf Rhifedd (Rhesymu) yn asesu sut roedd dysgwyr yn gweithredu rhesymu rhifol i ddatrys problemau.

1.17 Canfu Adroddiad gan Estyn yn 2017 “mewn llawer o ysgolion, mae prosesau ar gyfer asesu llythrennedd a rhifedd yn rhy gymhleth ac yn cymryd gormod o amser. Maent yn canolbwyntio ar gasglu swm mawr o wybodaeth yn hytrach nag ar ddadansoddi cynnydd disgyblion dros amser neu adnabod meysydd penodol sydd angen eu datblygu. Mewn gormod o achosion, caiff asesu ei ddefnyddio fel proses i'w dilyn ac nid yw'n ddigon diagnostig i roi arweiniad ar gyfer cynllunio yn y dyfodol neu'r ‘camau nesaf’ i ddisgyblion”.

1.18 Archwiliwyd y posibilrwydd o ddefnyddio profi ymaddasol yn yr adroddiad Dyfodol Llwyddiannus, a oedd yn argymell y defnydd o ddulliau arloesol a rhyngweithiol o asesu. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru felly gyflwyno asesiadau personol ar-lein, a gyflwynwyd gam

wrth gam o hydref 2018 gyda Rhifedd (Gweithdrefnol), a ddilynwyd gan asesiadau Darllen (Cymraeg a Saesneg) yn nhymor yr hydref 2019. Yn sgil Covid-19, aeth Rhifedd (Rhesymu) yn fyw yn hydref 2021 yn hytrach na 2020 fel y bwriadwyd yn wreiddiol.

1.19 Penderfynwyd symud ar-lein am nifer o resymau. Mae'n ceisio cefnogi cynnydd dysgwyr yn well, wrth ddod ag asesiadau yn nes at y dull o gefnogi cynnydd dysgwyr unigol a ddisgrifir yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae i'r symud ar-lein y nod hefyd o fanteisio ar y gwell profiad defnyddiwr i ddysgwyr ac athrawon y gall asesiadau ar-lein ei gynnig. Cafodd asesiadau personol yng Nghymru eu llunio i gynnig y nodweddion canlynol:

- Mae'r asesiadau yn ymaddasol – caiff cwestiynau eu dewis ar sail yr ymatebion i gwestiynau blaenorol, ac mae hyn yn addasu lefel yr her i bob dysgwr.
- Gall dysgwyr weithio trwy'r asesiadau ar eu cyflymder eu hunain a chymryd seibiant os oes angen.
- Mae'r asesiadau ar-lein yn rhoi adborth a all helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau trwy ddeall beth y gallant ei wneud, y pethau y gall fod angen iddynt weithio arnynt, a'u camau nesaf.
- Nid oes 'ffenest brofi'; mae'n statudol i ddysgwyr gymryd un asesiad ym mhob pwnc yn ystod y flwyddyn academaidd, ond mae ail asesiad dewisol hefyd ar gael. Mae'r amseru yn hyblygu ac yn ôl disgresiwn yr ysgol.
- Mae asesiadau yn ffurfiannol, ac iddynt y nod o ddarparu wybodaeth ar sgiliau dysgwyr er mwyn cefnogi cynnydd.
- Gall ysgolion drefnu asesiadau i grwpiau bach neu fawr, ac ar ddyfeisiadau gwahanol (cyfrifiaduron personol, gliniaduron, llechi), gan ddibynnu ar yr hyn sydd orau ganddynt ac ar eu cyfleusterau.
- Mae'r marcio yn digwydd yn awtomatig a gall ysgolion weld adroddiadau ar unigolion a grwpiau y diwrnod ar ôl i asesiadau gael eu gwneud.

1.20 Bwriad y dull hwn, sy'n disodli profi ffurfiol ar bapur ag asesiadau ffurfiannol hyblyg, yw helpu lleddfu pryderon a godwyd gan Estyn yn 2017 ynghylch asesu yn y Cyfnod Sylfaen a ganfu bod "llawer o ysgolion yn teimlo pwysau i baratoi disgyblion yn ffurfiol ar gyfer profion darllen a rhifedd cenedlaethol, gan gyfrannu at amrywiadau helaeth mewn arferion cyfnod syflaen. Mae hyn yn aml ar draul datblygiad sgiliau creadigol a chorfforol disgyblion."

*Gweithredu*

1.21 Comisiynwyd astudiaeth ddichonoldeb er mwyn asesu gallu ysgolion i symud oddi wrth profion ar bapur at asesu ymaddasol ar-lein.

1.22 Mae athrawon wedi bod yn ymwneud yn natblygiad parhaus yr asesiadau personol ar-lein trwy baneli athrawon, lle'r oedd y deunyddiau a ddefnyddiwyd yn yr asesiadau yn cael eu hadolygu gan athrawon, gyda newidiadau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar adborth. Mae pob un o'r tri maes o asesiadau personol (rhifedd gweithdrefnol, darllen a rhifedd rhesymu) wedi cael eu treialu gyda sampl mawr o ysgolion mewn dau gam – llinellol ac ymaddasol – gyda newidiadau'n cael eu gwneud ar sail y canfyddiadau o'r treialon.

1.23 Cyhoeddwyd canllawiau ar yr asesiadau personol ar-lein er mwyn helpu ysgolion i weinyddu'r asesiadau. Mae hyn yn cynnwys llawlyfr gweinyddu sy'n nodi'r gofynion statudol, Canllawiau manwl gam wrth gam i Ddefnyddwyr yn ogystal â gwybodaeth i rieni a gofalwyr. Mae deunyddiau hyfforddi megis gweminarau wedi eu recordio hefyd ar gael i ymarferwyr, yn ogystal â chyfleuster desg gymorth.

1.24 Rhoddir gwybod i ysgolion y gallant gyflawni asesiadau personol ym mhob pwnc hyd at ddwywaith y flwyddyn ac mae'n ofynnol iddynt eu cyflawni o leiaf unwaith. Gellir trefnu'r asesiadau personol unrhyw adeg drwy gydol y flwyddyn academaidd, gydag ysgolion yn gallu cyflawni asesiadau i ddysgwyr unigol, grwpiau bach, neu ddosbarthiadau cyfan.

1.25 Mae'r Canllawiau i Ddefnyddwyr Ysgolion yn rhoi canllawiau cynhwysfawr i ymarferwyr ar sut i weinyddu asesiadau personol gyda dysgwyr. Rhoddir canllawiau ar drefnu'r asesiadau a galluogi dysgwyr i ymgyfarwyddo â'r mathau o gwestiynau y byddant yn eu gweld. Rhoddir canllawiau hefyd ar sut i reoli dysgwyr sy'n cymryd yr asesiadau, sy'n cynnwys canllawiau ar seibiannau gorffwys a phryd y gallai ymarferwyr benderfynu ddiweddu asesiadau sydd yn eu barn hwy yn cymryd amser afresymol o hir, a sut i ateb cwestiynau gan ddysgwyr.

1.26 Nid oes hyd penodol o amser i'r asesiadau ac maent yn caniatáu dysgwyr i weithio ar eu cyflymder eu hunain. Disgwylir i ymarferwyr ddefnyddio eu doethineb proffesiynol o ran hyd ac amlder seibiannau, yn ogystal â pha mor hir i ganiatáu'r asesiad i redeg cyn dod ag ef i ben. Mae'r canllawiau hefyd yn argymell bod ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth benodol i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 2 a 3, darparu toriadau seibiant ac asesu pa bryd i ddod ag asesiad i ben.

1.27 Mae'r canllawiau hefyd yn ei gwneud yn glir i ymarferwyr nad yw asesiadau'n cael eu cynllunio i adlewyrchu gallu disgwyliedig penodol grŵp blwyddyn y dysgwr; yn hytrach, mae eu natur ymaddasol yn golygu y bydd dysgwyr yn wynebu cwestiynau sy'n ymaddasu i'w lefel o sgiliau waeth beth am eu grŵp blwyddyn. Bydd hyn yn arwain at rai dysgwyr yn wynebu pynciau nad ydynt ymwneud â hwy eto yn yr ystafell ddosbarth.

1.28 Mae'r Canllawiau Defnyddwyr yn darparu rhestr wirio i ymarferwyr, gan nodi'r hyblygrwydd sydd ar gael i ysgolion wrth gyflawni'r asesiadau personol. Mae hyn yn cynnwys caniatáu dysgwyr i gymryd yr asesiadau drwy gydol diwrnod ysgol a galluogi ymarferwyr i ddefnyddio eu doethineb o ran pryd i gymryd seibiant, a hyd y seibiannau hynny.

*Strwythur yr Adroddiad*

1.29 Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n dri rhan, gyda rhan un yn cynnwys y cyflwyniad a'r fethodoleg, rhan dau yn canolbwyntio ar Broffil y

Cyfnod Sylfaen, a rhan tri yn ymdrin ag asesiadau personol ar-lein. Bydd yr adroddiad felly'n parhau fel a ganlyn:

- Rhan Un – Cyflwyniad a Methodoleg
  - Mae Adran 2 yn disgrifio methodoleg yr ymchwil, gan gynnwys esboniad o'r fframwaith samplu a ddefnyddiwyd, a throsolwg o'r gwaith maes a gyflawnwyd.

- Rhan Dau – Proffil y Cyfnod Sylfaen: Canfyddiadau Manwl
  - Mae Adran 3 yn rhoi amlinelliad o agweddau ymarferwyr at asesu yn gyffredinol.
  - Mae Adran 4 yn ymdrin â chanfyddiadau Proffil y Cyfnod Sylfaen. Mae'n archwilio barnau ymarferwyr ar y Proffil Cryno a'r Proffil Llawn, dulliau asesu eraill maent yn eu defnyddio naill ai ar y cyd â Phroffil y Cyfnod Sylfaen, neu'n hytrach nag ef, a barnau cyffredinol eraill ac adborth ar arferion asesu yn y Cyfnod Sylfaen.

- Rhan Tri – Asesiadau Personol Ar-lein: Canfyddiadau Manwl
  - Mae Adran 5 yn nodi agweddau ymarferwyr at yr asesiadau personol ar-lein.
  - Mae Adran 6 yn nodi'r casgliadau o'r ymchwil a chyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae’r adran hon yn amlinellu’r fethodoleg a ddefnyddiwyd wrth gyflawni’r ymchwil.

*Cyfnod Cwmpasu*

2.2 Siaradwyd â deunaw o randdeiliaid[5] fel rhan o’r cyfnod cwmpasu, naill ai trwy gyfweliadau unigol neu weithdai grŵp. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys Arweinwyr Cyfnod Sylfaen a swyddogion allweddol eraill yn y pedwar Consortiwm Rhanbarth, cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol sy’n gyfrifol am y Cyfnod Sylfaen, a chynrychiolwyr o Estyn.

*Dewis samplau*

2.3 Cynhwyswyd ugain o ysgolion i gyflawni gwaith maes. Cafodd ysgolion eu dewis fel y byddent yn cynrychioli cwmpas eang ar sail amryw o ffactorau, gan gynnwys daearyddiaeth, iaith, maint, a’r nifer o ddysgwyr a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Cafodd ysgolion eu dewis hefyd ar sail tystiolaeth iddynt gyflawni asesiadau personol cyn 2021, gyda’r sampl terfynol yn cynnwys chwe ysgol a oedd wedi cyflawni asesiadau in 2020 neu 2019.

2.4 Chwiliwyd am ysgolion ar draws ugain o Awdurdodau Lleol yng Nghymru er mwyn sicrhau dosbarthiad daearyddol cytbwys. Oherwydd mân heriau wrth recriwtio o fewn rhai Awdurdodau Lleol yn sgil pwysau a achoswyd gan Covid-19, mae’r sampl terfynol o ysgolion yn cynrychioli 17 o Awdurdodau Lleol ledled Cymru, gyda’r pedwar Consortiwm Rhanbarthol yn cael eu cynrychioli yn ogystal â Cheredigion a Phowys.

2.5 Cafodd ysgolion eu dewis hefyd ar sail y cyfrwng addysgu, gydag ysgolion yn cael eu categoreiddio naill ai fel rhai Cymraeg, Saesneg,

[5] Roedd y rhain yn cynnwys y Consortia Rhanbarthol canlynol: GWE, ERW, Canolbarth y De, EAS. Cyfwelwyd hefyd â rhanddeiliaid yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Ceredigion ac ESTYN.

neu ddwyieithog mewn achosion lle mae darpariaeth dwy ffrwd neu Saesneg gyda chyfran sylweddol o Gymraeg.

2.6 Cafodd cymhwysedd am brydau ysgol am ddim eu categoreiddio fel naill ai isel, canolig, neu uchel, gyda'r trothwyau yn cael eu gosod fel a ganlyn:

- Isel <9%
- Canolig 10-19%
- Uchel >20%

2.7 Mae'r categoreiddio hwn yn seiliedig ar sgyrsiau a gynhaliwyd gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid, gyda'r categori "uchel" yn cynrychioli ysgol sy'n uwch na chyfartaledd Cymru am gymhwysedd am brydau ysgol am ddim ar sail data cyn y pandemig.[6]

2.8 Mae'r categoreiddio ar gyfer maint ysgolion yn seiliedig ar y trothwyau canlynol:

- Bach > 100
- Canolig 101-250
- Mawr >251

2.9 Mae'r ugain o ysgolion y cyd-drafodwyd â hwy wedi eu nodi yn y tabl isod.

**Tabl 2.1: Sampl o ysgolion astudiaethau achos**

| Awdurdod Lleol / Consortiwm | Iaith[7] | Cymhwysedd am brydau ysgol am ddim | Maint yr ysgol |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Cyflawni Addysg y De-ddwyrain | | | |
| Caerffili | Cymraeg | Canolig | Mawr |
| Blaenau Gwent | Saesneg | Uchel | Canolig |
| Sir Fynwy | Saesneg | Isel | Canolig |
| Casnewydd | Saesneg | Uchel | Mawr |

[6] Cafodd cyfartaledd cymhwysedd am brydau ysgol am ddim yng Nghymru ei gofnodi fel 19.9%: Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Ebrill 2021 (dros dro). Cymerwyd cyfartaledd cymhwysedd prydau ysgol am ddim yng Nghymru o ffigurau 2019 fel data cymhwysedd prydau ysgol am ddim o ysgolion a oedd yn deillio o set ddata 2018 (cyn y pandemig).
[7] Caiff dwyieithog ei gategoreiddio fel a ganlyn: DS = Dwy Ffrwd. EW = Saesneg gyda chyfran sylweddol o Gymraeg. TR = Pontio (Cymraeg yw iaith weithredol yr ysgol o ddydd i ddydd. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Gymraeg).

| | | | |
|---|---|---|---|
| Torfaen | Saesneg | Canolig | Canolig |
| Canolbarth y De | | | |
| Merthyr Tudful | Saesneg | Isel | Canolig |
| Rhondda Cynon Taf | Dwyieithog (DS) | Canolig | Mawr |
| Rhondda Cynon Taf | Dwyieithog (EW) | Uchel | Bach |
| Caerdydd | Cymraeg | Isel | Canolig |
| Caerdydd | Saesneg | Uchel | Mawr |
| GWE | | | |
| Wrecsam | Saesneg | Isel | Canolig |
| Sir y Fflint | Cymraeg | Uchel | Bach |
| Conwy | Dwyieithog (EW) | Uchel | Bach |
| Gwynedd | Cymraeg | Canolig | Canolig |
| Gwynedd | Cymraeg | Isel | Bach |
| Partneriaeth | | | |
| Sir Gaerfyrddin | Dwyieithog (TR) | Canolig | Canolig |
| Abertawe | Cymraeg | Isel | Mawr |
| Partneriaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru | | | |
| Ceredigion | Cymraeg | Uchel | Mawr |
| Powys | Dwyieithog (DS) | Isel | Canolig |
| Awdurdodau Lleol | | | |
| Castell-nedd Port Talbot | Saesneg | Uchel | Mawr |

2.10 Er mwyn cyd-drafod gydag ysgolion a recriwtio ar gyfer gwaith maes, cysylltwyd â phob Consortiwm Rhanbarthol, a chysylltwyd ar wahân ag Awdurdodau Lleol megis Powys, Castell-nedd Port Talbot, a Cheredigion nad oedd o fewn Consortia Rhanbarthol ar y pryd. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd Consortia Rhanbarthol yn cysylltu ag ysgolion ar ran y tîm ymchwil. Roedd manylion cyswllt ysgolion a oedd wedi cytuno i gymryd rhan yn yr ymchwil yn cael eu trosglwyddo wedyn i'r tîm ymchwil. Cynhaliwyd sgwrs gychwynnol gyda'r prifathro, dirprwy brifathro, neu'r Arweinydd Cyfnod Sylfaen, pryd y gwnaed trefniadau i gynnal gwaith maes gydag ymarferwyr yn yr ysgol.

2.11 Fel rhan o'r gwaith maes, cynhaliwyd cyfweliadau trylwyr ag unigolion neu grwpiau gydag amrywiaeth o ymarferwyr ym mhob ysgol, gan gynnwys uwch arweinwyr, Arweinwyr Cyfnod Sylfaen, athrawon yn y Cyfnod Sylfaen, cynorthwywyr addysgu lefel uwch, cynorthwywyr

addysgu, ac unrhyw bersonèl perthnasol eraill. Rhwng yr ugain ysgol, cyfwelwyd â 76 o ymarferwyr (gweler Tabl 2.2, a gweler Atodiad A am ddadansoddiad llawn o'r nifer o ymarferwyr y siaradwyd â hwy yn ôl math o ysgol). Yn y tabl isod, mae ymarferwyr a oedd yn dal rolau lluosog wedi cael eu categoreiddio yn ôl eu rôl uchaf. Er enghraifft, mae athrawon ystafell ddosbarth a oedd yn gweithredu fel Arweinwyr Cyfnod Sylfaen wedi cael eu categoreiddio fel yr olaf.

**Tabl 2.2: Ymarferwyr a rhiant-lywodraethwyr a gyfwelwyd**

| Rôl | Cyfanswm | Nodiadau |
|---|---|---|
| Prifathrawon | 8 | |
| Dirprwy Brifathrawon / Prifathrawon Cynorthwyol | 9 | O'r rhain, roedd un hefyd yn athro Blwyddyn 1, un yn athro Blwyddyn 2, a dau yn gydlynwyr asesu. |
| Arweinwyr Cyfnod Sylfaen | 9 | O'r Arweinwyr Cyfnod Sylfaen hyn, roedd tri yn athrawon Blwyddyn 2, dau yn athrawon Blwyddyn 1 a 2, roedd un yn addysgu ystafell ddosbarth Cyfnod Sylfaen o Flynyddoedd 1, 2 a Derbyn, ac roedd un addysgu dosbarth Derbyn. |
| Athrawon Blwyddyn 2 | 9 | Roedd un athro Blwyddyn 2 hefyd yn gydlynydd anghenion dysgu ychwanegol. |
| Athrawon Blwyddyn 1 | 3 | |
| Athrawon Blwyddyn Derbyn | 7 | |
| Athrawon Meithrin | 5 | |
| Athrawon sawl blwyddyn ysgol (Meithrin, Derbyn a Blynyddoedd 1 a 2) | 8 | Roedd un athro sawl blwyddyn ysgol hefyd yn gydlynydd anghenion dysgu ychwanegol. |

| | | |
|---|---|---|
| Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch | 7 | |
| Cynorthwywyr Addysgu | 3 | |
| Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) | 3 | Roedd un cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn dal rolau addysgu eraill o fewn yr ysgol y tu hwnt i'r flwyddyn derbyn. |
| Arall | 1 | Athro Blwyddyn 6 ac arweinydd asesu |
| Rhiant-Lywodraethwyr | 4 | |
| **Cyfanswm** | **76** | |

*Rhiant-Lywodraethwyr*

2.12 Yn ogystal ag ymarferwyr, cyfwelwyd hefyd â phedwar rhiant-lywodraethwr er mwyn casglu ymateb llywodraethwyr sydd â gradd o oruchwyliaeth strategol dros benderfyniadau a wnaed ynghylch y Cyfnod Sylfaen, tra bod ganddynt blentyn yn y Cyfnod Sylfaen naill ai ar hyn o bryd neu yn y gorffennol. Cafodd y rhiant-lywodraethwyr eu recriwtio trwy ysgolion yr astudiaethau achos, gydag argymhellion am lywodraethwyr addas i siarad â hwy yn cael eu gwneud gan gyfundrefnau ysgolion.

2.13 Profodd recriwtio rhiant-lywodraethwyr i fod yn anodd yn sgil teimlad cyffredinol ymysg ysgolion yr astudiaethau achos nad oeddent mewn sefyllfa arbennig o dda i wneud sylwadau ar Broffil y Cyfnod Sylfaen nac ar yr asesiadau personol. Roedd un rhiant-lywodraethwr, er enghraifft, yn nodi ei fod trwy ei rôl yn fwy ymwybodol o wybodaeth ynghylch asesiadau mewn blynyddoedd ysgol hyn y tu hwnt i'r Cyfnod Sylfaen yn sgil y ffaith fod dull seiliedig ar chwarae yn cael ei flaenoriaethu ymysg blynyddoedd y Cyfnod Sylfaen yn unol â'r egwyddorion addysgol a fwriadwyd ar ei gyfer.

# Rhan 2 – Proffil y Cyfnod Sylfaen: Canfyddiadau Manwl

## 3. Asesu yn y Cyfnod Sylfaen a Phroffil y Cyfnod Sylfaen

*Myfyrdodau Ymarferwyr ar Ddiben Asesu*

3.1 Roedd ymarferwyr yn nodi nifer o seiliau rhesymegol cysylltiedig a oedd yn cadarnhau diben a gwerth asesu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Sefydlu llinell sylfaen, neu fan cychwyn.
- Casglu gwybodaeth ar yr hyn sydd orau gan ddysgwyr, megis beth sy'n ennyn eu diddordeb, a yw'r plentyn yn dysgu'n well o dan do neu yn yr awyr agored.
- Adnabod y camau nesaf i'r dysgwyr:
  - Beth sydd arnynt ei angen i wneud cynnydd?
  - Pwy mae angen iddynt eu herio?
  - Sut ddylid gosod dysgwyr mewn grwpiau?
- Adnabod meysydd lle mae ar ddysgwyr angen sylw a chefnogaeth ychwanegol, a phenderfynu ar ymyraethau. Mae asesiadau'n galluogi ymarferwyr i adnabod dysgwyr sy'n llwyddo'n rhwydd, gan eu galluogi hwy i herio dysgwyr mwy abl.
- Asesu gwelliannau er mwyn gwneud cymariaethau â data neu wybodaeth asesu blaenorol. Gellir olrhain a dangos gwerth ychwanegol yr addysgu a'r dysgu.

*Y Dulliau Gorau o Asesu*

3.2 Roedd ymarferwyr yn unfrydol yn nodi arsylwi fel y modd gorau o gynnal asesiadau. Cafodd ei ddisgrifio fel gallu darparu "tystiolaeth gyfoethog" ar beth mae dysgwyr yn gallu ei wneud yn annibynnol, a'r graddau y maent yn defnyddio sgiliau a ddysgwyd mewn cyd-destunau bywyd go iawn.

3.3 Cafodd asesu parhaus fel arfer ddyddiol gyson hefyd ei nodi gan y mwyafrif o ymarferwyr fel rhywbeth pwysig. Ar sail enghreifftiau a

roddwyd, mae hyn yn golygu sylwi ar y dysgwr yn ddyddiol yn ogystal â defnyddio arferion mwy gweithredol, megis asesu beth sydd yn llyfrau gwaith dysgwyr, asesu trwy ryngweithio'n llafar gyda'r dysgwr, a defnyddio asesiadau a drefnwyd i fesur lefelau sgiliau.

3.4 Roedd pedwar ymarferydd yn dadlau bod angen ymddiried yn arbenigedd athrawon i wneud asesiadau ar sail arsylwi parhaus, a bod ganddynt hwy ac ymarferwyr eraill (megis cynorthwywyr addysgu lefel uwch a chynothwywyr addysgu) ymwybyddiaeth dda o allu dysgwr trwy eu harsylwadau dyddiol a'u rhyngweithiadau gyda'r dysgwr. Roedd nifer bach o ymarferwyr yn dweud yn benodol fod asesiadau parhaus gan athrawon yn fwy cywir nag asesiadau Proffil y Cyfnod Sylfaen.

3.5 Tynnwyd sylw hefyd at ddibynnu ar sgoriau asesiadau ysgrifenedig blaenorol fel anhawster gan un ymarferydd, wrth bwysleisio bod danfon dyfarniadau ymlaen yn gallu rhoi darlun camarweiniol. Teimlent ei bod yn well caniatáu i ymarferwyr ddibynnu ar eu dyfarniadau eu hunain o'r hyn a welant o ddydd i ddydd. Roedd ymarferydd, er yn cydnabod bod asesiad yn gywir ar y pryd, yn esbonio eu bod yn aml yn gweld gwelliannau amlwg o fewn amser byr:

> "gyda bechgyn rydych yn aml yn gweld y fath naid gyda nhw, gan fod cymaint yn dibynnu ar aeddfedrwydd."

3.6 Dywedodd nifer o ymarferwyr fod newidiadau datblygiadol cyflym yn digwydd o fewn plant oedran y Cyfnod Sylfaen, gan bwysleisio pwysigrwydd asesu parhaus.

# 4. Proffil y Cyfnod Sylfaen

### Sylwadau Ymarferwyr ar Broffil y Cyfnod Sylfaen

*Cydnawsedd ag Egwyddorion Addysgegol y Cyfnod Sylfaenol*

4.1 Roedd ymarferwyr a rhanddeiliaid ar y cyfan yn teimlo bod Proffil y Cyfnod Sylfaen yn cydfynd yn dda â'r egwyddorion addysgegol sy'n cynnal y Cyfnod Sylfaen.

4.2 Roedd ymarferwyr o fewn Consortia Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol o'r farn ei fod yn gydnaws iawn ag egwyddorion addysgegol y Cyfnod Sylfaen cyn belled â bod asesiadau'n cael eu cyflawni'n briodol. Roedd Arweinydd Cyfnod Sylfaen un Awdurdod Lleol yn canmol y ffaith ei fod yn cael ei wneud "gyda phlant … nid yn cael ei wneud iddynt."

4.3 Yn bennaf, roedd yr ymateb cadarnhaol i'r cwestiwn hwn gan ymarferwyr i'w briodoli i'r ffaith fod Proffil y Cyfnod Sylfaen, a'r asesiadau a gyflawnwyd fel rhan o'r asesiadau sylfaenol a'r asesiadau diwedd cyfnod, yn seiliedig i raddau helaeth ar arsylwi. Teimlai mwyafrif llethol yr ymarferwyr fod yr asesu trwy arsylwi, os caiff hyn ei wneud yn iawn fel rhan o waith o ddydd i ddydd, yn gydnaws ag egwyddorion addysgegol y Cyfnod Sylfaen. Fel y'i disgrifiwyd gan ymarferwyr, mae asesu trwy arsylwi yn golygu'n aml gosod tasg i'w chyflwni, megis trefnu gweithgareddau lle gellir asesu sgiliau penodol, neu roi pethau mewn "meysydd dysgu" neu feysydd y ddarpariaeth i'r dysgwyr.

4.4 Roedd nifer o ymarferwyr yn disgrifio'r dull delfrydol fel sefyllfa lle nad yw'r dysgwyr yn gwybod eu bod yn cael eu hasesu. Roedd pob ymarferydd yn disgrifio'r asesiad sylfaenol fel yr un a oedd fwyaf posibl i'w gyflawni trwy arsylwi.

4.5 Fodd bynnag, roedd pob un ond dau o'r ymarferwyr yn nodi bod *rhai* gweithgareddau lle mae'n rhaid i ddysgwyr gael eu hasesu na ellid o angenrheidrwydd eu harsylwi trwy chwarae, gyda dysgwyr o

ganlyniad yn gorfod cyflawni nifer cyfyngedig o dasgau penodol, weithiau wrth ddesg, y gellir dangos dystiolaeth o sgiliau trwyddynt.

4.6 Er bod dau ymarferydd yn honni y gellid osgoi tasgau penodol lle’r oedd yn ofynnol i’r dysgwr eistedd wrth ddesg a chwblhau darn o waith, trwy fynd ati’n greadigol i ganfod ffyrdd o asesu sgiliau mewn ffyrdd eraill, canfyddiad y mwyafrif oedd na ellid osgoi tasgau o’r fath. Roedd ymarferwyr yn pwysleisio fodd bynnag fod defnyddio tasgau ffurfiol yn cael ei gyfyngu i ddim ond y meysydd sgiliau lle’r oedd arsylwi yn llai dichonadwy fel modd o asesu.

4.7 Mae enghreifftiau o’r math o sgiliau a oedd yn anodd eu hasesu trwy arsylwi yn cynnwys ysgrifennu, adnabod siapiau a phatrymau, ffurfio rhifau, deall cysyniadau mathemategol fel tymheredd, a thablau lluosi[8]. Roedd sgiliau mewn mathemateg yn cael eu disgrifio fel problem benodol gan bum ymarferydd, gan nad yw bob amser yn naturiol i ddysgwyr arddangos sgiliau mathemateg fel rhan o chwarae.

4.8 I’r dysgwr, mae’r gweithgareddau penodol hyn weithiau yn golygu eistedd wrth fwrdd er mwyn i allu neu sgìl penodol gael eu hasesu. Cafodd hyn ei ddisgrifio fel anhawster gan fod rhai dysgwyr heb ymwneud â gweithgareddau penodol lle mae’n rhaid iddynt eistedd wrth fwrdd a chyflawni tasg sy’n rhaid canolbwyntio arni. Roedd un ymarferydd yn nodi bod rhai dysgwyr yn teimlo straen gyda thasgau penodol:

> “Pan fo’r dysgwr mewn tasg asesu penodol – mae’n straen i’r dysgwr, gallant fynd i banig pan nad oes arnynt eisiau gwneud pethau’n anghywir.”

4.9 O ganlyniad i fod yn anghyfarwydd â’r tasgau penodol mwy ffurfiol, teimlai nifer bach felly na fyddai gwir allu’r dysgwyr efallai yn cael ei ddangos yn gywir trwy’r dasg benodol.

4.10 Dywedodd pedwar ymarferydd y gellid asesu rhai agweddau o ddatblygiad y dysgwyr, megis Datblygiad Personol a Chymdeithasol,

[8] Mae’r sgiliau hyn i’w gweld yng ngrisiau’r Proffil Llawn, ac nid yn y proffil cryno.

Llesiant ac Amrywiaeth Ddiwylliannol a Datblygiad Corfforol, yn haws na meysydd fel Datblygiad Mathemategol. Wrth asesu'r sgiliau anodd eu harsylwi hyn y teimlai'r ymarferwyr hyn a rhai ymarferwyr eraill fod yr egwyddorion addysgegol yn llai cyson â'r arferion yn y Cyfnod Sylfaen.

*Heriau wrth gysoni Proffil y Cyfnod Sylfaen ag egwyddorion addysgegol y Cyfnod Sylfaen*

4.11 Roedd rhai pwysau penodol o ran amser ac adnoddau yn cael eu disgrifio gan nifer bach o ymarferwyr fel rhywbeth a oedd yn effeithio ar y graddau y gellid cyflawni asesiadau trwy arsylwi. Roedd rhanddeiliad o Gonsortiwm Rhanbarthol a cyn-athro yn nodi bod pwysau amser yn effeithio ar y graddau y gellid cyflawni asesiadau yn gyson ag egwyddorion addysgegol y Cyfnod Sylfaen. Roeddent yn esbonio bod pwysau ar athrawon yn effeithio ar eu dewisiadau o ran osgoi gofyn i ddysgwyr eistedd i lawr a gwneud tasgau.

4.12 Cafodd maint dosbarthiadau a chymhareb ymarferwyr i ddysgwyr ei esbonio gan ddau ymarferydd fel rheswm pam fod yn rhaid trefnu rhai tasgau fel gwaith desg er mwyn eu hasesu. Roedd un o'r ymarferwyr hyn yn disgrifio sut nad oeddent weithiau yn gallu aros nes gallai dysgwr ddangos sgìl penodol trwy chwarae oherwydd fod ganddynt hyd at 30 o ddysgwyr mewn ystafell ddosbarth. Roedd un athro Blwyddyn 2 yn disgrifio y bydd yn eu hystafell hwy angen cadw ugain o ddysgwyr yn brysur tra bydd hi'n arsylwi deg, a bod diffyg ymarferydd arall ar gael yn effeithio faint o arsylwi maent yn gallu'i wneud.

4.13 Roedd rhai ymarferwyr yn nodi ei bod yn haws osgoi gorfod trefnu tasgau penodol pan oedd amryw o ymarferwyr wrth law, gyda phawb ohonynt yn arsylwi'r dosbarth. Mae hyn yn rhoi mwy o gyfle i ymarferydd arsylwi dysgwr yn cyflawni sgìl benodol trwy chwarae.

4.14 Gwnaed y pwynt gan saith ymarferydd fod y tensiwn rhwng asesiadau ac egwyddorion addysgegol y Cyfnod Sylfaen yn wahanol mewn

gwahanol flynyddoedd o fewn y Cyfnod Sylfaen. Fel y nododd un rhanddeiliad o Gonsortiwm Rhanbarthol, ym Mlwyddyn 2 mae asesu ac egwyddorion addysgegol yn gwrthdaro fwyaf, gan fod angen tystiolaeth o dasgau sy'n fwy anodd eu hasesu trwy chwarae ac arsylwi. Roedd un Arweinydd Cyfnod Sylfaen, wrth ddefnyddio enghraifft, yn esbonio bod dysgwr yn annhebygol o ddangos eu dealltwriaeth o dymheredd negyddol ichi wrth chwarae. Roedd ystafell ddosbarth blwyddyn 2 yn cael ei disgrifio hefyd gan yr ymarferwyr hyn fel un â llai o oedolion na blynyddoedd iau, gan arwain at lai o gyfle i arsylwi dysgwyr yn ystod gweithgareddau.

4.15 Fe wnaeth pedwar ymarferydd gyfeirio at y ffenest statudol chwe-wythnos ar gyfer cyflawni'r asesiad sylfaen fel rhywbeth a oedd yn rhoi pwysau, gydag un ymarferydd yn disgrifio'r pwysau hyn fel rhwystr rhag mwy o ffurfiau o asesu ar sail arsylwi. Roedd un athro blwyddyn derbyn yn esbonio y gallai dysgwr fod heb gysgu'n dda y noson cynt a heb fod ar ei orau, ond yn sgil y ffrâm amser tynn y mae'n rhaid cyflawni asesiad sylfaenol ynddo, yn aml nid ydynt yn gallu disgwyl am amser mwy addas.

4.16 Teimlai un ymarferydd nad oedd dysgwyr, wrth ddod i arfer mwy â defnyddio sgriniau o'r adeg maent yn fach, yn chwarae gymaint gartref, ac nad oeddent yn cyfathrebu gyda'u cyd-ddysgwyr. Roedd hyn yn peri rhwystrau pellach rhag arsylwi sgiliau a gallu trwy chwarae.

4.17 Roedd ymarferydd arall yn nodi mai un her benodol wrth gyflawni asesu trwy arsylwi oedd bod rhai dysgwyr yn fwy tebygol o fod â diddordeb mewn gweithgareddau y gellir eu harsylwi trwyddynt, tra bod yn rhaid annog neu orfodi dysgwyr eraill i gymryd rhan ynddynt.

4.18 Roedd nifer o ymarferwyr yn gwneud y pwynt fod eu blynyddoedd lawer o brofiad fel athrawon yn eu galluogi bellach i gynllunio asesiadau'n well fel rhan o weithgareddau, tra bod y broses ar gychwyn eu gyrfa yn teimlo'n fwy fel asesiadau ffurfiol lle'r oeddent yn ticio blychau. Bellach, maent yn gwybod ymlaen llaw pa dystiolaeth

sydd arnynt eisiau ei gweld allan o bob gweithgarwch, a sut i wau asesiadau i weithgareddau sy'n fwy seiliedig ar chwarae.

### Defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen

*Defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen mewn Addysg Feithrin*

4.19 Roedd gan 14 o'r 20 o ysgolion ddarpariaeth feithrin fel rhan o'u lleoliad, gyda 12 o'r rhain yn cyflawni rhyw ffurf o asesu sylfaenol o fewn y flwyddyn feithrin gan ddefnyddio naill ai Broffil y Cyfnod Sylfaen neu becyn asesu arall sydd ar gael yn fasnachol. Roedd ymarferwyr yn rhai o'r ysgolion hyn yn disgrifio defnyddio grisiau penodol yn unig o fewn y Proffil, megis Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Llesiant, ac Amrywiaeth Ddiwylliannol. Roedd un ysgol arall yn cyflawni eu hasesu eu hunain yn y flwyddyn feithrin ar sail system asesu a ddatblygwyd yn fewnol.

**Tabl 4.1: Defnyddio systemau asesu mewn addysg feithrin**

| System asesu a ddefnyddir mewn addysg feithrin | Nifer |
|---|---|
| Defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen mewn darpariaeth feithrin | 4 |
| Defnyddio system asesu arall sydd ar gael yn fasnachol mewn darpariaeth feithrin | 8 |
| Defnyddio system asesu a ddatblygwyd yn fewnol mewn darpariaeth feithrin | 1 |
| Ni chyflawnir asesu sylfaenol mewn darpariaeth feithrin | 1 |
| Ysgolion heb ddarpariaeth feithrin | 6 |

4.20 Roedd un ysgol yn disgrifio'u rhesymu dros gyflawni asesiad sylfaenol meithrin, gan esbonio bod, yn eu dalgylch hwy, dysgwyr yn dod i mewn ar lefel neilltuol o isel, a'i bod yn ddefnyddiol gweld y cynnydd roedd dysgwyr wed'i wneud drwy gydol y flwyddyn.

4.21 Roedd ysgolion eraill yn disgrifio'r defnydd o Broffil y Cyfnod Sylfaen mewn addysg feithrin fel rhywbeth buddiol ar gyfer adnabod cryfderau a gwendidau'r dysgwyr, ac yn fuddiol hefyd ar gyfer cefnogi darpariaeth a threfnu asiantaethau allanol lle gallai fod angen cymorth ychwanegol.

4.22 Roedd nifer o'r ysgolion hyn a oedd â darpariaeth feithrin yn defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen yn disgrifio defnyddio rhannau'n unig ohono, gydag un ysgol yn datgan yn ddiamwys iddynt gychwyn gan ddefnyddio'r agweddau Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Llesiant, ac Amrywiaeth Ddiwylliannol tra bod y dysgwyr yn newydd i'r lleoliad, a'u bod wedyn yn gallu asesu ar sail mwy o sgiliau wrth i amser fynd ymlaen. Roedd rhai o'r ysgolion hyn yn defnyddio llwyfan olrhain neu gofnodi asesiadau ar-lein i gyflawni'r asesu sylfaenol mewn addysg feithrin. Roedd nifer o feithrinfeydd hefyd yn defnyddio pecyn meddalwedd arall a oedd yn canolbwyntio ar leferydd ac iaith ochr yn ochr â Phroffil y Cyfnod Sylfaen er mwyn asesu datblygiad lleferydd ac iaith.

4.23 Roedd un o'r 12 o ysgolion hyn yn nodi nad oeddent, wrth gyflawni asesiadau sylfaenol yn y flwyddyn dderbyn, yn edrych ar y data sylfaenol o'r feithrinfa hyd nes roedd yr asesiadau wedi cael eu cyflawni. Roedd hyn yn eu galluogi i gymharu data o'r ddwy flynedd, ac i beidio â chael eu harwain gan ddata blaenorol a gasglwyd. Fodd bynnag, roedd yr ysgolion eraill gyda meithrinfeydd yn defnyddio'r data o'r feithrinfa i arwain trafodaethau rhwng athrawon meithrin ac athrawon dosbarthiadau derbyn.

4.24 O'r ddwy ysgol gyda darpariaeth feithrin nad ydynt yn defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen, y rhesymau a nodwyd oedd cyfyngiadau amser sy'n ymwneud â defnyddio'r proffil cryno gan y naill, ac absenoldeb athro cymwysedig neu gynorthwyydd addysgu lefel uwch i gyflawni'r asesiadau yn y llall. Roedd yr ail ysgol hon wedi mynd ati'n hytrach i ddatblygu eu dull asesu eu hunain ar sail llyfryn a oedd yn seiliedig i raddau helaeth ar Broffil y Cyfnod Sylfaen.

4.25 Roedd gan ddwy ysgol a oedd heb ddarpariaeth feithrin berthynas waith agos gyda lleoliad gofal plant lleol ac roeddent yn sylweddoli eu bod yn cyflawni eu hasesiadau eu hunain, ond nid oeddent yn edrych ar y canlyniadau. Y rheswm a roddwyd gan un o'r ysgolion dros beidio â defnyddio'r data hwnnw oedd bod arnynt eisiau cyflawni eu hasesiadau eu hunain, a pheidio â seilio'u hasesiadau ar ddata o'r lleoliad gofal plant. Canfuont hefyd y bydd galluoedd dysgwr wedi llithro dros yr haf, ac o ganlyniad na fydd asesiad y feithrinfa yn adlewyrchu'r darlun presennol bob amser.

4.26 Roedd un ysgol a oedd heb ddarpariaeth feithrin yn defnyddio data o'r feithrinfa a oedd ar eu safle ond heb ei hymgorffori, ac yn ei ganfod i fod yn ddefnyddiol wrth baratoi ar gyfer dyfodiad plant newydd. Yn yr un modd, roedd ysgol arall a oedd yn defnyddio llwyfan olrhain asesiadau ar-lein i gyflawni eu hasesiadau trwy'r proffil yn gallu gweld data ar y plant a oedd yn cychwyn yn y flwyddyn derbyn trwy'r llwyfan ar-lein hwnnw. Byddai cyfrifon y plant yn dod gyda hwy o'u meithrinfeydd. Er bod yr ysgol hon yn edrych ar y data, maent yn dal i gyflawni eu hasesiadau sylfaenol eu hunain.

4.27 Roedd ysgol arall yn disgrifio sut roedd eu Harweinydd Cyfnod Sylfaen wedi datblygu perthynas dda iawn gyda'r tîm yn y lleoliad gofal plant a oedd ar eu safle ond heb ei ymgorffori, a'u bod yn cael trafodaethau a chyd-arsylwadau tra bod y plant yn dal i fynychu'r lleoliad gofal plant er mwyn cytuno ar lefelau'r canlyniadau a ddyfernir, cyn i'r plant drosglwyddo i'r flwyddyn derbyn. Mae dull cyffredin o asesu dysgwyr o ganlyniad. Mae'r ysgol yn defnyddio'r data hwn i gefnogi dysgwyr, yn enwedig gan y bydd Arweinydd y Cyfnod Sylfaen wedi cyfarfod y plant yn ystod y tymor sy'n arwain at iddynt ymuno â'r ysgol ac wedi ennill dealltwriaeth o'u hanghenion.

*Defnydd o Broffil y Cyfnod Sylfaen gan Ysgolion ac Ymarferwyr*

4.28 O'r ugain o ysgolion yr ymwnaed â hwy, roedd pob un yn cyflawni'r asesiad sylfaenol ar gychwyn y flwyddyn derbyn yn unol â gofynion statudol.

4.29 Roedd pump o'r ugain o ysgolion yn defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen y tu hwnt i'r cyfnod statudol gofynnol o chwe wythnos gyntaf y flwyddyn derbyn. Roedd deg ysgolion yn defnyddio pecynnau asesu a oedd ar gael yn fasnachol. Roedd y pum ysgol a oedd ar ôl yn defnyddio'u system fewnol eu hunain, wedi'i datblygu gan yr ysgol, weithiau ar y cyd â rhaglen allanol i gasglu tystiolaeth. Roedd rhai o'r systemau mewnol hyn yn seiliedig i raddau helaeth iawn ar Broffil y Cyfnod Sylfaen.

**Tabl 4.1: Dadansoddiad o'r defnydd o systemau asesu**

| Systemau asesu a ddefnyddiwyd gan ysgolion | Nifer |
|---|---|
| Proffil y Cyfnod Sylfaen | 5 |
| Pecyn asesu arall | 10 |
| System fewnol | 5 |

4.30 Rhyngddynt i gyd, dywedodd tair o'r ugain ysgol eu bod yn defnyddio *Proffil Llawn* Proffil y Cyfnod Sylfaen yn ei fformat sylfaenol[9], gydag un ysgol yn nodi nad yw ond yn cael ei ddefnyddio ym Mlwyddyn 2 ar gyfer asesiadau diwedd cyfnod. Dywedodd un ysgol fod y Proffil Llawn yn cael ei neilltuo'n gyffredinol ar gyfer achosion lle'r oedd ar ymarferwyr angen dealltwriaeth ddyfnach o anghenion dysgu ychwanegol posibl.

4.31 Roedd yn well gan un ysgol a oedd yn defnyddio'r Proffil Llawn drwy gydol y Cyfnod Sylfaen y Proffil Llawn na'r Proffil Cryno gan ei fod yn

[9] Ystyr fformat sylfaenol yw heb gael ei addasu gan yr ysgol, na'i ddefnyddio trwy raglen neu lwyfan cyfryngol megis y rheini sy'n cofnodi data trwy system ar-lein.

fwy cynhwysfawr ac yn well am asesu lefelau sgiliau. Roeddent yn nodi nad oedd y proffil cryno yn cynnwys sgiliau megis ysgrifennu eu henw neu adnabod llythrennau, ac nad oedd yn canolbwyntio’n ddigonol ar sgiliau y disgwylir ymdrin â hwy yn ystod y flwyddyn derbyn.

4.32 Mewn un ysgol a oedd yn defnyddio llwyfan cofnodi asesiadau ar-lein, roedd y dirprwy bennaeth ac Arweinydd y Cyfnod Sylfaen yn esbonio nad oedd y proffil cryno yn ddigon manwl ac mai cyfyngedig felly oedd ei ddefnyddioldeb. Roeddent yn disgrifio’r proffil cryno fel un a oedd yn rhy seiliedig ar iaith, a allai olygu heriau wrth asesu’r dysgwyr. Mae’r ysgol hon wedi datblygu eu system fewnol eu hunain lle mae’r proffil cryno wedi cael yr elfennau ychwanegol angenrheidiol wedi eu hychwanegu ato, a oedd bellach yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â defnyddio’r Proffil Llawn.

*Defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen ym Mlynyddoedd 1 a 2*

4.33 O’r ysgolion a oedd yn cymryd rhan, dywedodd pump ohonynt yn ddiamwys eu bod yn defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen yn ei fformat sylfaenol y tu hwnt i’r cyfnod statudol yn y flwyddyn derbyn.

4.34 Roedd deg ysgol arall yn ymwneud â Phroffil y Cyfnod Sylfaen trwy ddefnyddio llwyfan cofnodi asesiadau ar-lein, weithiau gan ddefnyddio mwy nag un llwyfan neu becyn. Er mwyn eglurder, yn yr adroddiad hwn, bydd y defnydd o lwyfannau cofnodi asesiadau ar-lein ar wahân yn cael ei gategoreiddio ar wahân i’r ysgolion hynny sy’n defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen yn ei fformat sylfaenol.

4.35 O’r deg ysgol hynny a oedd yn defnyddio llwyfannau asesu ar-lein, roedd tair hefyd yn defnyddio systemau asesu a ddatblygwyd yn fewnol ochr yn ochr â’r pecyn, gyda phedwaredd ysgol arall hefyd yn defnyddio system ar y cyd â GWE a oedd yn olrhain perfformiad dysgwyr gan ddefnyddio asesiadau cod-lliw o lefelau sgiliau o gymharu â thargedau. Yn gyffredinol, roedd ymarferwyr yn disgrifio defnyddio llwyfannau asesu ar-lein fel rhywbeth a oedd yn cymryd llai

o amser na defnyddio’r Proffil Cryno neu’r Proffil Llawn yn eu fformatau sylfaenol.

4.36 Roedd y pum ysgol nad oedd yn defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen yn ei fformat sylfaenol ar gyfer Blynyddoedd 1 a 2, na llwyfan asesu ar-lein seiliedig ar Broffil y Cyfnod Sylfaen, wedi datblygu eu system asesu fewnol eu hunain ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (y rhoddir sylw iddo isod), mewn rhai achosion law yn llaw â defnyddio llwyfannau digidol sy’n cofnodi data a galluogi ymarferwyr i rannu tystiolaeth gyda rhieni. Roedd pedair o’r systemau mewnol hyn a ddatblygwyd gan yr ysgolion yn seiliedig i raddau helaeth iawn ar Broffil y Cyfnod Sylfaen, wrth fod wedi cael eu datblygu gan ddefnyddio canlyniadau’r Proffil. Roedd un o’r ysgolion hyn wedi symud yn ddiweddar iawn oddi wrth ddefnyddio llwyfan ar-lein seiliedig ar Broffil y Cyfnod Sylfaen ar gyngor eu Consortiwm Rhanbarthol, ac wedi datblygu system fewnol, a ddefnyddir ar y cyd â phecyn ar-lein gwahanol a ddefnyddir fel cymorth yn unig i gipio a chasglu tystiolaeth asesu.

4.37 Roedd ysgol arall nad oedd yn defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen ym Mlynyddoedd 1 a 2 wedi ei ddefnyddio o’r blaen, ond yn canfod bod yr ymrwymiadau amser a oedd ynghlwm wedi ei wneud yn anymarferol. Roeddent yn esbonio bod gan ymarferwyr lawer mwy o amser gyda’r dysgwyr yn y flwyddyn derbyn er mwyn cwlbhau’r Proffil trwy arsylwi, a bod gan ymarferwyr ym Mlynyddoedd 1 a 2 lai o amser i’w dreulio gyda dysgwyr, gan leihau apêl Proffil y Cyfnod Sylfaen. Roedd y data a gasglwyd ym Mlynyddoedd 1 a 2 yn fwy byrhoedlog hefyd, gan fod system asesu wahanol yn cael ei defnyddio o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen. Roedd yr ysgol benodol hon ers hynny wedi datlbygu eu system asesu fewnol eu hunain i’w defnyddio gyda Blynyddoedd 1 a 2.

*Dewisiadau Eraill heblaw Proffil y Cyfnod Sylfaen a Ddefnyddir gan Ymarferwyr*

4.38 Roedd un ysgol yn y broses o symud oddi wrth ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen. Roeddent wedi cael eu hannog gan eu Consortiwm Rhanbarthol i fabwysiadu system asesu a fyddai'n fwy unol â'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Nid oedd teitl eto gan eu system asesu, ac roedd yn seiliedig ar gyfres o ddogfennau Microsoft Word gyda phenawdau asesu yn cyfateb â themâu o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Roedd hon yn cael ei defnyddio ar y cyd â llwyfan casglu tystiolaeth ar-lein er mwyn cofnodi tystiolaeth.

4.39 Roedd yr ymarferwyr o'r ysgol hon a gafodd eu cyfweld yn disgrifio'r system hon fel a ganlyn:

> "[Mae hi'n] canolbwyntio mwy ar yr hyn mae unigolion yn gallu'i wneud a beth yw'r camau nesaf unigol – mwy personol na dulliau blaenorol lle'r roedd y pwyslais ar gadarnhau canlyniadau seiliedig ar oedran."

4.40 Roedd defnyddio llwyfan cofnodi a rhannu tystiolaeth yn caniatáu i dystiolaeth gael ei uwchlwytho yn ffurf fideos a ffotograffau. Mae rhieni yn gallu gweld y rhain, ac roedd ymarferwyr yn obeithiol y byddai hyn yn galluogi rheini i chwarae mwy o ran yn natblygiad eu plentyn.

4.41 Roedd ysgol arall wedi sefydlu eu prosesau asesu mewnol eu hunain a oedd yn seiliedig i raddau helaeth ar Broffil y Cyfnod Sylfaen, ond wedi mynd i'r afael â'r hyn a welent fel gwendidau penodol ynddo. Er bod yr ysgol yn teimlo bod dogfennau'r Proffil yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, teimlai athrawon fod angen i'r camau o fewn Proffil y Cyfnod Sylfaen gael eu torri'n dargedau haws eu rheoli. Er enghraifft, mae'n ofynnol yn y Proffil fod dysgwr yn gallu cyfrif hyd at 100, ac mae system fewnol yr ysgol yn rhannu hyn yn gamau o gyfrif hyd at 20 a 50 er mwyn mesur cynnydd fel mae'n digwydd, yn hytrach nag ar y garreg filltir derfynol yn unig. Teimlai'r ymarferwyr yn yr ysgol

fod y dull hwn yn rhoi dadansoddiad manylach iddynt o lle mae'r dysgwyr yn eu datblygiad.

4.42 Roedd ymarferwyr yn yr ysgol hon yn disgrifio'r ffurflenni fel rhai llawer mwy defnyddiol iddynt nag yn y Proffil, gan ei fod yn rhoi targedau haws eu rheoli i ymarferwyr allu eu harsylwi. Roeddent fodd bynnag yn disgrifio'r Proffil Cryno fel fframwaith defnyddiol ar gyfer eu gwaith.

4.43 Mae'r system hon yn seiliedig ar ffurflenni sy'n cael eu cwblhau ar gychwyn y flwyddyn ysgol, a phob tymor, caiff cynnydd y dysgwyr ei fesur ochr yn ochr â fframwaith Proffil y Cyfnod Sylfaen i weld lle maent wedi cyrraedd gyda llythrennedd a rhifedd.

4.44 Roedd un ysgol ganolig ei maint mewn ardal wledig wedi datlbygu eu harferion asesu eu hunain, a oedd wedi symud oddi wrth "asesu er mwyn asesu" tuag at ganolbwyntio ar "ddysgu personol ar lefel y disgybl". Y sail resymegol y tu ôl i'r system asesu oedd y dylid asesu ansawdd y prosesau dysgu, yn hytrach na monitro lefelau canlyniadau dysgwyr. Yn ymarferol, golyga hyn nad yw'r ysgol mwyach yn gosod profion sillafu wythnosol i ddysgwyr ond yn hytrach yn gweithio gyda phob dysgwr i adnabod geiriau mae angen iddynt eu dysgu i'w sillafu'n gywir.

4.45 Teimlai'r ysgol mai un o wendidau sylfaenol y system asesu bresennol ar draws y Cyfnod Sylfaen yw bod y dulliau wedi eu llunio i asesu sgiliau mewn modd rhy gul, gyda'r asesiadau heb fod yn ystyried ymagwedd y dysgwr at ddysgu, dim ond eu gallu.

4.46 Roedd prifathro'r ysgol yn disgrifio'r system fel a ganlyn:

> "Os ydych chi'n addysgu plant o bobi cacen, dylech asesu sut maent yn mynd o'i chwmpas hi, beth maent yn ei ddysgu yn ystod y broses, nid ansawdd y gacen orffenedig. Nid yw'n gwneud gwahaniaeth mewn gwirionedd os yw'r gacen wedi sigo neu wedi llosgi … yr hyn sy'n bwysig yw bod plant wedi dysgu sut i fesur cynhwysion, dysgu oddi wrth yr hyn a aeth o'i le, beth fydden nhw'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf."

4.47 Roedd yr ysgol yn dal i gyflawni asesiad diwedd cyfnod, sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd dros gwrs y flwyddyn, a gofnodwyd wrth ddefnyddio llwyfan casglu tystiolaeth asesiadau ar-lein.

4.48 Caiff y llwyfan casglu tystiolaeth ar-lein hwn ar gyfer cofnodi tystiolaeth asesu ei ddefnyddio'n ddyddiol gan yr ysgol a dysgwyr. Mae gan bob dysgwr ei gyfrif ei hun, y gellir ei gyrraedd trwy Hwb, a ddefnyddir ganddynt i uwchlwytho targedau wythnosol a'u rhannu gyda rhieni. Drwy gydol y Cyfnod Sylfaen bydd ymarferydd yn uwchlwytho'r targedau hyn ar ran y dysgwr. Caiff y targedau hyn eu cyflwyno'n weledol (ee ffotograff neu fideo sy'n cynnwys y dysgwr a'u targed) neu'n ysgrifenedig. Caiff y targedau eu hadolygu'n wythnosol a lle cyrhaeddwyd hwy, caiff tystiolaeth ffotograffig/fideo ei uwchlwytho i bortffolio digidol dysgwr o fewn y llwyfan ar-lein. Mae rhieni yn gallu gweld y targedau a'r llwyddiannau hyn, a chanfuwyd bod hyn yn arwain at fwy o ddiddordeb a chefnogaeth o'r cartref i gyrraedd y targed. Yn ôl yr ymarferwyr y siaradwyd â hwy yn yr ysgol, mae fformat y llwyfan ar-lein a ddefnyddir yn unol â dull seiliedig ar chwarae yn yr ystyr y gellir cymryd recordiad/ffotograff o ddarn o waith a'i uwchlwytho i'r system i ddangos llwyddiannau.

4.49 Dywedodd rhanddeiliad o Awdurdod Lleol sydd â goruchwyliaeth dros y Cyfnod Sylfaen mai ychydig iawn o ysgolion yn eu hardal oedd yn defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen y tu hwnt i'r cyfnod statudol o chwe wythnos gyntaf y flwyddyn derbyn. Roedd hyn er gwaethaf eu hargymhellion bod ysgolion yn dychwelyd at y proffil dro ar ôl tro ar sail eu cred bod dogfen y proffil yn "arf mor ddefnyddiol i ddangos sut i lenwi bylchau, dal ati i arsylwi ac asesu yn barhaus".

*Myfyrdodau ar Ansawdd a Defnyddioldeb Proffil y Cyfnod Sylfaen*

4.50 Roedd ymarferwyr ar y cyfan ag agwedd gadarnhaol ynghylch ansawdd Proffil y Cyfnod Sylfaen wrth helpu asesu datblygiad a dysg dysgwyr. Roedd mwyafrif llethol yr ymarferwyr, wrth drafod Proffil y

Cyfnod Sylfaen, yn cyfeirio at yr asesiad sylfaenol, a defnyddio’r Proffil Cryno.

4.51 Roedd tair ysgol yn defnyddio’r Proffil Llawn yn ei fformat sylfaenol, gydag un ysgol arall yn dweud bod defnyddio’r Proffil Llawn yn cael ei neilltuo’n gyffredinol ar gyfer achosion lle’r oedd ar ymarferwyr angen dealltwriaeth ddyfnach o allu dysgwr, yn aml pan oedd arwyddion o anghenion dysgu ychwanegol. Roedd un ymarferydd yn disgrifio’r Proffil Llawn fel a ganlyn:

> “Pe bai arnoch eisiau gwybod ychydig yn fwy mewn meysydd o ddatblygiad plentyn, yna gall fod yn ddefnyddiol. Mae’n adnodd lle bo’n briodol. Does dim pwynt i bawb ei ddefnyddio gan y byddai’n tynnu oddi wrth gynefino ac addysgu o ansawdd da.”

4.52 Wrth iddo fynd i fwy o ddyfnder, roedd y Proffil Llawn yn cael ei ddisgrifio gan un ymarferydd fel rhywbeth defnyddiol ar gyfer achosion unigol wrth adnabod pryderon iechyd a llesiant, yn enwedig ymysg dysgwyr a oedd ar ôl mewn datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.

4.53 Roedd rhanddeiliad o Gonsortiwm Rhanbarthol yn esbonio ei bod yn well gan rai athrawon roeddent yn gweithio gyda hwy y Proffil Llawn oherwydd ei ddyfnder ac amlinelliad o’r camau nesaf, ond mai amser oedd y rhwystr pennaf rhag ei ddefnyddio. Roeddent yn nodi fodd bynnag eu bod yn teimlo bod ymarferwyr ar eu colled trwy beidio â defnyddio’r Proffil Llawn.

4.54 Roedd mwyafrif yr ymarferwyr a gyfwelwyd yn nodi bod y Proffil Cryno yn dda iawn am ddarganfod man cychwyn dysgwyr o safbwynt sgiliau a gallu, a’i fod yn cynnig amrywiaeth ddigon helaeth o sgiliau i’w harsylwi a’u hasesu. Roedd ymarferwyr mewn chwe gwahanol gyfweliad yn nodi bod y Proffil Cryno yn dda am ddeillio man cychwyn i’r dysgwyr, ac roedd hefyd yn cael ei ddefnyddio fel rhywbeth defnyddiol ar gyfer adnabod targedau i ddysgwyr ganolbwyntio arnynt, ac ar gyfer helpu penderfynu’r meysydd i ganolbwyntio arnynt nesaf. Roedd un ymarferydd yn ei ddisgrifio fel caniatáu’r dysgwyr eu

hunain i ddweud wrth athrawon beth sydd arnynt ei angen. Roedd ymarferydd arall yn nodi bod y Proffil yn dda am ddangos y camau nesaf, ond bod y perygl bob amser y gellid ticio'r blwch, a'r athro'n symud ymlaen heb i'r sgìl fod wedi gwreiddio. Ychwanegodd mai proffesiynoldeb yr athro oedd y peth hanfodol er mwyn gwybod pa bryd i farnu bod sgìl wedi ei chaffael, a pha bryd i symud ymlaen i'r cam nesaf.

4.55 Ar y cyfan, teimlai ymarferwyr fod y Proffil Cryno yn gallu cynnig gwir adlewyrchiad o'r dysgwr ar draws meysydd y Cyfnod Sylfaen. Gwnaed y pwynt gan un ymarferydd y gallai'r llinell sylfaen fod yn arbennig o ddefnyddiol i athrawon newydd, nad ydynt eto wedi datblygu sgiliau arsylwi ymarferwyr mwy profiadol.

4.56 Mae'r asesiadau sylfaenol yn gosod sail ar gyfer cynllunio, gyda llawer o ymarferwyr yn esbonio eu bod yn defnyddio'r data i deilwra eu haddysgu. Rhoddodd un ymarferydd enghraifft ddiweddar lle canfuwyd un dosbarth nad oedd cyn gryfed mewn mathemateg, a arweiniodd wedyn at addasu eu cynllunio ar gyfer addysgu. Roedd un ysgol wledig fawr yn disgrifio sut maent yn defnyddio'r data o Broffil y Cyfnod Sylfaen yn hydredol er mwyn darganfod gwendidau ar draws blynyddoedd ysgol mewn meysydd megis cyfathrebu llafar neu fathemateg. Roedd y data hwn yn cael ei ddefnyddio hefyd i ffurfio grwpiau ymyrraeth neu er mwyn penderfynu ar ddarparu adnoddau ychwanegol i ymdrin â grwpiau a chanddynt wendidau penodol.

4.57 Cafodd y pwnc o ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen ar gyfer cynllunio ymyrraeth neu grwpiau canolbwyntio ei godi mewn pump o gyfweliadau unigolion neu grwpiau, gyda'r ymarferwyr hyn yn dweud bod yr wybodaeth yn ddefnyddiol ar gyfer penderfynu ar osod dysgwyr mewn grwpiau ar gyfer ymyrraeth bellach. Roedd un o'r ymarferwyr hyn yn nodi bod y data llinell sylfaen yn cael ei nodi wrth drafod gydag athrawon dosbarth ynghylch darparu cymorth ac adnoddau, ond bod asesiadau pellach eraill gan athrawon hefyd yn cael eu hystyried.

4.58 Roedd nifer bach o ymarferwyr yn nodi bod y Proffil Cryno yn fwy addas ar gyfer asesu rhai sgiliau na'i gilydd, gydag asesiadau mewn meysydd fel Datblygiad Mathemategol, Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, a Datblygiad Corfforol yn rhoi cynrychiolaeth fwy cywir o ddatblygiad y dysgwr na'r maes Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Llesiant ac Amrywiaeth Ddiwylliannol. Roedd y meysydd cyntaf yn cael eu disgrifio fel rhai mwy "du a gwyn", ac felly'n llai "goddrychol" na Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Llesiant ac Amrywiaeth Ddiwylliannol. Roedd rhai ymarferwyr yn nodi bod y disgrifyddion ar gyfer Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Llesiant ac Amrywiaeth Ddiwylliannol yn rhy amwys, gyda gormod o le i gamddehongli. Roedd un Arweinydd Cyfnod Sylfaen wedi canfod ei bod yn bosibl i ddau ddysgwr a oedd ar yr un lefel canlyniadau fod yn amrywio'n sylweddol yn eu datblygiad.

4.59 Y pryder a godwyd yn fwyaf cyffredin gyda Phroffil y Cyfnod Sylfaen a'r Proffiliau Cryno a Llawn oedd eu bod yn cymryd llawer o amser i'w gweithredu. Roedd chwe wythnos gyntaf y flwyddyn derbyn yn cael ei ddisgrifio fel cyfnod pan fo pwysau mawr ar athrawon, gyda phwyslais ar gwblhau'r Proffil Cryno yn cymryd amser oddi wrth addysgu. Fe wnaeth pedwar ymarferydd godi pryderon gyda'r ffenestr chwe-wythnos y mae'n rhaid cyflawni asesiadau sylfaenol ynddi. Roedd prif achos y pryder yn ymwneud â'r angen i alluogi'r dysgwyr i setlo, a bod cyflawni asesiadau sylfaenol yn cymryd amser oddi wrth ddod i adnabod y dysgwyr.

4.60 Dywedodd un o'r ymarferwyr hyn fod yr asesiad yn cymryd amser oddi wrth y pwyslais ar lesiant, gydag athrawon wedi colli cyfleoedd i weithio gyda dysgwyr a oedd yn anniddig a heb gynefino.

4.61 Roedd gan un ysgol bolisi o gyflawni'r asesiad sylfaenol yn y flwyddyn derbyn o fewn 3-4 wythnos, er bod y cyfnod statudol yn chwe wythnos, neu fel arall "bod tueddiad i'r gwaith arsylwi gymryd y cyfan o'r hanner tymor cyntaf".

4.62 Pryder arall y tynnwyd sylw ato oedd bod tensiwn rhwng yr angen i gyflawni'r asesiad sylfaenol o fewn chwe wythnos o gychwyn y flwyddyn derbyn a'r angen i ganiatáu i'r dysgwyr gynefino. Roedd ymaferwyr yn pwysleisio pwysigrwydd cael amser i gynefino cyn cyflawni asesiadau, gydag un grŵp o ymarferwyr yn cytuno bod yr asesiad sylfaenol yn rhoi gwell darlun o'r dysgwr unwaith maent wedi cael amser i gynefino.

4.63 Dywedodd 22 o ymarferwyr nad oedd Proffil y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol yn dweud dim wrth athrawon nad oeddent eisoes yn ei wybod. Dywedodd un mai prin roedd yn cyfeirio'n ôl at ddata'r proffil ar ôl yr asesiad sylfaenol.

4.64 Dywedodd pedwar ymarferydd y gallai'r Proffiliau Cryno a Llawn fod yn ormod o broses ticio blychau, gydag un ohonynt yn cyfeirio'n benodol at y Proffil Llawn. Wrth drafod yr angen i ddefnyddio profiad a doethineb er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hasesu'n gywir, dywedodd un athrawon "rhaid ichi ddefnyddio'ch pen fel athrawon oherwydd gallech fod yn ticio'r blychau hynny … a chyn ichi wybod, mae gennych blentyn oed derbyn yn y tymor cyntaf o ysgol ac maent yn ganlyniad pedwar i bob pwrpas."

4.65 Dywedodd tri ymarferydd nad oeddent yn defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen y tu hwnt i'r flwyddyn derbyn oherwydd mai eu canfyddiad oedd nad oedd wedi'i deilwra'n ddigonol ar gyfer unrhyw ddysgwr unigol.

*Defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen y tu hwnt i Flwyddyn 2*

4.66 Roedd hanner yr holl ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn nodi'r newid o ganlyniadau yn y Cyfnod Sylfaen i lefelau yng Nghyfnod Allweddol 2 fel pryder yn sgil y system wahanol o fesuriadau, gyda dau ymarferydd yn dweud bod y newid hwn yn lleihau gwerth data asesu a gasglwyd trwy Broffil y Cyfnod Sylfaen. Roedd Arweinydd Cyfnod Sylfaen mewn un ysgol fach yn gofyn iddo'i hun beth oedd pwynt asesiadau diwedd cyfnod gan fod dysgwyr yn cychwyn o'r newydd

yng Nghyfnod Allweddol 2. Roedd un ysgol yn enwedig yn esbonio nad oedd y gwahaniaeth mewn terminoleg o help, a'i fod yn gwneud sgyrsiau rhwng athrawon Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3 yn fwy anodd. Roeddent yn ychwanegu bod rhieni weithiau yn camddeall y gwahaniaeth rhyngddynt.

4.67 Roedd saith o ysgolion yn dweud yn benodol eu bod yn trosglwyddo'r wybodaeth o'r asesiadau Proffil y Cyfnod Sylfaen wrth i ddysgwyr symud ymlaen i Flwyddyn 3, gyda chwech o'r rhain yn disgrifio hyn fel rhywbeth defnyddiol wrth gynllunio ym Mlwyddyn 3, gydag un yn dweud mai cyfyngedig oedd ei werth yn sgil y newid o ganlyniadau i lefelau.

4.68 Roedd un ysgol yn nodi bod yr asesiadau diwedd cyfnod yn ddefnyddiol wrth osod sail ar gyfer dysgu ym Mlwyddyn 3, mewn achosion lle mae meysydd cyffredin lle nad yw dysgwyr wedi perfformio'n dda iawn. Nid oedd yr ysgol hon, fodd bynnag, yn defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen ar gyfer eu hasesiad diwedd cyfnod, gan ddewis yn hytrach system a ddatblygwyd yn fewnol.

*Adnabod Dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)*

4.69 Roedd ymarferwyr yn cytuno ar y cyfan fod Proffil y Cyfnod Sylfaen, ynddo'i hun, yn arf annigonol ar gyfer adnabod dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ond roedd pawb a gododd y pwynt hwn yn pwysleisio nad oedd disgwyl i Broffil y Cyfnod Sylfaen fod yr unig sail ar gyfer gwneud dyfarniadau ar anghenion ychwanegol.

4.70 Roedd nifer o ymarferwyr ar draws saith o ysgolion ag agwedd gadarnhaol at ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen ar gyfer adnabod dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Cafodd y Proffil ei ddisgrifio fel man cychwyn da, ac arf defnyddiol ar gyfer olrhain materion a oedd yn peri pryder.

4.71 Roedd dau ymarferydd mewn dwy ysgol wahanol yn disgrifio Proffil y Cyfnod Sylfaen fel cytbwys a chrwn, gan ei fod yn cynnwys pwyslais ar Ddatblygiad Personol a Chymdeithasol, Llesiant ac Amrywiaeth

Ddiwylliannol a Datblygiad Corfforol. Roedd ymarferydd arall yn nodi mai mewn perthynas â sgiliau iaith, yn eu profiad hwy, roedd y Proffil fwyaf defnyddiol ar gyfer adnabod materion a oedd yn peri pryder.

4.72 Teimlai nifer bach o ymarferwyr fod y datganiadau o fewn Proffil y Cyfnod Sylfaen yn rhy amwys ac eang i dynnu sylw at broblemau. Dywedodd un ymarferydd, er enghraifft, “nad oedd y Proffil Cryno yn wych am adnabod anawsterau gyda rhifau.” Rhoddodd ymarferydd arall yr enghraifft o ddysgwyr sydd ag awtistiaeth a oedd yn ei chael yn anodd wrth wneud ffrindiau a chyfathrebu yn cael sgôr gyfartalog o dan y maes Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Llesiant ac Amrywiaeth Ddiwylliannol oherwydd “nad yw’r datganiadau yn ddigon da” i ddarganfod problemau mewn meysydd mwy goddrychol.

4.73 Roedd ymarferwyr yn ddibynnol yn lle hynny ar arsylwi parhaus i adnabod problemau. Rhoddodd un ysgol enghraifft o ddysgwr a oedd â Pharlys yr Ymennydd lle nad oedd yr asesiad sylfaenol yn ddigon manwl i adnabod pa gymorth roedd arno ei angen. Yn lle hynny, roedd arsylwi gan athrawon yn allweddol wrth ddarganfod beth y gallent neu na allent ei wneud er mwyn teilwra ei addysg yn briodol.

4.74 Roedd Proffil y Cyfnod Sylfaen fodd bynnag yn cael ei ddefnyddio’n helaeth gan ysgolion wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer cymorth anghenion dysgu ychwanegol. Roedd defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen mewn achosion lle credir bod gan ddysgwyr unigol anghenion dysgu ychwanegol yn angenrheidiol yn sgil manyleb sy’n arwain darpariaeth anghenion dysgu ychwaengol. Roedd un ymarferydd yn disgrifio hyn fel a ganlyn:

> “Er mwyn rhoi Cynllun Addysg Unigol i blentyn, rhaid iddi ddangos eich bod wedi ceisio goresgyn unrhyw anawsterau yn y dosbarth cyn y gallwch eu categoreiddio nhw fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Rhaid ichi ddangos eich bod wedi eu targedu nhw.”

4.75 Mewn achosion o’r fath, roedd un ymarferydd yn disgrifio sut y byddent felly’n defnyddio’r Proffil Llawn er mwyn rhoi asesiad mewn mwy o ddyfnder o alluoedd dysgwr.

4.76 Esboniodd un ymarferydd eu bod, er mwyn tynnu sylw at ddysgwyr a all fod ag angen sylw ychwanegol yn sgil anghenion dysgu ychwanegol, yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau[10] sydd wedi cael eu cymeradwyo gan eu Hawdurdod Lleol fel offer ar gyfer casglu tystiolaeth.

4.77 Teimlai dau ymarferydd o fewn un ysgol nad oedd y Proffil yn rhoi digon o sylw i'r lefelau isaf un o sgiliau a all fod yn angenrheidiol i adnabod anghenion dysgu ychwanegol mewn addysg feithrin. Er eu bod yn defnyddio Lefelau P[11] yn yr ysgol, byddai'r ymarferwyr hyn wedi hoffi gweld Proffil mwy cynhwysol a fyddai'n rhoi sylw i'r sbectrwm llawn o ddisgwyliadau o ran sgiliau fel y gellid defnyddio system sengl i olrhain sgiliau a chynnydd.

*Problemau yn Ymwneud â Sgiliau Iaith*

4.78 Roedd rhai ysgolion wedi profi problemau sy'n ymwneud ag iaith gyda Phroffil y Cyfnod Sylfaen. O fewn y sampl o ysgolion yr ymwnaed â hwy, mae saith yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, pedair ysgol yn ddwyieithog, gyda naill ai dwy ffrwd, neu Saesneg gyda chyfran sylweddol o Gymraeg.

4.79 Yr ysgolion roedd heriau penodol yn effeithio fwyaf arnynt oedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog gyda chyfrannau cymharol uchel o ddysgwyr yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith. Fe wnaeth pump o'r holl ysgolion hyn dynnu sylw at anawsterau gyda Phroffil y Cyfnod Sylfaen.

4.80 Mae'r anawsterau'n deillio o ddysgwyr yn cael eu tansgorio mewn gallu yn sgil bod yn anghyfarwydd â'r Gymraeg ar adeg yr asesiad sylfaenol. Teimlai ymarferwyr yn y pum ysgol hyn fod cyflawni'r asesiad sylfaenol o fewn chwe wythnos o gychwyn y tymor yn y flwyddyn derbyn yn rhoi adlewyrchiad gwael o allu cyffredinol y

[10] Alex Kelly Social Skills Toolkit: Raven's Progressive Matrices and Vocabulary Scales, the British Picture Vocabulary Scale, a the Neale Analysis of Reading Ability
[11] Defnyddir graddfeydd P neu (Lefelau P) i asesu cynnydd dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

dysgwyr. Canfu dau ymarferydd mewn gwahanol ysgolion fod sgoriau dysgwyr yn is ar ôl symud i leoliad Cymraeg ei iaith, ac nad oedd hyn yn adlewyrchu gwir allu'r dysgwyr. Dywedodd un o'r ymarferwyr hyn y gallai dysgwyr fod yn medru adnabod siapiau yn y Saesneg ond nid yn y Gymraeg, a bod hyn yn codi cwestiynau ynghylch beth oedd yn cael ei asesu. Roedd yr ymarferydd hwn yn nodi y byddai'n well cyflawni'r asesu sylfaenol tuag at ddiwedd y flwyddyn derbyn pan fo sgiliau iaith wedi gwella.

4.81 Fe wnaeth dau ymarferydd mewn ysgolion ar wahân, un yn brifathro a'r llall yn Arweinydd Cyfnod Sylfaen, godi'r un cwestiwn ynghylch iaith asesu:

> "Ai'r deall yw'r peth pwysig neu iaith y cyfathrebu? Efallai y byddai'r mathemategydd yn dweud mai'r deall sy'n bwysig, byddai'r ieithydd yn dweud fel arall."

4.82 Roedd un ymarferydd yn disgrifio'r sgoriau isel fel pryder i rieni a'u bod yn arwain at rywfaint o amau ai addysg Gymraeg oedd y peth iawn i'w plentyn. Roedd yr ymarferydd yn disgrifio fel roedd y dysgwyr yn cael eu sgorio'n is nag oeddent ar ddiwedd eu hamser mewn addysg feithrin cyfrwng Saesneg, gan roi'r argraff eu bod wedi "llithro'n ôl'" ers ymuno â'r ysgol. Roedd ymarferydd arall mewn ysgol wahanol yn mynegi pryder y gallai rhieni boeni am y canlyniadau cymharol a gyflawnid gan eu dysgwyr, ond nid oedd wedi profi hyn yn bersonol.

4.83 Gofynnwyd am y pwynt hwn wrth ddau ymarferydd arall mewn gwahanol ysgolion sydd â darpariaeth Gymraeg, a'u hymateb oedd bod rheini, er weithiau'n holi pam fod eu plentyn yn sgorio'n uwch mewn categorïau corfforol a chymdeithasol nag mewn iaith a rhifedd, yn deall unwaith bod y dimensiwn iaith wedi cael ei esbonio iddynt. Roedd y ddau ymarferydd hyn yn esbonio eu bod yn teimlo ei bod yn bwysig esbonio wrth rieni pam y gallai eu plentyn ymddangos fel pe bai'n sgorio'n is mewn rhai meysydd.

4.84 Roedd un ymarferydd o ysgol sydd â darpariaeth Gymraeg yn gweld agwedd gadarnhaol i'r heriau wrth gofnodi lefelau sgiliau sylfaenol, gan eu bod yn teimlo bod y gwelliant sylweddol mewn sgoriau gallu o'r asesiad sylfaenol cychwynnol yn y flwyddyn derbyn i gyfnodau diweddarach yn arwydd cadarnhaol a oedd yn dangos gwerth ychwanegol "ffantastig".

*Cyfleu Asesiadau Proffil y Cyfnod Sylfaen wrth Rieni*

4.85 Roedd rhai ysgolion yn esbonio bod canlyniadau o asesiadau sylfaenol ac asesiadau diwedd cyfnod yn cael eu cyfleu i rieni, yn ogystal â chanlyniadau o asesiadau eraill.

4.86 Roedd cyfanswm o wyth o ysgolion yn disgrifio rhannu canlyniadau asesiadau sylfaenol neu ddiwedd cyfnod gyda rheini naill ai trwy adroddiadau diwedd blwyddyn neu mewn nosweithiau rhieni. O'r ysgolion hyn, roedd un yn adrodd bod rhieni'n aml yn cael anawsterau wrth ddeall beth yw ystyr lefelau'r canlyniadau. Roedd rhai o'r ysgolion hyn yn pwysleisio eu bod yn esbonio canlyniadau mewn iaith mae rhieni'n ei deall.

4.87 Roedd dwy ysgol arall yn trefnu bod canlyniadau asesiadau diwedd cyfnod ar gael i rieni ond nid oeddent yn defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen i gyflawni'r asesiadau hyn.

4.88 O'r 11 o ysgolion a oedd yn weddill, roedd saith[12] yn nodi bod eu canlyniadau sylfaenol ar gyfer defnydd mewnol yn unig, ond roedd tair o'r ysgolion hyn yn disgrifio defnyddio'r canlyniadau sylfaenol fel y sail dystiolaeth ar gyfer targedau neu ddiweddariadau cyffredinol i rieni. Roedd un o'r ysgolion hyn yn esbonio hefyd eu bod yn trefnu bod data canlyniadau ar gael i rieni ar gais.

4.89 Roedd rhanddeiliad strategol (Arweinydd Cyfnod Sylfaen mewn Awdurdod Lleol a chyn-brifathro ysgol gynradd) y siaradwyd ag ef fel rhan o'r ymarferiad cwmpas yn nodi ei fod, fel rhiant, yn teimlo nad

[12] Ni roddwyd gwybodaeth benodol gan y gweddill.

oedd yr adroddiad naratif a dderbyniodd gan yr ysgol yn rhoi llawer o wybodaeth am gynnydd eu plentyn, ac nad oedd yn rhoi llawer o ganllawiau ar beth roedd angen i'w plentyn ei wneud nesaf. Roedd yn disgrifio'r adborth a ddywedai nad oedd yr adroddiad "yn ystyriol iawn o rieni".

4.90 Roedd tair ysgol yn defnyddio pecynnau asesu ar-lein a oedd yn galluogi rhannu tystiolaeth a chynnydd a gofnodwyd gyda rhieni drwy gydol y flwyddyn ysgol.

4.91 Roedd ysgol a oedd yn defnyddio llwyfan casglu tystiolaeth yn disgrifio sut mae rhieni'n gallu cael gwybodaeth wythnosol reolaidd ar dargedau, cynnydd, a llwyddiannau dysgwyr. Roedd yr ysgol hon, fodd bynnag, yn disgrifio'r heriau a wynebir wrth gyfleu canlyniadau asesu i rieni. Mae'r ysgol hon wedi symud eu harferion asesu oddi wrth lefelau a chanlyniadau ac roeddent yn cychwyn canolbwyntio mwy ar brosesau dysgu yn lle hynny.

4.92 Yr her fwyaf a oedd yn wynebu'r ysgol hon oedd symud meddylfryd rhieni oddi wrth 'lefelau a rhwystrau' at dargedau, dysg a chynnydd unigoledig i ddysgwyr. Roeddent yn cynllunio cynnal sesiynau grŵp bach gyda rhieni yn nhymor yr hydref 2021 i esbonio sut mae'r ysgol yn symud oddi wrth ganlyniadau a lefelau dysgwyr at ddysgu a chynnydd sy'n canolbwyntio ar 'werthoedd ac ymagwedd at ddysgu'. Y gobaith yw y bydd hyn yn helpu gyda'r "obsesiwn presennol" sydd gan rieni ynghylch "ar ba lefel darllen mae fy mhlentyn, a pham nad yw hi ar y lefel nesaf eto."

4.93 Roedd rhai ysgolion hefyd yn disgrifio eu prosesau o gynnwys llywodraethwyr mewn trafodaethau ynghylch data canlyniadau a gasglwyd drwy gydol y flwyddyn ar becyn cofnodi asesiadau allanol. Roedd un rhiant-lywodraethwr y siaradwyd ag ef yn disgrifio sut roedd data o asesiadau Proffil y Cyfnod Sylfaen yn cael ei astudio bob blwyddyn, gyda llywodraethwyr yn cymryd diddordeb byw mewn deall y data a'r darlun mae'n ei ddangos. Roedd yn disgrifio sut roedd data'r canlyniadau yn arwain eu penderfyniadau o safbwynt pa

ymyraethau sydd am gael eu cyflwyno a'u cyllido, a sut mae'r rhain yn bwydo i gynllun gwella'r ysgol.

*Proffil y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm i Gymru*

4.94 Roedd ymarferwyr ar y cyfan ag agwedd gadarnhaol at y Cwricwlwm newydd i Gymru, gyda rhai ysgolion eisoes wedi gwneud rhai paratoadau ar gyfer ei gyflwyno.

4.95 Roedd un ymarferydd yn cyfeirio'n gadarnhaol ar y lleihad mewn pwyslais oedd ynddo ar "lle mae arnoch eisiau i'r plentyn fod ar ddiwedd blwyddyn". Teimlai y byddai hyn yn arwain at lai o bwysau ar ddysgwyr. Roedd ymarferydd arall yn yr un modd yn falch nad oedd Camau Cynnydd yn benodol ar gyfer unrhyw flwyddyn neilltuol, ac yn gobeithio y byddai hyn yn arwain at fwy o hyblygrwydd ynghylch cynnydd dysgwyr.

4.96 Roedd, fodd bynnag, rhai meysydd o bryder ynghylch asesiadau o fewn y cwricwlwm newydd.

4.97 Roedd rhai ymarferwyr yn awgrymu bod y Camau Cynnydd o fewn y Cwricwlwm newydd yn rhy eang o safbwynt asesu, gan awgrymu rhannu'r camau cynnydd yn is-grwpiau llai. Roedd pum ymarferydd ar draws ysgolion gwahanol yn bryderus fod y Camau Cynnydd mor eang fel y gallai dysgwyr heb fod wedi symud ymlaen ar bapur o un flwyddyn i'r nesaf. Teimlai'r ymarferwyr hyn y byddai ychwanegu manylion manach yn galluogi darganfod ac adrodd mwy o gynnydd ochr yn ochr â'r Camau Cynnydd.

4.98 Canfyddiad yr ymarferwyr hyn oedd y byddai'r Camau Cynnydd eu hunain yn ffurfio sail yr asesu. Roedd un prifathro fodd bynnag yn cydnabod na fyddai'r Camau Cynnydd, er eu bod yn ffurfio sail gyffredin, ar y rhestr wirio y byddai asesiadau'n cael eu cyflawni i gymharu â hi.

4.99 Roedd ymarferwyr mewn rhai ysgolion yn trafod adnoddau roedd arnynt eu hangen er mwyn cynllunio asesiadau a oedd yn gydnaws

â'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Roedd amryw o ymarferwyr yn esbonio eu hawydd i weld mwy o ddeunydd canllawiau ar asesu mewn perthynas â Chamau Cynnydd y Cwricwlwm i Gymru. Roedd rhai ysgolion eisoes wedi cychwyn addasu eu haddysgu ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, ac yn canfod yr angen am ganllawiau ar sut i ddisodli mesurau canlyniadau â'r Camau Cynnydd.

4.100 Roedd rhai ymarferwyr yn mynegi'r awydd i weld rhyw fath o fframwaith cyffredin ar gyfer asesiadau a fyddai ar gael i bob ysgol. Roedd un ysgol yn edrych ymlaen at allu cymryd perchnogaeth o'u dull asesu, ond yn dal i fynegi'r awydd i gael fframwaith amlinellol i weithio ohono. Roedd ymarferydd arall mewn ysgol wahanol yn galw ar i'r hyn a gaiff ei asesu fod yn glir a chyson ledled Cymru.

4.101 Dywedodd un Arweinydd Cyfnod Sylfaen fod canllawiau ar gyfer asesiadau sy'n gysylltiedig â'r Camau Cynnydd yn arbennig o angenrheidiol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso, gan na fyddai ganddynt syniad mor glir o lle'r oedd y nodau terfynol ar gyfer pob cohort.

4.102 Roedd dau ymarferydd mewn cyfweliad grŵp yn nodi'r angen am amrywiaeth helaeth o becynnau asesu i ddewis ohonynt a fyddai ar gael i ysgolion, er mwyn rhoi gradd o safoni i arferion asesu, ond sydd hefyd yn addas ar gyfer gwahanol amrywiadau mewn dulliau asesu. Roeddent yn disgrifio'r adnoddau delfrydol fel detholiad helaeth o ddewisiadau, a "phob un ohonynt y dewis iawn" fel na allai ysgolion ddewis opsiwn gwael.

4.103 Roedd un ysgol yn benodol yn cynllunio datblygu eu cwricwlwm yn y flwyddyn academaidd sy'n dod, ac yn pwysleisio eu bod wedi ymrwymo i ddatblygu "system asesu arloesol" a oedd yn herio'r ysgol i wirioneddol ddeall cynnydd dysgwyr ac asesu'n dda. Roeddent yn teimlo bod angen i Lywodraeth Cymru wrando ar ysgolion sy'n gweithio'n galed ar ddatblygu arferion a systemau addas ar gyfer asesu, ac roeddent yn bryderus fod llawer o ysgolion "nad oeddent yn rhan o'r daith honno." Roeddent yn bryderus y byddai llawer o

ysgolion yn mynd am yr atebion rhwydd a'r pecynnau ar y farchnad sy'n ymwneud yn ormodol â thicio blychau, a heb fod yn gydnaws â'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

4.104 Un pwynt o bryder a godwyd gan athro Blwyddyn 2 ac Arweinydd Cyfnod Sylfaen oedd bod gallu ysgolion yn y gorffennol i gydweithio o fewn eu clwstwr wedi bod yn un o wir gryfderau'r system bresennol. Roeddent yn bryderus y byddai unigolyddiaeth cwricwlwm a dull pob ysgol yn tanseilio'r cryfder hwn.

4.105 Roedd un ymarferydd yn cwyno eu bod wedi derbyn negeseuon cymysg am y Cwricwlwm i Gymru, gyda Llywodraeth Cymru'n gyrru ymlaen ar y Cwricwlwm newydd ar y naill law, ond ar y llaw arall, Estyn, yr Awdurdod Lleol, a'r Consortiwm Rhanbarthol yn dal i ganolbwyntio ar ganlyniadau a lefelau, ac ar asesu ysgolion ar sail perfformiad dysgwyr ar ddiwedd y cyfnodau allweddol. Roedd yr ysgol yn croesawu'r cyfeiriad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, ond yn dal heb ymddiriedaeth yng ngweddill y system a oedd yn flaenorol wedi bod yn canolbwyntio ar atebolrwydd.

4.106 Roedd ymarferwyr mewn tair gwahanol ysgol yn sôn am dreialu neu dderbyn hyfforddiant ar gyfer defnyddio Taith360, yr arf asesu a wneir gan y Sefydliad Asesu sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Roedd prifathro un o'r ysgolion hyn fodd bynnag yn mynegi siom fod Taith360 yn dal i fod yn ormod o ymarferiad ticio blychau.

4.107 Roedd ymarferydd yn nodi'r angen am fwy o gydbwysedd rhwng asesu a data meintiol ac ansoddol mewn asesiadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn y dyfodol.

*Covid-19 ac Asesu o fewn y Cyfnod Sylfaen*

4.108 Roedd ysgolion yn unfrydol eu barn fod y pandemig Covid-19 a chyfnodau hir allan o'r ysgol wedi effeithio'n fawr ar ddatblygiad eu dysgwyr. Fel y dywedodd un ymarferydd, roedd canlyniadau asesiadau'r ysgol, a oedd wedi dewis cyflawni asesiadau diwedd cyfnod o fewn y Cyfnod Sylfaen wedi bod "yr isaf maent wedi bod

erioed … nid oherwydd bod y dosbarth yn wanach, mewn gwirionedd, mae’r dosbarth yn wirioneddol gryf … ond oherwydd mae wedi bod yn ddysgu gweithgar, ymarferol ... nid yw wedi bod mor gynhwysfawr â phe bai plant wedi bod yn yr ysgol.” Roedd un ysgol sydd â meithrinfa yn disgrifio bob plant sy’n cychwyn addysg feithrin yn llawer “iau” yn dod i mewn o safbwynt cynnydd sgiliau oherwydd y pandemig, a’u bod “yn sylweddol is nag unrhyw fath o linell sylfaen.”

# Rhan 3 – Asesiadau Personol Ar-lein: Canfyddiadau Manwl

## 5. Asesiadau Personol Ar-lein yn y Cyfnod Sylfaen

*Asesiadau Personol Ar-lein ac Egwyddorion Addysgegol y Cyfnod Sylfaen*

5.1 Roedd y defnydd o asesiadau personol ar-lein yn cael ei weld gan y mwyafrif o ymarferwyr y trafodwyd asesiadau personol ar-lein gyda hwy fel rhywbeth nad oedd o angenrheidrwydd yn gydnaws ag egwyddorion addysgegol y Cyfnod Sylfaen. Y teimlad oedd bod fformat yr asesiadau personol ar-lein yn creu amgylchedd a oedd yn anghyfarwydd, yn anaddas yn ei gymhlethdod, ac mewn rhai achosion, yn creu gofid i ddysgwyr. I rai ymarferwyr, yr holl syniad o asesu oedd yn ennyn eu beirniadaeth (datganodd saith yn ddiamwys na ddylai asesiad ffurfiol megis asesiad personol ddigwydd yn ystod y Cyfnod Sylfaen), tra bod eraill yn mynegi beirniadaeth o nifer o nodweddion yr asesiadau personol (a esbonir mewn mwy o fanylder isod).

5.2 Mae'r asesiadau personol yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr eistedd i lawr am gyfnod o amser, gyda rhywfaint o gymorth yn cael ei ganiatáu gan staff, yn unol â'r canllawiau yn y llawlyfr gweinyddu. Mae'r canllawiau i ymarferwyr yn cynghori defnyddio seibiannau i ddysgwyr sy'n eistedd yr asesiadau personol, gyda phob ysgol ond un a holwyd ar y pwnc hwn yn dweud eu bod yn darparu seibiannau yn ystod yr asesiadau:

> "rydym yn tueddu i adael iddyn nhw weithio ar y prawf am tua 20 munud, yn seibiant o 10 munud, ac yna ailgychwyn."

5.3 Roedd amodau'r asesiadau yn cael eu gweld gan ymarferwyr fel rhywbeth a oedd yn mynd yn groes i'r dull ymarferol, seiliedig ar chwarae, a fabwysiadir yn arferol o fewn y Cyfnod Sylfaen lle caiff dysgwyr eu haddysgu fel arfer mewn amgylchedd hamddenol yn

gweithio gyda'i gilydd mewn grwpiau bach, i ganiatáu ar gyfer dysgu gan gymheiriaid. Ar y llaw arall, roedd yr asesiadau personol yn gofyn i ddysgwyr weithio'n unigol.

Teimlai rhai ymarferwyr fod unrhyw fath o asesu ffurfiol yn ystod y Cyfnod Sylfaen yn anaddas, ac nad oedd yn unol ag egwyddorion addysgegol y Cyfnod Sylfaen. Gofynnwyd cwestiwn dilynol i rai ymarferwyr a oedd yn mynegi'r farn hon, gan ofyn a oeddent o'r farn y gellid addasu'r asesiadau er mwyn eu gwneud yn gydnaws â'u safbwyntiau ar egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Atebodd y mwyafrif o'r ymarferwyr yn yr is-grŵp hwn fod unrhyw fath o asesu ffurfiol yn anaddas.

5.4 Roedd cydberthynas gadarnhaol rhwng ysgolion a oedd wedi integreiddio neu gysoni'n well â'r canllawiau ar gyflawni asesiadau personol a'r graddau roedd yr ymarferwyr ag agweddau ffafriol at asesiadau personol. Fel y nodir uchod, roedd mwyafrif o ysgolion nad oeddent yn dilyn rhai agweddau o'r canllawiau, ac roedd ysgolion yn y grŵp hwn yn fwy tebygol o fod â barn negyddol ar gydnawsedd yr asesiadau ag addysgeg y Cyfnod Sylfaen.

5.5 Yn aml, roedd yr ysgolion hyn yn wynebu rhwystrau diwylliannol neu ymarferol – yn aml yn ymwneud ag arferion rheoli – wrth weithredu'r asesiadau personol yn gwbl unol â'r canllawiau, gyda'r canlyniad eu bod yn gweithredu'r asesiadau'n haearnaidd ac weithiau o dan amgylchiadau a oedd yn ymdebygu i amodau prawf.

*Defnydd o Asesiadau Personol Ar-lein gan Ymarferwyr*

5.6 Roedd y defnydd o asesiadau personol ar-lein yn amrywio rhwng ysgolion a'i gilydd, gyda rhai ysgolion yn cynnal yr asesiadau ddwywaith mewn blwyddyn academaidd (yn fwyaf cyffredin yn nhymor yr hydref a thymor yr haf) ac eraill unwaith yn unig yn unol â gofynion statudol. Roedd wyth ysgol y siaradwyd â hwy wedi cyflawni, neu'n bwriadu cyflawni, dau asesiad personol ar-lein o fewn blwyddyn academaidd, ac roedd naw wedi cyflawni, neu'n bwriadu cyflawni, yr

asesiadau unwaith. Roedd dwy ysgol yn ansicr yn eu bwriadau o ran cyflawni'r asesiadau unwaith neu ddwywaith.

5.7 Rhyngddynt i gyd, dywedodd pob ysgol ond un nad oeddent wedi defnyddio dim o'r deunyddiau datblygu proffesiynol a oedd ar gael ar y wefan asesu, gydag un ysgol yn dweud eu bod wedi defnyddio'r deunydd a oedd ar gael y flwyddyn flaenorol er mwyn ymgyfarwyddo â'r canllawiau asesu. Roedd un ysgol, er enghraifft, yn nodi nad oeddent yn gwybod am unrhyw ddeunyddiau datblygu proffesiynol parhaus na chanllawiau, ac mai'r cyfan a welsant oedd yr asesiadau'n ymddangos.

5.8 Mae cydberthynas amlwg rhwng y teimlad negyddol a fynegwyd gan y mwyafrif o ysgolion tuag at yr asesiadau personol a'r nifer a oedd yn bwriadu cyflawni asesiadau personol unwaith o fewn y flwyddyn. Ar y cyfan, roedd ysgolion a oedd wedi cyflawni neu'n bwriadu cyflawni dwy gyfres o'r asesiadau personol â safbwyntiau mwy cadarnhaol ynghylch eu heffaith ar lesiant a'u defnyddioldeb.

5.9 Roedd rhai ysgolion fodd bynnag a oedd yn mynegi teimladau negyddol, ond yn dal i gynnal yr asesiadau ddwywaith er gwaethaf hynny. Dywedodd un ysgol o'r fath, wrth esbonio'r penderfyniad hwn, nad oeddent yn credu mewn defnyddio un asesiad unigol i asesu cynnydd, ac er gwaethaf amheuon ynghylch defnyddioldeb canlyniadau'r asesiadau, roeddent er hynny'n teimlo'r angen i gael golwg fwy cyfannol. Roedd ysgolion eraill yn rhannu'r teimlad hwn, a oedd, er bod ganddynt rai amheuon ynghylch gwerth neu ddefnyddioldeb y data, yn gweld rhywfaint o fudd mewn cael llinell sylfaen i gymharu yn ei herbyn.

5.10 Roedd rhai ysgolion a oedd ag agweddau mwy ffafriol tuag at yr asesiadau personol yn crybwyll nifer o fanteision i ddefnyddio'r asesiad personol ddwywaith yn y flwyddyn academaidd,[13] gan gynnwys datblygu grwpiau targed a grwpiau ymyrraeth, a mesur twf a

[13] Mae hyn yn cynnwys safbwyntiau gan ysgolion nad ydynt ond wedi ei ddefnyddio unwaith hyd yma, sy'n siarad yn ddamcaniaethol am y manteision.

chynnydd dysgwyr erbyn diwedd tymor yr haf. Gellir dangos y newid hwn o’r llinell sylfaen, yn ei dro, i rieni mewn adroddiadau blynyddol. Y teimlad hefyd oedd y byddai ailadrodd yr asesu yn golygu y byddai dysgwyr yn dod yn fwy cyfarwydd â hwy. Teimlai un ysgol a gyfwelwyd nad oedd dim rhwystrau sylweddol rhag cyflawni mwy nag un asesiad personol y flwyddyn.

5.11 Ar y llaw arall, rhoddwyd rhesymau gan dair ysgol pam eu bod yn bwriadu cynnal yr asesiadau personol unwaith y flwyddyn. Roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu trwy weinyddu’r profion darllen a rhifedd o fewn yr un ffenest amser, a’r teimlad nad oedd yr adborth o’r asesiadau yn rhoi gwybodaeth ddigonol ar lefelau sgiliau dysgwyr i gyfiawnhau eu defnyddio ddwywaith yn flynyddol. Ar y pwynt olaf, roedd un ysgol yn mynegi eu barn mai cyfyngedig oedd defnyddioldeb data asesiadau personol o ran rhoi gwybod am ddatblygiad dysgwyr, gan deimlo bod hyn yn cael ei ddal yn well trwy dulliau eraill megis asesiadau parhaus gan athrawon ar sail arsylwi.

5.12 Roedd un ysgol yn esbonio mai’r rheswm nad oeddent yn cyflawni’r asesiadau personol ar-lein ond unwaith y flwyddyn oedd eu bod wedi ymrwymo i becyn asesu ar-lein arall a oedd ar gael yn fasnachol, un a oedd yn eu barn hwy yn rhoi gwell gwybodaeth i athrawon ar ganlyniadau asesesu a’r asesiadau personol ar-lein. Mae’r ysgol hon yn defnyddio’r pecyn asesu ar-lein allanol ddwywaith y flwyddyn ym mis Medi a mis Chwefror. Yn ogystal, dywedodd yr ysgol fod y pecyn asesu, pan maent yn derbyn y canlyniadau ohono, yn rhoi gwybodaeth ar y cwestiynau penodol a ofynnir a pha ddysgwyr a’u cafodd hwy yn gywir ac anghywir, gan alluogi athrawon i wybod yn union lle mae mannau gwan disgyblion. Ar y llaw arall, teimlai ymarferwyr fod yr adborth maent yn ei dderbyn o’r asesiadau personol yn fwy cyffredinol a heb fod yn ddigon penodol wrth roi adborth ar sut cafodd cwestiynau penodol eu hateb.

5.13 Prif feirniadaethau’r ysgol hon gyda’r asesiadau personol oedd eu fformat addasol, gyda phob dysgwyr yn wynebu gwahanol

gwestiynau, cymhlethdod trefnu'r asesu ar gyfer dosbarthiadau cyfan (roedd gan yr ysgol ddosbarthiadau cyfan yn eistedd yr asesiadau personol yr un pryd, ac nid oeddent yn gwneud defnydd o'r hyblygrwydd a gynigid gan yr asesiadau personol a'r canllawiau), a defnyddioldeb y data a roddid ganddynt. Roedd ymarferydd yn yr ysgol yn disgrifio adborth asesiadau personol (yn enwedig rhifedd gweithdrefnol) fel rhywbeth nad oedd yn ddigon penodol, gyda'r adborth yn fwy cymhleth i'w ddarllen a'i ddeall na'r pecyn arall roeddent wedi tanysgrifio iddo.

5.14 Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i weinyddu'r asesiadau personol ar-lein, gyda rhai ysgolion wedi croesawu'r rhyddid i drefnu asesiadau ar unrhyw amser yn ystod y flwyddyn academaidd, ac eraill a oedd yn parhau i weinyddu'r asesiadau ym mis Mai o fewn ffenest debyg i'r un ar gyfer y profion blaenorol ar bapur. Er bod rhywfaint o wahaniaeth pwyslais yn yr wybodaeth a ddarparwyd gan ysgolion, roedd yr wybodaeth a gasglwyd yn dangos bod naw ysgol wedi cyflawni'r asesiadau personol o fewn ffenest a benderfynwyd eisoes, a oedd fel arfer tua phythefnos, gyda chwe ysgol yn disgrifio'n benodol sut eu bod wedi defnyddio dull llai ffurfiol o drefnu'r asesiadau personol. Ni wnaeth yr ysgolion a oedd yn weddill fanylu ar y mater.

5.15 Rhoddwyd rhesymau gan amryw o ysgolion ynghylch pam iddynt gyflawni eu hasesiadau personol ar-lein yn ystod y ffenest brofion a ddefnyddiwyd yn flaenorol ym mis Mai. Roedd un ysgol yn disgrifio sut y bu'n rhaid iddynt drefnu asesiadau ar gyfer yr ysgol gyfan, ac y bu'n rhaid iddynt bennu amser i gyflawni asesiadau personol Blwyddyn 2. Roedd yn haws iddynt ddyrannu cyfnod penodol i gyflawni'r asesiadau ynddo yn sgil yr angen i ddyrannu adnoddau.

5.16 Roedd newid arferion a diwylliant i'w cysoni â'r asesiadau personol yn anhawster allweddol a gododd o'r cyfweliadau gydag ysgolion a rhanddeiliaid yr astudiaethau achos. Roedd arferion a oedd wedi ymwreiddio yn dal yn amlwg mewn tua hanner o'r holl ysgolion. Dywedodd un rhanddeiliad o Gonsortiwm Rhanbarthol fod llawer o weithwyr roeddent wedi gweithio â hwy yn dal i weithio i gyfnod asesu

y byddent wedi arfer ag ef. Roedd ysgol arall yn disgrifio sut roeddent wedi parhau gyda'r un dull o amserlennu ag a ddefnyddiwyd ganddynt yn hanesyddol a bod hyn i raddau helaeth oherwydd fod arnynt ofn symud oddi wrth y dull blaenorol, gan eu bod wedi cael pobl allanol "yn dod i wirio sut roeddem yn gweinyddu'r profion o'r blaen."[14] Roedd y teimlad hwn yn cael ei fynegi hefyd gan brifathro arall, a oedd yn mynegi nerfusrwydd y byddai asesiadau o'r fath yn cael eu defnyddio unwaith eto ar gyfer asesu ysgolion yn allanol.

5.17 Roedd cydberthynas rhwng ysgolion a oedd yn ymdrin ag asesiadau personol ar-lein mewn modd mwy ffurfiol, gan lynu at arferion a oedd yn ymdebygu i amodau arholiad, ac agwedd gyffredinol negyddol eu teimladau ynghylch asesiadau personol ar-lein.

5.18 Yn unol â'r canllawiau, roedd pob ysgol a gyfwelwyd yn darparu pensel a phapur i ddysgwyr i wneud nodiadau bras wrth iddynt gymryd yr asesiadau personol. Roedd ysgolion yn haeru bod yn rhoi amgylchedd cyfarwydd i'r dysgwyr, yn ogystal â chyfle iddynt ysgrifennu eu cyfrifo, neu "weithio allan" i'w helpu i gyrraedd ateb. Ni chaiff y "gweithio allan" hwn ei asesu, ac roedd ymarferwyr yn mynegi rhywfaint o rwystredigaeth na all yr asesiad eu sgorio, gan fod ymarferwyr yn esbonio y gallai gweld y "gweithio allan" hwn eu helpu i adanbod lle mae gwendid dysgwr, neu ar ba bwynt yr aethant o'i le. Tynnwyd sylw hefyd at anallu dysgwyr i fynd yn ôl at gwestiynau blaenorol, fel y byddai wedi bod yn bosibl gyda phrofion papur, fel problem gan un ymarferydd.

5.19 Roedd nifer o randdeiliaid o fewn awdurdodau lleol a chonsortia y siaradwyd â hwy ynghylch asesiadau personol yn nodi rhwystrau diwylliannol rhag eu mabwysiadu fel y bwriadwyd gan y canllawiau a ddarparwyd. Dywedodd arweinydd Cyfnod Sylfaen un awdurdod lleol fod gwaith yn dal i fod angen ei wneud i "newid diwylliant i weld [asesiadau personol] fel asesiadau *personol* ac nid fel profion

---

[14] Mae'r dull newydd ar gyfer monitro gweinyddu asesiadau yn seiliedig ar gefnogi'r arferion gorau.
Llawlyfr gweinyddu 2021/22

cenedlaethol.” Yn yr un modd, dywedodd grŵp o arweinwyr Cyfnod Sylfaen mewn Consortiwm Rhanbarthol fod ysgolion yn dal i weld yr asesiadau personol mewn goleuni tebyg i brofion ar bapur; nid fel rhywbeth sy’n dweud wrthych lle mae’r dysgwr, ond yn dal i fod fel “rhywbeth ar wahân”, heb fod yn cysylltu’n ôl o angenrheidrwydd ag addysgu neu ddysgu.

5.20 Ar y cyfan, roedd y mwyafrif o’r ysgolion a oedd yn defnyddio’r asesiadau personol ar-lein mewn modd mwy hyblyg ag agwedd fwy cadarnhaol at eu defnyddio, ond yn dal i fynegi amheuon cryf. Er enghraifft, roedd dau ymarferydd yn nodi eu bod yn hoffi gallu penderfynu ar sut a pha bryd y gallent gyflawni asesiadau personol, gyda’r dewis i’w sefydlu ar gyfer grwpiau mawr neu fach, neu ar gyfer unigolion. Fodd bynnnag, roedd yr amheuon yn cynnwys ymarferwyr yn credu nad oedd y canlyniadau sy’n deillio o asesiadau personol bob amser yn adlewyrchu gallu’r dysgwyr, a hynny ar sail bod wedi profi gwhaniaethau rhwng eu disgwyliadau ar gyfer dysgwr a’u perfformiad gwirionedd yn yr asesiadau. Roedd y potensial i rai dysgwyr deimlo gofid yn ystod yr asesiad hefyd yn bryder.

5.21 Roedd fformat addasol yr asesiadau yn ennyn ymatebion cymysg gan ymarferwyr. Mae’r asesiadau wedi cael eu llunio’n fwriadol i ymestyn dysgwyr, gyda disgwyl i ddysgwyr gael rhai atebion yn anghywir, fodd bynnag roedd nifer bach o ymarferwyr yn dal i deimlo y gallai’r asesiadau addasu’n well.[15] Roedd un ymarferydd yn nodi’r canlynol:

> “Mae rhai cwestiynau nad ydynt yn addasu’n gywir – weithiau mae plentyn cael anawsterau, ond wedyn dyw’r cwestiwn nesaf ddim yn mynd i lawr.”

5.22 O’r herwydd, teimlai ymaferwyr fod yr asesiad yn cynhyrchu cwestiynau dilynol sydd y tu hwnt i allu’r dysgwyr ar y pryd. Er enghraifft, fel rhan o’r asesiadau personol rhifedd gweithdrefnol, roedd deuddeg o ymarferwyr ar draws saith o ysgolion yn feirniadol

[15] Fel rhan o’r canllawiau a gyflwynir i ymarferwyr fel rhan o’r Asesiadau Personol, dywedir wrthynt am ddweud wrth ddysgwyr am beidio â phoeni os na allant ateb cwestiwn, a symud ymlaen i’r un nesaf.

fod rhai dysgwyr yn cael cwestiynau y tu hwnt i'w blynyddoedd cwricwlwm ar bynciau megis TAW, canrannau, a degolion. Yn yr un modd, cyfeiriodd un ymarferydd at ddysgwyr ym Mlwyddyn 2 yn cael cwestiynau ynghylch y tablau lluosi â chwech, na chaiff eu hamserlennu i gael eu haddysgu hyd Flynyddoedd 3 a 4.[16] Mae'n bwysig nodi nad yw asesiadau wedi eu llunio i adlewyrchu'r gallu disgwyliedig penodol ar gyfer grŵp blwyddyn y dysgwr; mae eu natur addasol yn golygu y bydd dysgwyr yn wynebu cwestiynau sy'n addasu i lefel eu sgiliau waeth beth fo'u grŵp blwyddyn. Bydd hyn yn arwain at rai dysgwyr yn wynebu pynciau nad ydynt wedi eu cael eu cyflwyno eto yn yr ystafell ddosbarth. Roedd ymarferydd arall yn cyfeirio at y diffyg sain yn yr asesiadau Rhifedd (Gweithdrefnol) fel problem, sy'n golygu y bydd angen i staff darllen y cwestiynau i ddysgwyr os bydd unrhyw rai ohonynt yn cael anhawster i ddarllen y cwestiynau. Er mai dyma oedd yn digwydd gyda'r profion papur, yng nghyd-destun yr asesiadau ar-lein cafodd ei ddisgrifio fel rhywbeth oedd yn cymryd llawer o amser, ac yn faich ar amser ymarferwyr. Cafodd yr opsiwn i ddysgwyr allu gwrando ar gwestiynau yn yr asesiadau rhifedd gweithdrefnol ei ddisgrifio gan dri ymarferydd fel offeryn a fyddai o help mawr wrth weithredu'r asesiadau. Yn yr un modd, awgrymwyd gan un ymarferydd y dylid ymgorffori mwy o agweddau gweledol, megis blociau a diagramau i asesiadau Rhifedd, er mwyn eu cysoni'n fwy â natur weledol addysgeg y Cyfnod Sylfaen.

5.23 Er hynny, roedd gallu'r asesiad ar-lein i addasu lefel anhawster y cwestiwn ar sail atebion dysgwyr yn cael ei weld fel rhywbeth cadarnhaol yn gyffredinol ac yn cael ei weld fel nodwedd nad oedd yn bod gyda'r profion papur. Roedd un ymarferydd hefyd yn hoffi'r ffaith fod yr asesiad darllen ar-lein yn gwthio dysgwyr fel eu bod, yn hytrach na dim ond darllen y geiriau, yn gwirioneddol amsugo'r hyn maent yn ei ddarllen ac yn deall y brawddegau.

[16] Fel y nodir ym mharagraff 1.26, nid yw asesiadau wedi cael eu llunio i adlewyrchu gallu disgwyliedig grwpiau blwyddyn; bydd yr asesiadau yn addasu i allu cyffredinol, a fydd yn arwain at rai dysgwyr yn wynebu pynciau na roddwyd sylw iddynt eto yn yr ystafell ddosbarth.

5.24 Roedd ymarferwyr yn nodi bod logisteg yr aseseiadau wedi profi'n anodd i rai dysgwyr. Roedd ymateb ysgolion rywfaint yn gymysg ar y cwestiwn a oedd gan eu dysgwyr Blwyddyn 2 sgiliau TG digonol ai peidio i we-lywio drwy'r asesiadau, gyda chwarter yr ysgolion yn benodol yn crybwyll sgiliau TG fel rhwystr i rai dysgwyr ond nid pob un, ac eraill yn dweud bod y dysgwyr yn fedrus i raddau helaeth, gyda rhai eithriadau. Dywedodd un rhanddeiliad strategol ar lefel awdurdod lleol fod yr athrawon roeddent yn gweithio â hwy wedi canfod bod sgiliau TG dysgwyr wedi gwella'n sylweddol ers y pandemig Covid-19. Roedd y farn hon yn cael ei chefnogi gan ddau riant-lywodraethwr, nad oedd eu plant hwy wedi profi dim anawsterau gyda'r asesiadau personol yn sgil bod yn gyfarwydd iawn â defnyddio dyfeisiadau digidol i wneud gwaith. Roedd un ymarferydd yn cyfeirio at sut roedd wedi cyflwyno dyfeisiadau TG i ddysgwyr yn gynnar, a thrwy hynny'n sicrhau eu bod yn gyfarwydd ac yn hyderus wrth eu defnyddio yn ystod yr asesiadau personol.

5.25 Mae'n bwysig nodi y gofynnir i ysgolion gyflawni asesiadau ymgyfarwyddo gyda dysgwyr ymlaen llaw, er mwyn sicrhau eu bod yn deall y mathau o gwestiynau a sut i we-lywio trwy'r asesiadau. Hefyd, caiff ysgolion eu hannog i gyflawni asesiadau gan ddefnyddio dyfeisiadau mae dysgwyr yn gyfarwydd â hwy. Yn y cyd-destun hwn, a chan dynnu sylw at achosion lle na chaiff y canllawiau eu dilyn yn ddigonol, dywedodd un ymarferydd na ddaeth yn ymwybodol o'r dewis hwn tan ar ôl yr asesiadau, gan deimlo y byddent wedi defnyddio iPads a llechi ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 2 pe bai hyn eisoes yn hysbys. Yn ogystal â bod yn anghyfarwydd â rhai dyfeisiadau TG, cyfeiriwyd hefyd at gyfleusterau cyffredinol ysgol a phroblemau Wi-Fi fel rhwystrau rhag cynnal yr asesiad fel dosbarth cyfan.

5.26 Roedd yr angen i newid rhwng gwahanol ffenestri ar yr asesiad Darllen, wrth symud rhwng y testun a'r cwestiynau, hefyd yn cael ei grybwyll fel rhwystr gan naw o ymarferwyr ar draws chwe ysgol, gyda rhai dysgwyr, ond nid pawb, yn ei chael hi'n anodd gwe-lywio yn ôl i

ddarllen y testun wrth ateb cwestiwn. Roedd un ysgol yn disgrifio hyn fel rhywbeth “nad oedd yn gyfeillgar iawn â phlant”, gan nodi y bu’n rhaid iddynt ymyrryd yn aml er mwyn helpu dysgwyr i we-lywio yn ôl ac ymlaen. O ran yr asesiadau Rhifedd (Gweithdrefnol), roedd ymarferwyr, nad oedd yn ymddangos eu bod yn sylweddoli y gellid defnyddio llechi, yn dweud bod rhai dysgwyr yn ymdrechi’n galed i ddefnyddio llygoden cyfrifiadur, er y gellid defnyddio llechi hefyd i gyflawni’r asesiadau. Roedd sgrolio gyda’r llygoden yn cael ei nodi fel problem gan bedair ysgol gan fod dysgwyr yn fwy cyfarwydd wrth ddefnyddio iPads yn yr ystafell ddosbarth o ddydd i ddydd, yn hytrach na’r gliniaduron, cyfrifiadron, a’r bysellfyrddau a ddefnyddiad ar gyfer yr asesiadau.[17] Yn yr achosion hyn, roedd staff yn disgrifio’u hunain yn eistedd gyda’r dysgwyr i ddangos iddynt sut i gyflawni swyddogaethau sylfaenol megis clicio ar atebion neu droi tudalennau.

5.27 Roedd y ffaith fod natur addasol yr asesiadau yn golygu na all dysgwyr gopïo ei gilydd yn cael ei weld fel rhywbeth cadarnhaol gan ddau ymarferydd, er na wnaeth neb o’r ymarferwyr ddisgrifio hyn fel rhywbeth a ddigwyddodd erioed o’r blaen gyda phrofion papur.

5.28 Wrth eu cyferbynnu â’r profion papur blaenorol, y farn oedd fod yr asesiadau ar-lein â’u manteision ac anfanteision eu hunain (caiff effeithiau ar lesiant dysgwyr eu trafod yn yr adran berthnasol isod). Un o’r manteision oedd lleihad mewn biwrocratiaeth ysgolion.

5.29 Lle byddai’n rhaid i ysgolion weithio i ddyddiadau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ymlaen llaw yn achos profion ar bapur, a lle byddent yn cael arolygiadau galw heibio gan gonsortia rhanbarthol o bryd i’w gilydd, roedd ysgolion yn gweld yr asesiadau personol ar-lein ar y cyfan yn haws eu gweinyddu, yn sgil y natur hyblyg o ran pa bryd y gellid cwblhau’r asesiadau.

5.30 Roedd ymarferwyr ar y cyfan yn hapus bod yr asesiadau personol ar-lein yn arwain at lai o weinyddu heb ddim marcio papurau, gan

[17] Mae’r Llawlyfr Gweinyddu Asesiadau Personol yn pennu y gall dysgwyr gymryd yr asesiadau ar amrywiaeth o ddyfeisiadau, gan nodi: “Bydd aelodau staff yn gallu trefnu asesiadau yn unol â dewisiadau a chyfleusterau eu hysgol.”

ddarparu adborth cyflym yn hytrach a chynnig cipolwg sy'n dangos pa fath o gymorth mae ar wahanol ddysgwyr ei angen. Er hynny, roedd llawer o ymarferwyr yn credu bod yr asesiadau ar-lein yn cymryd llawer o amser mewn ffyrdd eraill. Roedd hyn yn cynnwys goruchwyliaeth athrawon o dasgau yn y maes TG a'r amser mae'n ei gymryd i athrawon baratoi pob cyfrifiadur personol neu ddyfais arall, gan sicrhau bod pob dysgwr wedi mewngofnodi i'r asesiad cywir.

5.31 Roedd ymarferwyr yn esbonio hefyd fod teimlad llai ffurfiol i'r asesiadau ar-lein nag i'r profion ar bapur, gyda'r profion papur yn cael eu cymryd mewn amodau arholiad. Fodd bynnag, roedd ymarferwyr yn cytuno i raddau helaeth fod y gallu i fynd yn ôl, ailddarllen, ac ateb cwestiynau blaenorol yn un o gryfderau'r profion papur – rhywbeth na all dysgwyr ei wneud gyda'r asesiadau personol ar-lein. Rhaid i'r sylwadau hyn ar y profion papur fodd bynnag gael eu gosod mewn cyd-destun yn erbyn yr haeriadau gan y mwyafrif llethol o ymarferwyr fod yr asesiadau personol ar-lein yn well i lesiant dysgwyr na'r profion ar bapur.

*Cyfleu Asesiadau Personol wrth Rieni*

5.32 O blith yr ysgolion y cyfwelwyd â hwy drwy gydol y gwaith maes, roedd yn gyffredin iddynt beidio â rhannu amserau'r asesiadau personol ar-lein gyda rheini a gwarcheidwaid y plant.[18] Roedd sawl rheswm dros hyn, gan gynnwys y ffaith y gellid trefnu'r asesiadau pryd bynnag mae'r ysgol yn ei ddewis. Roedd rhesymau eraill a grybwyllwyd gan nifer bach yn bryderon gan ymarferwyr y gallai i rieni wybod am yr asesiad a oedd ar droed beri iddynt roi pwysau ar y dysgwr yn y cyfnod yn arwain at yr asesiad. Mae hyn yn gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru sy'n datgan nad oes dim gofyniad i hysbysu rhieni ymlaen llaw am yr asesiadau ac na ddylai'r asesiadau fod yn achos gofid i ddysgwyr.

[18] Nid yw'n ofynnol i ysgolion roi gwybod am amseru'r asesiadau i rieni a gwarcheidwaid.

Roedd rhieni'n fwyaf tebygol o gael eu hysbysu am yr asesiadau personol trwy'r adroddiad blynydol ar ddiwedd blwyddyn. Roedd 13 o'r ysgolion y cyd-drafodwyd â hwy heb rannu data gwybodaeth canlyniadau o'r asesiadau personol gyda rhieni hyd yma. Roedd hyn yn rhannol oherwydd teimlad na fyddai rhieni efallai'n deall y canlyniadau. Roedd mwyafrif yr ysgolion hyn fodd bynnag yn rhoi adborth yn llafar i rieni mewn nosweithiau rhieni.

5.33 O'r ysgolion a wnaeth rannu, roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad diwedd blwyddyn yn cynnwys canlyniadau asesiad eu plentyn, yn ogystal â meysydd o gryfder a thargedau ar gyfer gwella. Roedd dwy ysgol yn nodi bod, yn dilyn dosbarthu'r adroddiadau hyn, nifer bach o rieni wedi cysylltu i geisio eglurder gan nad oeddent yn deall yr wybodaeth a ddarparwyd. Dywedodd un ysgol iddynt gysylltu â rhieni yr wythnos yn dilyn yr asesiad i ddweud wrthynt fod eu plentyn wedi cymryd rhan yn yr asesiadau personol, gyda'r mwyafrif o rieni'n dawel eu meddwl am y sefyllfa.

*Defnyddioldeb Canlyniadau Asesiadau Personol*

5.34 Roedd rhai enghreifftiau a gasglwyd yn ystod gwaith maes lle'r oedd y data o'r asesiadau wedi cael ei ddefnyddio mewn modd cadarnhaol, gydag un ymarferydd yn dweud eu bod yn "tynnu sylw at rai pethau gyda rhai unigolion." Mewn rhai achosion, y farn oedd bod yr adborth yn ddefnyddiol ar lefel unigol, ond y defnyddid yr asesiadau yn amlach i dynnu sylw at broblemau i'r dosbarth fel cyfanrwydd. Roedd yr asesiadau yn fuddiol wrth adnabod yr elfennau roedd fwyaf o angen eu datblygu, gan ganiatáu ar gyfer cynllun gweithredu – naill ai trwy ddyrannu mwy o amser yn unswydd ar y pynciau hyn yn yr ystafell ddosbarth neu greu hyfforddiant ychwanegol i staff ar y meysydd hynny.

5.35 Mewn dwy ysgol, roedd y farn ar ddefnyddioldeb data'r asesiadau personol yn gymysg, gyda'r asesiad personol darllen yn cael ei ganfod i fod yn werthfawr, ond nid yr asesiad Rhifedd (Gweithdrefnol).

Roedd un o'r ddwy ysgol hyn wedi canfod yr asesiad darllen i fod yn ddefnyddiol am sicrhau bod dysgwyr, yn hytrach na darllen y geiriau yn unig, yn gwirioneddol amsugno a deall beth roeddent yn ei ddarllen.

5.36 Mewn un ysgol, roedd y data o asesiadau personol yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â ffurfiau eraill o asesu er mwyn grwpio unigolion yn barod at Flwyddyn 3. Dywedodd tair ysgol ysgol sut roedd y data yn cael ei fwydo i gyfarfodydd pontio lle'r oedd canlyniadau'n cael eu rhannu rhwng staff a thueddiadau'n cael ei darganfod, er mwyn gwahaniaethu rhwng dysgwyr a chynllunio ar gyfer gwersi yn y flwyddyn academaidd ddilynol.

5.37 Ar y llaw arall, roedd llawer o ymarferwyr y cyfwelwyd â hwy yn amheus o ganlyniadau'r asesiadau personol oherwydd yr amrywiant rhwng disgwyliadau ymarferwyr a chanlyniadau asesiadau. Teimlent nad oedd atebion rhai dysgwyr i gwestiynau'r asesiadau yn adlewyrchu eu gwir lefel o allu.

5.38 Mae pedwar ymarferydd wedi mynegi pryder bod materion yn ymwneud â llythrennedd wedi effeithio ar ddealltwriaeth dysgwyr o gwestiynau yn yr asesiadau Rhifedd (Gweithdrefnol). Roedd rhai ymarferwyr yn crybwyll achosion y daethant ar eu traws lle'r oedd dysgwyr yn ateb cwestiynau ar hap heb ddeall y cwestiwn na darllen y testun, dim ond er mwyn cyrraedd diwedd yr asesiad. Yn ôl yr ymarferwyr, gallai rhai o'r dysgwyr hyn gofnodi canlyniadau ar hap ymhell y tu hwnt i'r hyn roedd ymarferwyr yn ei farnu fel eu gwir lefel o allu, gyda thua hanner yr holl ysgolion yn cyfeirio at ganlyniadau "ffliwc" roeddent wedi eu harsylwi. Er ei bod yn bosibl fod rhai o'r canlyniadau hyn yn ddysgwyr yn gwneud yn well na'r disgwyl, roedd ymarferwyr yn cyfeirio at achosion lle'r oeddent yn hyderus nad oedd data'r asesiadau yn adlewyrchu gallu'r dysgwr. Dylid nodi bod dysgwyr yn gallu ateb profion papur "ar hap" mewn modd tebyg, neu beidio ag ateb y cwestiynau o gwbl.

5.39 Dywedodd dwy ysgol sut roedd y canlyniadau wedi cadarnhau'r hyn a wyddent eisoes am gynnydd y dysgwr. Fodd bynnag, mewn naw ysgol arall, roedd ymarferwyr yn nodi bod dysgwyr roeddent yn disgwyl iddynt wneud yn dda wedi tan-gyflawni yn yr asesiadau, a bod dysgwyr roeddent wedi disgwyl iddynt wneud yn wael wedi gor-gyflawni yn eu barn hwy neu wedi cynhyrchu'r hyn roeddent yn ei ystyried fel canlyniadau "ffliwc". Roedd ymarferwyr y cyfwelwyd â hwy yn cydnabod bod yr asesiadau personol ar-lein yn un darn o becyn mwy o asesiadau, fodd bynnag roedd yr anghysondeb canfyddedig yn arwain at nifer o ymarferwyr yn amau gwerth yr asesiadau i ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen. Teimlai dau ymarferydd fod defnyddio'r asesiadau ddwywaith mewn blwyddyn academaidd yn lliniaru'r anfanteision hyn, ond nid i raddau digonol i sicrhau "darlun llawn o'r disgybl".

5.40 Roedd rhai ymarferwyr, wrth gydnabod mai un dull ymysg llawer yw'r asesiadau personol, yn pwysleisio pwysigrwydd peidio â gor-ddibynnu ar y dull hwn yn unig, gan ei fod yn rhoi ciplun o'r dysgwr ar y diwrnod penodol hwnnw, a all adlewyrchu galluoedd y dysgwr yn eu gwaith yn yr ystafell ddosbarth, neu beidio â gwneud hynny. Roedd llawer o ymarferwyr yn gweld y sgoriau fel rhai a oedd ormod ar hap[19] i fod yn gwahaniaethu rhwng dysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen.

5.41 Waeth beth oedd eu canfyddiadau o ran pa mor dda mae'r asesiadau personol yn dangos gallu dysgwr, roedd ymarferwyr mewn naw o ysgolion o'r farn fod yr asesiadau'n ddiangen, gan eu bod yn teimlo nad oes arnynt angen asesiad i farnu lefelau sgiliau'r dysgwyr ar ôl cyfnod o bedair blynedd, ond y gallant yn hytrach ennill yr wybodaeth hon trwy arsylwi a gwaith dosbarth.

[19] Mae ar hap yma yn golygu bod, mewn rhai achosion, dysgwyr roedd ymarferwyr wedi disgwyl iddynt wneud yn dda heb gyflawni cystal â'r disgwyl, tra bod eraill wedi gwneud yn dda yn annisgwyl. Teimlai ymarferwyr fod rhai o'r dysgwyr hyn wedi bod yn dyfalu atebion.

*Asesiadau Personol Ar-lein a Llesiant Dysgwyr*

5.42 Yn ôl ymarferwyr, mae'r asesiadau personol wedi cael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar lesiant dysgwyr, fodd bynnag teimlad y mwyafrif yw eu bod yn well i lesiant dysgwyr na'r profion ar bapur. O gymharu â'r profion papur, teimlai ymarferwyr yn gyffredinol fod dysgwyr yn dawelach eu meddwl gyda'r fformat digidol, gan fwynhau defnyddio cyfrifiaduron a llechi a'i fod yn caniatáu athrawon i gyflwyno'r asesiadau fel "cwis" neu "weithgareddau" yn hytrach na "phrawf".

5.43 Roedd sut roedd yr asesiadau personol ar-lein yn cael eu fframio mewn rhyngweithiau gyda dysgwyr yn cael ei bwysleisio fel rhywbeth pwysig iawn i lesiant dysgwyr. Roedd ymarferwyr yn cyfeirio atynt fel "tasgau" a "gwaith diddorol" yn lle defnyddio'r gair "asesiad" gan y teimlent y byddai hyn yn achosi straen. Roedd y dull hwn yn cael ei fabwysiadu'n helaeth ar draws yr ysgolion a gyfwelwyd. Fe wnaeth un ysgol fynegi amheuaeth, gan honni y byddai'r dysgwyr bob amser yn gweld yr asesiadau personol fel profion, waeth sut y byddent yn cael eu disgrifio, ac y gallent ddweud bod y canlyniadau o'r asesiadau yn cyfrif. Mae'r ddealltwriaeth reddfol hon yn tanlinellu rôl yr ymarferydd wrth leddfu pryderon sydd gan ddysgwyr am yr asesiadau, ac mewn gosod cyd-destun i'w diben.

5.44 Mewn un achos, roedd yr asesiadau personol yn cael eu fframio fel estyniad o'r rhaglenni a oedd yn bod eisoes i helpu gyda darllen a mathemateg ac yn cael eu disgrifio i ddysgwyr fel rhywbeth a fyddai'n helpu athrawon i wybod beth i'w wneud nesaf. Yn ogystal, roeddent yn cael eu hesbonio mewn modd addas i oedran, gan annog dysgwyr i ganolbwyntio ar wneud eu gorau yn hytrach na phoeni am y canlyniad. Trwy asesiadau cyfarwyddo, roedd cwestiynau enghreifftio yn cael eu rhannu ymlaen llaw, gan esbonio beth roedd yn rhaid i ddysgwyr ei wneud. Roedd un ysgol hefyd yn esbonio ymlaen llaw y byddai rhai cwestiynau yn herio a'u bod yn fwy addas i'r "plant mwy" yn yr ysgol.

5.45 Roedd ymarferwyr mewn amryw o ysgolion yn nodi eu bod yn gwybod ymlaen llaw pa ddysgwyr fyddai'n cael y mwyaf o drafferth gyda thasg fel yr asesiadau personol ar-lein a'u bod felly'n gallu ymdrin â'r dasg gyda'r dysgwr hwnnw mewn modd addas.

5.46 Roedd dulliau gwahanol yn cael eu defnyddio ar gyfer gwahanol ddysgwyr i sicrhau eu bod yn teimlo'n gysurus. Er enghraifft, gyda disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, byddai'n rhaid i rai gael asesiad wedi ei drefnu ar wahân i weddill y dosbarth, eraill fel dosbarth cyfan. Roedd un ysgol yn cyfeirio at sut roedd amryw o ddysgwyr fel pe baent yn "rhewi" wrth gymryd yr asesiadau ac o'r herwydd yn cael caniatâd i roi'r gorau iddynt, tra bod lleiafrif yn mwynhau'r her.

5.47 Er yr agweddau cadarnhaol hyn, teimlai'r mwyafrif o ymarferwyr fod yr asesiadau personol ar-lein yn cael effaith negyddol ar lesiant rhai dysgwyr, gyda dysgwyr mwy abl yn fwy tebygol o ddod i deimlo straen. Roedd pob ysgol ond un yn dweud iddynt ddilyn y canllawiau yn y Llawlyfr Gweinyddu ar ddarparu seibiannau yn ystod yr asesiadau personol. Roedd un ysgol lle na gweithredid hyn a oedd yn cynnal yr asesiadau yn ddi-dor dros gyfnod o awr. Dywedodd yr ysgol eu bod yn teimlo y byddai rhoi seibiannau yn achosi anawsterau logistaidd. Roedd pob ysgol arall a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn disgrifio rhoi seibiannau ar ôl cyfnod o 20 neu 30 munud, pryd y gallai dysgwyr fynd allan, rhedeg o gwmpas, ac yfed dŵr.

5.48 Roedd y mwyafrif o'r ymarferwyr yn disgrifio nifer bach o achosion lle byddai dysgwyr yn eistedd yr asesiadau am dros awr, ac mewn rhai achosion, dros ddwy awr.[20] Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr hyn yn esbonio bod seibiannau'n cael eu darparu yn ystod yr amser hwn er mwyn hollti cyfnod yr asesiad yn ddarnau llai o amser.[21] Roedd un

[20] Nid oes hyd penodol o amser wedi ei osod ar gyfer yr asesiadau a disgwylir i ymarferwyr ddefnyddio eu doethineb proffesiynol o ran pa mor hir i ganiatáu'r asesiad i barhau cyn dod ag ef i ben.

[21] Yn ôl y canllawiau ar asesiadau personol, os oes ar y dysgwr angen seibiant i'w alluogi i gyflawni hyd at eithaf ei allu, yna gellir gwneud hyn trwy oedi'r asesiad gan ddefnyddio'r sgrin hwyluso ar y wefan.

ymarferydd yn cyfeirio at enghraifft o ddysgwr abl o fewn y Cyfnod Sylfaen a eisteddodd yr asesiad am bron i dair awr, tra bod un rall wedi cymryd bron i ddiwrnod cyfan i gwblhau'r asesiadau, gan gynnwys seibiannau.

5.49 Fel y nodwyd yn gynharach wrth gyfeirio at berfformiad yn ôl blwyddyn ysgol, caiff yr asesiadau personol eu llunio i asesu graddau gallu dysgwr. O'r herwydd, yn enwedig mewn asesiadau rhifedd, gall fformat addasol yr asesiadau arwain at rai dysgwyr yn cael cwestiynau ar bynciau na fyddai o angenrheidrwydd wedi cael eu cyflwyno yn yr ystafell ddosbarth. Cynghorir athrawon i esbonio na ddylai dysgwyr boeni os ydynt yn gweld cwestiynau nad ydynt wedi cael sylw yn y dosbarth, ac y dylent roi cynnig arnynt neu eu gadael a symud ymlaen. Fodd bynnag, teimlai amryw o ymarferwyr y cyfwelwyd â hwy bod wynebu pynciau anghyfarwydd yn niweidiol i lesiant dysgwyr ac yn achosi gofid i rai dysgwyr. Roedd un ysgol yn cyfeirio at ddysgwyr yn derbyn cwestiynau ar dalgrynu hyd at ddau rif degol cyn iddynt ddysgu hyn yn y dosbarth, tra bod ymarferydd arall yn disgrifio dysgwyr yn dod ar draws cwestiynau'n ymwneud â thablau lluosi heriol yn ystod yr asesiadau rhifedd.

5.50 Roedd 11 o ymarferwyr ar draws wyth ysgol yn nodi mai dysgwyr a oedd yn cyflawni'n uwch oedd fwyaf tebygol o deimlo gofid wrth eistedd yr asesiad. Ychydig a ddywedwyd gan ymarferwyr ynghylch y manteision i ddysgwyr llai abl yn sgil natur addasol yr asesiadau, heblaw un sylw am yr asesiadau personol yn peri llai o straen i ddysgwyr o allu is na phrofion ar bapur. Esboniai un ymarferydd fod dysgwyr a oedd yn gryfach yn academaidd yn fwy tebygol o wynebu cwestiynau nad oedd wedi cael sylw o'r blaen yn yr ystafell ddosbarth:

> "… mae disgyblion cryf yn cael eu digalonni'n fawr os ydynt yn diweddu gyda chwestiynau am dablau 7 ac 8, pan nad oes ond disgwyl iddynt wneud tablau 2, 5 a 10 ym mlwyddyn 2. Mae'r cwestiynau allan o bob rheswm ac mae disgyblion wedi cael anawsterau mawr gyda'r cwestiynau hynny."

5.51 Rhoddodd ymarferydd arall yr enghraifft ganlynol:

> "Cafodd un eneth ddisglair ei digalonni gyda'r cwestiynau anodd yn yr asesiad rhifedd a dywedodd, 'ond dw i'n dda mewn Mathemateg ac alla' i ddim gwneud hyn'."

5.52 Roedd nifer o ymarferwyr yn disgrifio sut roedd dysgwyr yn mynd ati'n fwriadol i ateb cwestiynau'n anghywir er mwyn dod allan o'r asesiad, gan ddisgrifio hyn fel dysgwr "yn gorfod methu er mwyn iddo ddod i ben". Roedd eraill yn nodi sut roedd dysgwyr yn colli diddordeb ac yn ofidus gan eu bod yn meddwl nad ydynt wedi gwneud yn dda iawn.[22] Yn ogystal, roedd un ymarferydd yn cyfeirio at yr asesiad yn arwain at "ychydig o ddagrau" ymysg dysgwyr, naill nai trwy ddisgwyliad personol neu bwysau gan athrawon. Dywedwyd bod hyn yn fwy cyffredin gyda dysgwyr mwy abl sy'n berffeithwyr ac sy'n rhoi pwysau arnynt eu hunain. Yn y cyd-destun hwn, cyfeiriwyd hefyd gan un ymarferydd at effaith Covid-19 ar ganlyniadau asesiadau fel risg, gan y gallai fod nad oedd rhieni yn deall yr effaith mae'r pandemig wedi'i gael ar ddatblygiad eu plentyn.

*Crynodeb: Rhwystrau a Hwyluswyr wrth ddilyn Arferion Da*

5.53 Gellir nodi'r ffactorau canlynol fel rhai sy'n hwyluso mabwysiadu'r asesiadau personol a'u gweithredu'n llwyddiannus:

- Roedd ysgolion a oedd yn dilyn y canllawiau'r fwy trylwyr ac yn arddel yr ethos y tu ôl i'r asesiadau personol yn fwy tebygol o fynegi barn ffafriol tuag atynt.
- Roedd cynnal yr asesiadau personol gyda grwpiau bach yn rhoi llai o bwysau ar ymarferwyr na hwyluso asesiadau personol gyda grwpiau mawr neu ddosbarthiadau cyfain.

[22] Er nad yw dysgwyr yn gwybod a yw eu hateb yn gywir neu anghywir, mae'n debygol bod ymarferwyr yn cyfeirio at y ffaith fod dysgwyr yn dod ar draws pynciau anghyfarwydd ac nad ydynt yn gwybod yr ateb cywir.

- Yr ysgol a oedd â’r farn fwyaf ffafriol o asesiadau personol oedd yr unig ysgol i ddatgan yn ddiamwys eu bod wedi ymwneud â’r deunydd dysgu proffesiynol.

5.54 Sylwyd ar y ffactorau canlynol fel rhai a oedd yn peri rhwystrau rhag arferion da (caiff arferion da eu diffinio yma fel glynu at y canllawiau sy’n mynd law yn llaw â’r asesiadau personol):

- Cynllunio a threfnu asesiadiau personol yn cael ei wneud mewn dull tebyg i’r hyn a wnaed ar gyfer profion ar bapur allan o arfer a dulliau a oedd wedi ymwreiddio.
- Rhoi sylw annigonol i’r deunydd dysgu proffesiynol sy’n cefnogi’r asesiadau personol.
- Mae amheuon ynghylch defnyddioldeb y data i ddysgwyr unigol yn rhwystro ymrwymiad gan y mwyafrif o ymarferwyr.
- Roedd barn ymarferwyr ar yr asesiadau yn cael ei ddylanwadu gan brofiadau rhai dysgwyr yn dod o dan straen yn ystod yr asesiadau, gyda phawb o’r ymarferwyr wedi profi’r broblem hon. Mae hyn wedi effeithio ar deimladau ymarferwyr tuag at addasrwydd yr asesiadau i’r Cyfnod Sylfaen.
- Cwestiynau’n cael eu codi’n aml gan ymarferwyr ynghylch cydnawsedd yr asesiadau â dull seiliedig-ar-chwarae y Cyfnod Sylfaen.
- Amheuon gan lawer o ymarferwyr ynghylch addasrwydd cyffredinol asesu ffurfiol yn ystod y Cyfnod Sylfaen yn effeithio ar raddau’r ymrwymiad.

## 6. Casgliadau ac Argymhellion

6.1 Mae’r bennod hon yn nodi’n casgliadau ac yn cynnig argymhellion i Lywodraeth Cymru, ei phartneriaid, ac ysgolion, ar sail y dadansoddiad o ddata a gasglwyd oddi wrth ysgolion yr astudiaethau achos.

### Proffil y Cyfnod Sylfaen

*Cydnawsedd ag Egwyddorion Addysgegol y Cyfnod Sylfaen*

6.2 Roedd ymarferwyr yn ymateb yn gadarnhaol i’r cydnawsedd rhwng Proffil y Cyfnod Sylfaen ac Egwyddorion Addysgegol y Cyfnod Sylfaen. Y prif reswm dros hyn oedd y gellid cyflawni asesiadau sylfaenol a’r asesiadau diwedd cyfnod trwy arsylwi yn bennaf.

6.3 Fodd bynnag, un pryder amlwg a godwyd yn ystod cwrs yr ymchwil oedd y graddau y cyfeiriodd ymarferwyr at orfod trefnu nifer bach o dasgau penodol, gan weithiau orfod cyflawni gwaith yn eistedd wrth ddesgiau, er mwyn asesu rhai sgiliau. Mae goblygiadau i hyn i arferion asesu wrth symud ymlaen y tu hwnt i Broffil y Cyfnod Sylfaen.

6.4 Er bod mwyafrif yr ymarferwyr yn nodi gorfod defnyddio rhai tasgau penodol er mwyn asesu rhai sgiliau, roedd er hynny ymwybyddiaeth helaeth bod tasgau penodol o’r fath i gael eu hosgoi lle bo’n bosibl gan nad ydynt bob amser yn gydnaws ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Roedd yr holl ymarferwyr y siaradwyd â hwy yn dangos dealltwriaeth gref o’r egwyddorion addysgegol sy’n sail i’r Cyfnod Sylfaen, ac roeddent wedi ymrwymo i gynnal y rhain yn eu gwaith. Roedd y ffactorau allweddol sy’n ysgogi ymarferwyr i ddefnyddio tasgau penodol fel a ganlyn:

- Cymhlethdod a natur y sgìl: Roedd mwyafrif yr ymarferwyr yn disgrifio’r gwaith o asesu rhai sgiliau fel rhywbeth a oedd yn gofyn i ddysgwyr ymwneud â thasgau mwy penodol, weithiau gan eistedd wrth ddesg. Nid yw tasgau o’r fath yn gydnaws o angenrheidrwydd ag egwyddorion addysgegol y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, roedd pawb o’r ymarferwyr yn nodi nad oedd

angen tasgau penodol ond ar gyfer nifer cyfyngedig o sgiliau i’w harsylwi.

- Oedran dysgwyr: Mae tasgau mwy penodol yn ofynnol ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn sgil natur y sgiliau a gaiff eu hasesu, a’r sgiliau uwch sy’n cael eu hadolygu mewn meysydd megis rhifedd.
- Pwysau amser, a chymhareb dysgwyr i athrawon: Mae gan ystafelloedd dosbarth Blwyddyn 2 gymhareb is o ran dysgwyr i ymarferwyr, sy’n rhoi pwysau ar allu ymarferwyr i gyflawni asesiadau seiliedig ar arsylwi.

*Y graddau y defnyddir Proffil y Cyfnod Sylfaen*

6.5 Roedd ymarferwyr yn ymateb yn gadarnhaol i ansawdd a defnyddioldeb Proffil y Cyfnod Sylfaen, fodd bynnag, nid oedd mwyafrif ysgolion yr astudiaethau achos yn defnyddio’r Proffil y tu hwnt i’r gofyn statudol. Nid yw hyn, fe ymddengys, o angenrheidrwydd yn adlewyrchiad o ansawdd y Proffil ond mae i raddau helaeth o ganlyniad i’r ffaith fod pecynnau asesu eraill ar gael, sy’n cynnig llwyfan hygyrch y gellir ei gyrraedd trwy ddyfeisiadau symudol.

6.6 Y tu hwnt i’r cyfnod statudol o’i ddefnyddio yn chwe wythnos gyntaf y flwyddyn derbyn, defnyddiwyd Proffil y Cyfnod Sylfaen gan chwarter o ysgolion yr astudiaethau achos (pum ysgol i gyd). Roedd pum ysgol wedi datblygu eu systemau asesu mewnol eu hunain, gyda’r deg arall yn defnyddio pecynnau meddalwedd asesu eraill.

6.7 Roedd mwyafrif y systemau a ddatblygwyd yn fewnol gan ysgolion yn seiliedig ar Broffil y Cyfnod Sylfaen, gydag ymarferwyr yn disgrifio gorfod gwneud nifer o newidiadau fel ei fod yn fwy addas i’w hanghenion, a oedd yn cynnwys:

- Torri lefelau canlyniadau i lawr i dargedau llai.
- Eisiau mwy o ganolbwyntio ar ymagwedd at ddysgu yn hytrach nag ar sgiliau yn unig.

6.8 Yn gyffredinol, roedd darlun cymysg ynghylch cyfeiriad y tueddiad i ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen o fewn yr ysgolion, gyda dwy ysgol

yn ddiweddar wedi symud oddi wrth ddefnyddio pecynnau meddalwedd asesu eraill, y naill ar awgrym awdurdod lleol a’r llall ar awgrym consortiwm rhanbarthol, gydag un yn dychwelyd at ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen, a’r llall wedi datblygu eu system eu hunain. Ar sail cyfweliadau â rhai rhanddeiliaid, ymddengys fod y cyngor a roddwyd gan rhai awdurdodau lleol yn argymell symud oddi wrth becynnau asesu eraill sydd ar gael yn fasnachol a thuag at ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen neu system arall debyg a ddatblygwyd yn fewnol.

*Tueddiadau Diweddar yn y Defnydd o’r Proffil*

6.9 Yn gyffredinol, roedd darlun cymysg o ran cyfeiriad y tueddiad i dderbyn Proffil y Cyfnod Sylfaen o fewn y sampl o ysgolion yr astudiaethau achos. Y tueddiad ymysg ysgolion yr astudiaethau achos oedd oddi wrth becynnau asesu eraill, er nad yw’n amlwg i ba raddau mae’r ysgolion hyn yn gynrychioliadol o ysgolion cynradd Cymru yn eu cyfanrwydd.

6.10 Roedd dwy ysgol yn ddiweddar wedi symud oddi wrth defnyddio pecynnau meddalwedd asesu eraill, y naill ar awgrym awdurdod lleol a’r llall ar awgrym consortiwm rhanbarthol, gydag un yn dychwelyd i ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen, a’r llall wedi datblygu eu system eu hunain.

6.11 Ar sail cyfweliadau â rhai rhanddeiliaid, ymddengys fod y cyngor a roddwyd gan rhai awdurdodau lleol yn argymell symud oddi wrth becynnau asesu eraill sydd ar gael yn fasnachol a thuag at ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen. Roedd un rhanddeiliad awdurdod lleol yn nodi bod Proffil y Cyfnod Sylfaen yn “arf mor ddefnyddiol ar gyfer gwybod sut i lenwi bylchau, dal ati i arsylwi, ac asesu yn barhaus.”

6.12 Fodd bynnag, mae’r defnydd o becynnau asesu eraill sydd ar gael yn fasnach yn dal i fod yn uchel, gyda hanner ysgolion yr astudiaethau achos yn defnyddio’r rhain fel eu prif arf ar gyfer cofnodi asesiadau.

6.13 Mae’r teimlad a fynegwyd gan ymarferwyr o ran pam fod pecynnau asesu eraill yn cael eu defnyddio mor helaeth yn ymwneud â hwylustod a rhwyddineb eu defnyddio, gydag un pecyn meddalwedd penodol yn

cynnig rhyngwyneb syml sy'n storio'r holl ddata asesu, y gellir wedi ei weld ar lechen mewn unrhyw le.

6.14 Roedd y rhan fwyaf o'r systemau a ddatblygwyd yn fewnol a ddefnyddiwyd gan ysgolion yn seiliedig ar Broffil y Cyfnod Sylfaen, gydag ymarferwyr yn disgrifio gorfod gwneud nifer o newidiadau i fod yn fwy addas i'w hanghenion, a oedd yn cynnwys:

- Torri lefelau canlyniadau i lawr yn dargedau llai
- Eisiau mwy o bwyslais ar ymagwedd at ddysgu.

*Ansawdd a Defnyddioldeb Proffil y Cyfnod Sylfaen*

6.15 Roedd ymarferwyr yn gyffredinol ag agwedd gadarnhaol at ansawdd Proffil y Cyfnod Sylfaen. Roedd y mwyafrif o'r ymarferwyr y cyfwelwyd â hwy yn nodi bod y Proffil Cryno yn dda iawn am ddarganfod man cychwyn dysgwyr o safbwynt sgiliau a gallu, a'i fod yn cynnig amrywiaeth ddigon helaeth o sgiliau i'w harsylwi a'u hasesu. Roedd ymarferwyr yn nodi ei werth hefyd wrth adnabod y targedau i ddysgwyr ganolbwyntio arnynt, ac am helpu penderfynu pa feysydd i ganolbwyntio arnynt nesaf. Roedd cydnabyddiaeth fodd bynnag mai arbenigedd, profiad a phroffesiynoldeb yr ymarferydd oedd y peth hanfodol er mwyn gwybod pryd i farnu bod sgìl wedi ei chaffael, a pha bryd i symud ymlaen i'r cam nesaf.

6.16 Nodwyd bod y Proffil Cryno yn fwy addas ar gyfer asesu rhai meysydd na'i gilydd, gyda mwy o alluoedd "du a gwyn" yn haws eu haesu na meysydd mwy "goddrychol", gyda Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Llesiant ac Amrywiaeth Ddiwylliannol yn cael ei godi fel grisiau sy'n gofyn am ddehongliad mwy goddrychol o ddisgrifiadau canlyniadau.

6.17 Roedd y mân feirniadaethau mwyaf cyffredin a godwyd ynghylch Proffil y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys ei fod yn cymryd gormod o amser, yn ormod o broses ticio blychau, a heb fod wedi'i deilwra'n ddigonol i'r dysgwr unigol.

6.18 Roedd tair ysgol yn defnyddio'r Proffil Llawn yn rheolaidd fel rhan o'u harferion asesu, gydag un arall yn dweud eu bod yn ei ddefnyddio pan fo pryderon ynghylch datblygiad dysgwr. Roedd rhanddeiliad o Gonsortiwm Rhanbarthol yn esbonio bod yn well gan rai o'r athrawon roeddent yn ymwneud â hwy y Proffil Llawn oherwydd ei ddyfnder a'r ffordd roedd yn amlinellu'r camau nesaf, ond mai amser oedd y rhwystr mwyaf rhag ei ddefnyddio.

*Adnabod Dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol*

6.19 Ni fwriedir Proffil y Cyfnod Syflaen fel rhywbeth i ddibynnu arno i adnabod dysgwyr sydd â phroblemau o ran datblygiad, ac roedd ymarferwyr yn cydnabod ei fod, ynddo'i hun, yn arf annigonol, ar gyfer adnabod dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd, fodd bynnag, yn cael ei ddefnyddio'n helaeth i gasglu tystiolaeth ar broblemau datblygiadol fel rhan o gyfres ehangach o adnoddau sydd ar gael i ymarferwyr. Y prif bryder a nodwyd oedd bod datganiadau o fewn Proffil y Cyfnod Sylfaen yn rhy eang ac amwys i dynnu sylw o angenrheidrwydd at broblemau.

*Proffil y Cyfnod Sylfaen ac Iaith*

6.20 Yn bennaf, roedd anawsterau gyda chyfrwng iaith ac asesu i'w canfod mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog lle'r oedd dysgwyr yn dod i raddau helaeth o gartrefi Saesneg eu hiaith. Roedd ymarferwyr yn nodi y gall asesiadau sylfaenol a gyflawnir yn y cyfnod statudol fod yn is i rai dysgwyr yn sgil bod yn anghyfarwydd ag iaith yr addysgu.

6.21 Roedd yr ymarferydd yn disgrifio sut roedd y dysgwyr yn cael eu sgorio'n is nag y cawsant ar ddiwedd eu hamser mewn meithrinfa cyfrwng Saesneg, gan roi'r argraff o fod wedi "llithro'n ôl" ers ymuno â'r ysgol. Roedd ymarferwyr fodd bynnag yn nodi bod yr ychwanegedd a ddangoswyd yn ystod asesiadau diweddarach yn rhywbeth cadarnhaol, gyda dysgwyr yn gwneud cryn dipyn o gynnydd yn y gyflym yn iaith yr addysgu.

6.22 Roedd rhywfaint o bryder gan nifer bach o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y gallai hyn effeithio ar ganfyddiadau rhieni o'u penderfyniad i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg, ond roedd eraill wedi canfod bod rheini yn dangos dealltwriaeth unwaith bod y mater hwn wedi ei esbonio iddynt.

*Proffil y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm newydd i Gymru*

6.23 Roedd ymarferwyr ar y cyfan yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch y Cwricwlwm newydd i Gymru, er bod rhai meysydd o bryder yn bod ynghylch asesu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Teimlai llawer o ymarferwyr fod y Camau Cynnydd yn rhy eang o safbwynt asesu. Dywedodd nifer o ymarferwyr yr hoffent weld mwy o fanylder. Mae'n werth nodi na fwriedir i'r Camau Cynnydd arwain y dull asesu, ac nas bwriedir hwy fel cerrig milltir asesu.
- Roedd ar ymarferwyr mewn rhai ysgolion eisiau mwy o ddeunydd canllawiau ac adnoddau ar gyfer llunio a gweithredu arferion asesu yn y Cyfnod Sylfaen. Roedd rhai ysgolion eisoes wedi cychwyn addasu eu haddysgu ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, roedd yn canfod yr angen am ganllawiau ar sut i ddisodli mesurau canlyniadau â'r Camau Cynnydd.
- Roedd ar rai ymarferwyr eisiau gweld fframwaith cyffredin ar gyfer asesu ar draws ysgolion.
- Roedd dau ymarferydd yn awgrymu darparu pecynnau cymorth eang i alluogi ysgolion i ddewis o amrywiaeth o adnoddau sy'n gweddu â'u system asesu ddynodedig.
- Roedd un ysgol a oedd yn y broses o roi system asesu arloesol at ei gilydd yn bryderus y byddai llawer o ysgolion yn troi at atebion cyflym a llwyfannau cofnodi asesiadau ar-lein sy'n cynnig dull ticio blychau o asesu.
- Roedd un Arweinydd Cyfnod Sylfaen yn esbonio bod, yn y gorffennol, cydweithio rhwng ysgolion yn eu clwstwr wedi bod yn fuddiol ar gyfer asesu, ac y byddai dull unigolyddol pob ysgol o dan y Cwricwlwm newydd, yn symud oddi wrth hyn.

- Roedd un ymarferydd yn cwyno eu bod wedi derbyn negeseuon cymysg oddi wrth Lywodraeth Cymru a’u Hawdurdod Lleol, Estyn a’u Consortiwm Rhanbarthol. Roedd y grŵp olaf yn dal i ganolbwyntio ar ganlyniadau a lefelau.
- Roedd ymarferydd yn nodi’r angen am fwy o gydbwysedd rhwng asesu a data meintiol ac ansoddol mewn asesiadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn y dyfodol.

**Asesiadau Personol Ar-lein**

*Defnyddio ac Integreiddio: Ymlyniad wrth ganllawiau’r asesiadau personol*

6.24 Mae’r canfyddiad allweddol o’r ymchwil sy’n ymwneud â’r defnydd o asesiadau personol yn ddarlun cymysg o ran glynu at y canllawiau sy’n mynd law yn llaw â’r asesiadau, a’r graddau mae ethos yr asesiadau personol wedi cael eu harddel. Mae llawer o ysgolion nad ydynt wedi defnyddio’r canllawiau sy’n mynd law yn llaw â’r asesiadau personol, gyda mwyafrif bach heb fanteisio ar yr hyblygrwydd a gynigir, a nifer bach heb fod yn cyflawni’r asesiadau mewn modd sydd o angenrheidrwydd yn gyson ag Egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Roedd tystiolaeth hefyd mai ychydig o ddefnydd a wnaed o’r deunyddiau dysgu proffesiynol sy’n cefnogi’r asesiadau personol.

6.25 Mae’r graddau mae ymarferwyr yn integreiddio asesiadau personol ag arferion y Cyfnod Sylfaen felly’n gymysg, gyda rhai agweddau o’r canllawiau a ddarperir i ymarferwyr yn cael eu derbyn ar y cyfan, ond eraill yn cael eu dilyn yn llai manwl. Er enghraifft, roedd y mwyafrif llethol o ymarferwyr yn dilyn canllawiau ar annog dysgwyr i gymryd seibiannau yn ystod yr asesiadau (pob ysgol ond un).

Roedd rhai ysgolion fodd bynnag yn dewis cyflawni’r asesiadau personol mewn amgylchiadau sy’n ymdebygu i amodau prawf, gan ymddangos fel parhad o’r modd y cyflawnid y profion papur. Roedd darlun cymysg ynghylch pa bryd roedd ysgolion yn dewis trefnu asesiadau personol, gyda thua hanner yr ysgolion yn dal i gynnal

asesiadau o fewn ffenestri cul, fel arfer yn sgil arferion amserlennu'r ysgol ar gyfer asesiadau.

Roedd darlun cymysg hefyd ynghylch y nifer o achosion o asesiadau personol roedd ysgolion yn eu cyflawni. Roedd tua hanner yr ysgolion yn dal i fwriadu defnyddio'r asesiadau unwaith yn unig yn y flwyddyn academaidd. Roedd y rhesymau a roddwyd dros y penderfyniad hwn yn cynnwys:

- Teimlad nad oedd yr asesiad yn gydnaws ag addysgeg y Cyfnod Sylfaen.
- Profiadau o ddysgwyr yn mynd yn ofidus yn ystod yr asesiadau.
- Ddim yn gweld digon o werth o ddata'r canlyniadau.
- Gormod o effaith ar bwysau amser a gweinyddu.
- Defnyddio systemau asesu eraill (un ysgol).

6.26 Roedd tua hanner ysgolion yr astudiaethau achos wedi defnyddio, neu'n bwriadu defnyddio, asesiadau personol ddwywaith o fewn y flwyddyn academaidd er mwyn sefydlu llinell sylfaen ar gyfer y dysgwyr ac i asesu cynnydd.

*Ymlyniad wrth ganllawiau'r asesiadau personol*

6.27 Un pryder a nodwyd oedd yr ymlyniad anghyson wrth ganllawiau ar yr asesiadau personol. Canfyddiad allweddol hefyd oedd y diffyg defnydd ymysg ysgolion o'r deunyddiau dysgu proffesiynol a ddatblygwyd i gefnogi asesiadau personol. Byddai defnyddio mwy ar y deunyddiau hyn (megis gweminarau wedi eu recordio) yn helpu hyrwyddo gwybodaeth o'r canllawiau a gwell dealltwriaeth o'r ethos mae'r asesiadau personol wedi eu seilio arno.

6.28 Roedd cydberthynas rhwng ysgolion a oedd yn defnyddio'r asesiadau personol ar-lein mewn modd mwy hyblyg yn unol ag ethos a chanllawiau'r asesiadau a pha mor gadarnhaol oedd eu teimladau tuag atynt. Roedd ysgolion a oedd ag agwedd fwy cadarnhaol at yr asesiadau yn gyffredinol yn glynu at y canlynol:

- Roedd yr asesiadau'n cael eu defnyddio a'u trefnu'n hyblyg gan naill ai grwpiau bach neu unigolion.
- Roedd dysgwyr yn gallu defnyddio llechi'r oeddent yn gyfarwydd â hwy.
- Roedd dysgwyr yn cael seibiannau rheolaidd i dorri'r cyfnod asesu yn dalpiau llai.

6.29 Yr ysgol a oedd â'r agwedd fwyaf ffafriol at yr asesiadau personol oedd yr unig ysgol i ddweud yn ddiamwys eu bod wedi defnyddio'r deunydd dysgu proffesiynol. Yr ysgol hon hefyd oedd yr un fwyaf cadarnhaol ei hagwedd ar y cwestiwn o effaith ar asesiadau personol ar lesiant.

*Rhwystrau rhag arferion da a heriau eraill*

6.30 Pery rhwystrau diwylliannol ac ymarferol mewn llawer o ysgolion rhag gweithredu symudiad oddi wrth yr arferion a sefydlwyd yn flaenorol trwy brofion ar bapur, a thuag at ddull mwy hyblyg ac anffurfiol a gynigir gan yr asesiadau personol.

6.31 Roedd rhwystrau rhag defnyddio'r asesiadau personol yn fwy hyblyg yn cael eu hachosi i raddau helaeth gan arferion amserlennu a ddefnyddid gan ysgolion er mwyn trefnu profion ac asesiadau gyda penderfyniadau ynghylch amserlennu yn cael eu gwneud yn ganolog gan y rheolwyr.

6.32 Dylid nodi bod y mwyafrif o'r ysgolion nad oedd ond yn gweithredu asesiadau personol unwaith o fewn blwyddyn academaidd yn canfod nad oedd y canlyniadau o'r asesiadau yn ddigon defnyddiol i gyfiawnhau ail asesiad.

6.33 Ar y cyfan, roedd ysgolion a oedd wedi cyflawni neu'n bwriadu cyflawni'r asesiadau personol ddwywaith ag agweddau mwy cadarnhaol at eu heffaith ar lesiant ac at eu defnyddioldeb. Roedd rhai ysgolion fodd bynnag a oedd yn mynegi teimladau negyddol, ond yn dal i fwriadu cynnal yr asesiadau ddwywaith er hynny. Dywedodd un ysgol o'r fath, wrth esbonio'r penderfyniad hwn, nad oeddent yn credu mewn defnyddio un prawf i asesu cynnydd, ac er gwaethaf amheuon ynghylch defnyddioldeb canlyniadau'r asesu, eu bod er hynny yn

teimlo'r angen i gael golwg fwy cyfannol. Roedd ysgolion eraill yn mynegi teimladau tebyg; er gwaethaf teimladau negyddol yn ymwneud â'r pwysau'r roeddent yn teimlo bod yr asesiadau'n eu rhoi ar rai dysgwyr, ac at ddata'r canlyniadau, roedd gan ysgolion ddiddordeb mewn gasglu rhyw fath o ddata sylfaenol ar ddysgwyr yn dychwelyd o flwyddyn o darfu yn sgil Covid-19.

6.34 Mae rhwystrau eraill rhag arferion da yn cynnwys:

- Defnydd annigonol o'r deunydd dysgu proffesiynol sy'n cefnogi'r asesiadau personol.
- Defnydd annigonol o'r canllawiau i baratoi dysgwyr ar gyfer natur ymaddasol yr asesiadau (yn yr ystyr y gall rhai dysgwyr ddisgwyl cael cwestiynau y tu hwnt i bynciau y rhoddwyd sylw iddynt yn yr ystafell ddosbarth, ac y gallant eu hanwybyddu a symud ymlaen). Roedd pawb o'r ymarferwyr wedi cyfarfod rhai dysgwyr, yn enwedig dysgwyr mwy abl, yn teimlo straen yn ystod yr asesiadau. Mae hyn wedi effeithio ar deimlad ymarferwyr ynghylch addasrwydd yr asesiadau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
- Cwestiynau'n cael eu codi'n aml gan ymarferwyr ynghylch cydnawsedd yr asesiadau â dull seiliedig ar chwarae y Cyfnod Sylfaen.
- Amheuon gan lawer o ymarferwyr ynghylch addasrwydd cyffredinol asesu ffurfiol yn ystod y Cyfnod Sylfaen yn effeithio ar y graddau roedd yn cael ei dderbyn.

6.35 Roedd rhai anawsterau ymarferol a godwyd gan ymarferwyr ynghylch hwyluso asesiadau personol, a oedd yn cynnwys y problemau canlynol y tynnwyd sylw atynt:

- Roedd nifer o achosion lle'r oedd dysgwyr yn ei chael yn anodd defnyddio caledwedd TG.
- Cafodd heriau gyda chymhwysedd TG eu codi gan rai ymarferwyr, yn enwedig o ran yr asesiadau personol darllen, gyda rhywfaint o angen symud rhwng ffenestri i ddarllen testun ac yna ateb cwestiynau. Dywedwyd bod hyn yn anodd i rai dysgwyr.

- Dywedodd pedwar ymarferydd fod sgiliau llythrennedd rhai dysgwyr yn rhy isel i'w galluogi hwy i ddarllen ac felly ateb cwestiynau'n addas ar yr asesiadau personol rhifedd gweithdrefnol. Roedd yr ymarferwyr hyn ac eraill yn codi'r pwynt y byddai dewis i wrando ar y cwestiynau yn helpu dysgwyr.

*Newid diwylliannol: pa raddau o newid sydd ei angen?*

6.36 Mewn rhai ysgolion, mae angen hyrwyddo pellach ar symudiad diwylliannol oddi wrth yr arferion a sefydlwyd yn flaenorol trwy brofion papur tuag at ddull mwy hyblyg ac anffurfiol a gynigir gan yr asesiadau personol. Roedd ymarferwyr o bob ysgol yn dangos dealltwriaeth gref o'r egwyddorion addysgegol sy'n sail i'r Cyfnod Sylfaen, ac roeddent wedi ymrwymo i gynnal y rhain yn eu harferion, ac felly mae'r newid diwylliannol sy'n ofynnol mewn rhai ysgolion yn ymwneud â'r angen i symud y tu hwnt i weld asesiadau personol fel "profion", ac nid ag unrhyw anhawster gyda deall dull seiliedig ar chwarae y Cyfnod Sylfaen.

6.37 Mewn rhai achosion, roedd rhwystrau i ymarferwyr rhag defnyddio'r asesiadau personol yn fwy hyblyg yn cael eu hachosi gan arferion amserlenni a ddefnyddid gan ysgolion er mwyn trefnu profion ac asesiadau. Mewn ysgolion lle profwyd y rhwystr hwn, roedd y trefniadau ar gyfer asesiadau yn cael ei wneud yn ganolog fel arfer gan y tîm rheoli. O dan y system hon, nid oedd gan ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yr ymreolaeth o angenrheidrwydd i gyflawni'r asesiadau mewn modd hyblyg. Roedd ysgolion eraill yn parhau i gynnal asesiadau yn ystod yr un cyfnod ym mis Mai allan o arferiad.

*Defnyddioldeb Data Canlyniadau Asesiadau Personol Ar-lein*

6.38 Mae'r darlun ynghylch y modd y defnyddir data canlyniadau hefyd yn gymysg. Roedd mwyafrif yr ysgolion yn mynegi amheuon ynghylch gwerth data'r canlyniadau, gyda llawer yn mynegi'r farn nad yw canlyniadau'r asesiadau bob amser yn gyson â'u barn o rai dysgwyr. Mae'r pryderon hyn yn deillio o'r canlynol:

- Problemau gyda llythrennedd rhai dysgwyr, sy’n golygu na fydd canlyniadau asesiadau personol rhifedd efallai’n adlewyrchu eu gwir allu o ran rhifedd.
- Gall rhai dysgwyr fod yn ateb cwestiynau ar hap, gan arwain at achosion lle nad yw canlyniadau’n cyfateb â barn ymarferwyr.

6.39 Roedd ymarferwyr a gyfwelwyd o’r farn fod data’r canlyniadau yn fwyaf defnyddiol wrth adnabod bylchau mewn sgiliau ar draws dosbarthiadau yn eu cyfanrwydd. Roedd ymarferwyr yn defnyddio hyn wedyn i gynllunio’r camau nesaf i ddysgwyr, a hefyd i adnabod bylchau mewn dysgu y gellir mynd i’r afael â hwy ar gyfer cohortau yn y dyfodol.

*Sylwadau ymarferwyr ar addasrwydd asesiadau personol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen*

6.40 Roedd defnyddio asesiadau personol yn y Cyfnod Sylfaen yn cael ei weld fel rhywbeth negyddol gan y mwyafrif o ymarferwyr a gyfwelwyd. Fodd bynnag, roedd nifer bach o ymarferwyr a gyfwelwyd ag agwedd gadarnhaol at yr asesiadau, ac wedi eu integreiddio hwy yn dda o fewn eu harferion asesu, gan lynu at yr ethos a’r canllawiau sy’n mynd law yn llaw â hwy. Rhoddwyd y sylwadau cadarnhaol hyn:

- Roedd *pawb o’r ymarferwyr* yn cytuno bod yr asesiadau personol yn welliant ar brofion ar bapur o ran llesiant dysgwyr.
- Roedd un ymarferydd yn hoffi’r ffordd roedd yr asesiadau’n gadael i ddysgwyr symud yn ôl eu cyflymder eu hunain.
- Teimlai nifer bach o ymarferwyr fod y data o’r asesiadau yn ddefnyddiol, yn enwedig mewn achosion lle’r oedd yr asesiadau’n cael eu defnyddio ddwywaith o fewn y flwyddyn.
- Cafodd data adborth ar gyfer barnu bylchau sgiliau ar draws ystafelloedd dosbarth fel cyfanrwydd ei ddisgrifio fel rhywbeth defnyddiol gan chwe chyfranogwr.

6.41 Roedd mwyafrif yr ymarferwyr yn ymateb yn negyddol ar rai agweddau o’r asesiadau. Daeth nifer o themâu cyffredin i’r amlwg o gyfweliadau ag ymarferwyr a arweiniodd at deimlad negyddol tuag at yr asesiadau, gan gynnwys:

- Codwyd cwestiynau aml gan ymarferwyr ynghylch cydnawsedd yr asesiadau â dull seiliedig ar chwarae y Cyfnod Sylfaen, gyda'r mwyafrif o'r ymarferwyr yn dweud nad yw'r asesiadau personol yn gydnaws ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.
- Roedd pob ysgol ond un wedi profi rhai dysgwyr a oedd yn canfod bod yr asesiadau'n peri straen, er y cydnabuwyd nad oedd y mwyafrif yn cael dim problemau gyda'r asesiadau, a bod rhai yn eu mwynhau hyd yn oed.
- Roedd llawer o ymarferwyr yn canfod nad oedd y data a ddarparwyd gan yr asesiadau yn ddigon defnyddiol.

*Asesiadau Personol Ar-lein a Llesiant Dysgwyr*

6.42 Teimlai ymarferwyr fod yr asesiadau personol ar-lein yn well ar gyfer llesiant dysgwyr na phrofion ar bapur. Mae'r hyblygrwydd yn caniatáu i ddysgwyr osgoi gwneud asesiad o dan amodau prawf, rhywbeth a gafodd ei nodi fel gwelliant gan lawer o ymarferwyr. Roedd defnyddio cyfrifiaduron a llechi yn galluogi athrawon i gyflwyno'r asesiadau fel "cwis" yn lle "prawf", fodd bynnag nodwyd gan nifer bach o ymarferwyr fod dysgwyr yn dal i allu dweud bod y gweithgaredd yn asesiad sut bynnag y caiff ei fframio.

6.43 Teimlai mwyafrif yr ymarferwyr fod natur ymaddasol yr asesiadau personol ar-lein wedi arwain at effaith negyddol ar lesiant rhai dysgwyr, gyda dysgwyr a oedd yn cyflawni'n uwch yn fwy tebygol o deimlo straen yn sgil wynebu cwestiynau heriol, weithiau ar bynciau y tu hwnt i'r rheini yr ymdriniwyd â hwy yn yr ystafell ddosbarth.

6.44 Er gwaethaf y cyngor a nodwyd yn y canllawiau a'r ffaith y gallai ymarferwyr benderfynu pa bryd roedd dysgwyr yn cymryd seibiant, roedd mwyafrif yr ysgolion yn disgrifio'u hunain yn cael nifer bach o ddysgwyr yn eistedd yr asesiad am gyfnodau hir yn parhau am oriau weithiau (er bod seibiannau'n cael eu rhoi). Mae'r canllawiau yn annog ymarferwyr i ddefnyddio eu doethineb wrth benderfynu a yw dysgwyr wedi eistedd yr asesiad am gyfnod rhy hir o amser, a dod â'r asesiad i ben os oes angen.

6.45 Yr agwedd o’r canllawiau y glynwyd ati fwyaf gan ymarferwyr oedd annog dysgwyr i gymryd seibiant yn ystod yr asesiadau personol. Dim ond un o’r ysgolion a gyfwelwyd a ddywedodd nad oeddent yn rhoi seibiannau i ddysgwyr a oedd yn cymryd yr asesiadau.

6.46 Dywedodd ymarferwyr mewn sawl ysgol mai’r dysgwyr mwy abl oedd fwyaf tebygol o fynd yn ofidus yn ystod yr asesiad. Roedd hyn yn sgil wynebu cwestiynau’n ymwneud â deunydd a oedd y tu hwnt i’r hyn a oedd wedi cael sylw hyd hynny yn yr ystafell ddosbarth, neu’n dod o’r asesiad gyda’r teimlad nad ydynt wedi cyflawni’n dda.

*Cyfleu Asesiadau Personol wrth Rieni*

6.47 Nid oedd mwyafrif ysgolion yr astudiaethau achos wedi rhannu adroddiadau’r asesiadau personol gyda rhieni a gofalwyr, gan ddefnyddio data’r canlyniadau yn hytrach ar gyfer defnydd mewnol yn unig.[23] Roedd teimlad ymysg ymarferwyr na fyddai rhieni o angenrheidrwydd yn deall y canlyniadau. Roedd dwy ysgol a oedd wedi anfon data’r canlyniadau at rieni yn disgrifio sut roedd rhieni wedi cysylltu â hwy i geisio eglurder gan nad oeddent yn deall yr adroddiadau.

## Argymhellion

*Proffil y Cyfnod Sylfaen*

6.48 **Argymhelliad 1:** Casglu a darparu enghreifftiau o’r arferion gorau i ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen ar y ffordd orau o sefydlu cyfleoedd i asesu sgiliau yn y fath fodd sy’n osgoi gorddefnyddio tasgau ffurfiol, yn enwedig tasgau sy’n golygu eistedd wrth ddesg. Bydd sicrhau adnoddau ar ffyrdd creadigol ac arloesol o asesu sgiliau sy’n anodd eu hasesu trwy arsylwi yn helpu lliniaru tensiynau rhwng egwyddor addysgegol y Cyfnod Sylfaen a’r angen i ddangos tystiolaeth o rai sgiliau penodol. Gallai’r enghreifftiau hyn o arferion fod yn ffurf fideos hyfforddi.

[23] Mae’n ofynnol i ysgolion rannau canlyniadau’r asesiadau gyda rhieni a gwarcheidwaid.

6.49 **Argymhelliad 2:** O fewn y Cwricwlwm i Gymru, dylai ysgolion gynllunio digon o fanylder yn eu systemau asesu er mwyn adnabod problemau mewn datblygiad. Ar sail adborth a dderbyniwyd ar Broffil y Cyfnod Sylfaen, byddai hyn yn debygol o gynnwys annog ysgolion, wrth ddatblygu systemau asesu, i sicrhau bod lefelau'n cael eu torri i lawr yn lefelau manwl, ac mewn testun sy'n mynd law yn llaw â hwy, rhoi disgrifiadau ychwanegol ar gyfer meysydd sgiliau a gaiff eu hasesu mewn modd mwy goddrychol. Mae dealltwriaeth ddigonol o ddatblygiad plant yn bwysig er mwyn galluogi ysgolion i fapio camau digon bach o fewn y camau cynnydd. Yn ogystal, wrth ddatblygu systemau asesu, dylai ysgolion ystyried asesu a darganfod *ymagwedd* dysgwr at ddysgu yn ogystal â lefelau sgiliau.

6.50 **Argymhelliad 3:** Sicrhau bod rôl y Camau Cynnydd o fewn y Cwricwlwm i Gymru yn glir i ymarferwyr addysg a rhoi eglurder ar y berthynas rhwng Cymau Cynnydd ac asesu. Roedd dealltwriaeth a fynegwyd gan lawer o ymarferwyr y byddai Camau Cynnydd yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer asesu o dan y cwricwlwm newydd, ac nid hyn yw'r bwriad.

*Asesiadau Personol Ar-lein*

6.51 **Argymhelliad 4:** Dylai arweinwyr ysgolion sicrhau eu bod hwy a'r staff sy'n gweinyddu asesiadau personol yn gwybod am y canllawiau i ddefnyddwyr, y llawlyfr, a'r deunyddiau dysgu proffesiynol sydd ar gael a ddyluniwyd i gefnogi'r defnydd o asesiadau personol. Caiff Consortia Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol hefyd eu hannog i hyrwyddo ymwybyddiaeth a defnydd o'r adnoddau hyn. I raddau helaeth, nid oedd ymarferwyr y siaradwyd â hwy yn gwybod am y deunyddiau dysgu proffesiynol sydd ar gael i gefnogi asesiadau personol.

6.52 **Argymhelliad 5:** Anogir ysgolion i sicrhau bod dysgwyr wedi profi enghreifftiau o gwestiynau asesu sydd i'w cael o fewn asesiadau personol trwy gymryd asesiad ymgyfarwyddo cyn cymryd yr asesiadau byw.

6.53 **Argymhelliad 6:** Roedd ysgolion nad oedd wedi manteisio ar hyblygrwydd yr asesiadau personol yn wynebu rhwystrau oherwydd diwylliant ac arferion gweinyddu sefydledig. Yn rhai ysgolion, ymddengys fod cadw at ffenestri sefydledig ar gyfer asesiadau personol yn gysylltiedig â'r angen i drefnu adnoddau personél o fewn amserlen tymor neu flynyddol, neu arferiad. Mae angen mwy o anogaeth gan Gonsortia Rhanbarthol neu Awdurdodau Lleol i annog yr ysgolion hyn i newid arferion sefydledig, a dylid argymell ysgolion i symud tuag at ddull mwy hyblyg o gyflawni asesiadau personol, o ran pa bryd y caiff asesiadau eu cyflawni, a sut y cânt eu cyflawni.

6.54 **Argymhelliad 7:** Yn ogystal ag argymhelliad 6 uchod, argymhellwn ymhellach fod ysgolion yn cael eu hannog i ganiatáu ymreolaeth i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen wrth drefnu asesiadau personol, a lle bo'n bosibl, datgysylltu asesiadau personol oddi wrth drefniadau'r ysgol ar gyfer amserlennu asesiadau eraill. Gallai mwy o ymreolaeth i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen eu hannog i oresgyn y rhwystrau diwylliannol rhag defnyddio asesiadau personol mewn modd mwy hyblyg.

6.55 **Argymhelliad 8:** Darganfu'r ymchwil bryder gan nifer bach o ymarferwyr y gall asesiadau personol ddod yn arf i olrhain perfformiad ysgolion a rancio ysgolion. Argymhellir felly fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod negeseuon ledled y system na fwriedir i asesiadau personol gael eu defnyddio i'r diben hwn. Gallai hyn helpu hyrwyddo'r syniad na fydd asesiadau personol yn cael eu defnyddio fel hyn, a'u bod wedi eu bwriadu fel arf asesu ffurfiannol.

6.56 **Argymhelliad 9:** Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar pa mor ymarferol fyddai darparu opsiwn sain i wrando ar gwestiynau rhifedd (gweithdrefnol) er mwyn helpu goresgyn y rhwystrau llythrennedd a brofir gan rai dysgwyr.

6.57 **Argymhelliad 10:** Er bod uchafswm ar y nifer o gwestiynau o fewn pob asesiad, a bod ymarferwyr yn cael eu hannog i roi seibiannau i ddysgwyr, roedd bron bob ysgol y siaradwyd â hwy wedi profi enghreifftiau lle'r oedd dysgwyr yn eistedd yr asesiad am yr hyn roedd ymarferwyr yn barnu i fod yn gyfnod afresymol o amser. Mae'r

Canllawiau i Ddefnyddwyr Ysgolion yn cynghori ymarferwyr i roi seibiannau i ddysgwyr Blwyddyn 2, ac mai'r athro sydd i benderfynu ar hyd y seibiant. Mae'r canllawiau yn cynghori hefyd y gall ymarferwyr annog dysgwyr i weithio'n gyflymach os ydynt yn cymryd yn rhy hir i ateb cwestiynau ac y gallant ddefnyddio eu doethineb proffesiynol os ydynt o'r farn fod hyd yr asesiad yn dod yn ormodol. Argymhellwn felly y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gweithredu anogaethau cynnil i ymarferwyr goruchwylio eu hystyried ar gyfer symud dysgwr ymlaen, cymryd seibiant, neu orffen asesiad os oes angen. Gallai hyn fod yn ffurf blwch awgrymiadau sy'n ymddangos ar ôl hyn a hyn o amser. Er bod y canllawiau i ymarferwyr yn pennu eu bod yn gallu defnyddio eu doethineb wrth annog dysgwyr i gymryd seibiannau, gallai anogaeth cynnil fod yn fodd pellach o atgoffa ymarferwyr goruchwylio y dylid cymryd seibiannau.

6.58 **Argymhelliad 11:** Mae tystiolaeth a gasglwyd o ysgolion yr astudiaethau achos yn awgrymu bod rhai dysgwyr, yn enwedig dysgwyr mwy abl, yn dod yn bryderus ynghylch methu â gallu ateb y cwestiynau a gyflwynir. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried rhoi graffigyn neu fideo syml ar ddechrau asesiadau i esbonio'n syml iawn i ddysgwyr bod atebion anghywir i'w disgwyl, a bod hyn yn arferol i bawb sy'n cymryd yr asesiad.

## Atodiad A – Dadansoddiad o Ymarferwyr a Gyfwelwyd yn ôl Math o Ysgol

| Rôl | Cymraeg / Uchel o ran prydau ysgol am ddim | Cymraeg / Isel o ran prydau ysgol am ddim | Saesneg / Uchel o ran prydau ysgol am ddim | Saesneg / Isel o ran prydau ysgol am ddim | Dwyieithog / Uchel o ran prydau ysgol am ddim | Dwyieithog / Isel o ran prydau ysgol am ddim | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prifathrawon | | 3 | 1 | 3 | | 1 | **8** |
| Dirprwy Brifathrawon / Prifathrawon Cynorthwyol | 1 | 1 | 3 | 2 | | 2 | **9** |
| Arweinwyr Cyfnod Sylfaen | 1 | 1 | 3 | 2 | | 2 | **9** |
| Athrawon Blwyddyn 2 | | 2 | 4 | 2 | | 1 | **9** |
| Athrawon Blwyddyn 1 | | | 1 | | | 2 | **3** |
| Athrawon Derbyn | | 2 | 2 | 1 | | 2 | **7** |
| Athrawon Meithrin | | 1 | 2 | | | 2 | **5** |
| Athrawon sawl blwyddyn ysgol (Meithrin, Derbyn, a Blynydddoedd 1 a 2) | 2 | 2 | | | 3 | 1 | **8** |
| Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 | **7** |
| Cynorthwywyr Addysgu | | 3 | | | | | **3** |
| Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol | | | 1 | 1 | | 1 | **3** |
| Arall | | | 1 | | | | **1** |
| Rhiant-Lywodraethwyr | | 1 | 1 | 2 | | | **4** |
| **Cyfanswm** | **5** | **17** | **21** | **14** | **4** | **15** | **76** |

## Atodiad B – Canllawiau Pwnc

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cefndir** | |
| | Cyflwyniad | • Allwch chi ddweud ychydig amdanoch chi eich hun a'ch rôl yn X? |
| **2** | **Cysyniadau** | |
| | | • Sut fyddech chi'n diffinio diben asesu – yn gyffredinol – fewn y Cyfnod Sylfaen?<br>o Sylfaenol<br>o Asesu parhaus<br>o Diwedd cyfnod |
| | | • Yn eich barn chi, i ba raddau mae'r asesiadau (sylfaenol, parhaus a diwedd cyfnod) yn cydweddu ag egwyddorion addysgegol y Cyfnod Sylfaen o ddull seiliedig ar chwarae? |
| | | • Beth, yn eich barn chi, yw'r dulliau asesu mwyaf effeithiol o fewn y Cyfnod Sylfaen? |
| **3** | **Defnydd o arferion asesu** | |
| | | • Ydych chi'n defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen y tu hwnt i'r flwyddyn derbyn? |
| | | • Ydych chi'n defnyddio Incerts, neu unrhyw raglen arall i helpu gydag asesiadau? |
| | | • Ydych chi'n defnyddio'r Proffiliau Cryno a/neu'r Proffiliau Llawn? A pham? |
| | | • Ydych chi'n defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen i gyflawni asesiad diwedd cyfnod ar ddiwedd blwyddyn 2? |
| | | • I ba raddau y caiff Proffil y Cyfnod Sylfaen ei ddefnyddio o fewn eich ysgol i fonitro cynnydd dysgwyr o fewn y Cyfnod Sylfaen? |
| | | • Sut ydych chi'n defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen wrth eich gwaith? |

| | | |
|---|---|---|
| | | • A oes unrhyw rwystrau rhag ei ddefnyddio? A oes unrhyw agweddau anodd?<br>• Ydych chi'n defnyddio unrhyw gyngor neu ganllawiau eraill i helpu asesu neu gefnogi cynnydd os nad y Proffil? |
| | | • I ba raddau ydych chi wedi darganfod y gellir cyflawni asesu sylfaenol trwy arsylwi yn unig?<br>• A oes unrhyw sgiliau neu feysydd penodol sy'n anodd eu hasesu trwy arsylwi?<br>• A oes unrhyw arfer sy'n ofynnol nad yw'n gyson â dull addysgegol y Cyfnod Sylfaen? Os felly, pam fod y dull hwn yn angenrheidiol? |
| | | • A ddefnyddir Proffil y Cyfnod Sylfaen y tu hwnt i'r Cyfnod Sylfaen o gwbl? |
| | | • I ba raddau ydych chi'n defnyddio'r dystiolaeth o Broffil y Cyfnod Sylfaen wrth eich gwaith ac ym mha ffyrdd?<br>• Beth yw'r manteision a'r heriau wrth ddefnyddio'r dystiolaeth i gefnogi dysgwyr? |
| | | • Pa mor effeithiol yw'r Proffiliau Cryno a Llawn wrth asesu lefelau sgiliau dysgwr? |
| | | • Sut, os o gwbl, mae eich ysgol yn defnyddio'r dystiolaeth o'r asesiadau sylfaenol a diwedd cyfnod fel sail wrth ddarparu? (ee dyrannu adnoddau mewn ysgol) |
| | | • Sut, ac i ba raddau mae'r defnydd o Broffil y Cyfnod Sylfaen yn effeithio ar gynnydd dysgwyr o fewn y Cyfnod Sylfaen? (unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol) |
| | | • Ydych chi wedi profi unrhyw rwystrau rhag integreiddio asesiadau ag egwyddorion ac arferion addysgegol y Cyfnod Sylfaen i gefnogi cynnydd?<br>o Sylfaenol<br>o Asesu parhaus<br>o Diwedd cyfnod |
| | | • Pa mor effeithiol yw asesiad sylfaenol y Cyfnod Sylfaen wrth adnabod dysgwyr sydd â'r potensial o oedi mewn datblygiad neu anghenion dysgu ychwanegol? Allwch chi roi enghreifftiau?<br>• A oes meysydd sydd angen eu cryfhau? |
| | | • Sut caiff gwybodaeth ar yr asesiadau sylfaenol a diwedd cyfnod ei chyfleu wrth rieni? |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Ydych chi'n ymwybodol o'r defnydd o asesiadau Proffil y Cyfnod Sylfaen mewn darpariaeth feithrin – naill ai mewn ysgol neu o fewn darpariaeth feithrin nas cynhelir – sy'n bwydo i mewn i'ch ysgol?<br>• (Os ydych) A yw eich ysgol yn defnyddio'r data hwnnw wrth gefnogi dysgwyr? Sut caiff hyn ei wneud? |
| **4** | **Asesiadau personol** | |
| | | • Pryd wnaethoch chi ddefnyddio'r Asesiadau Personol ddiwethaf gyda dysgwyr Blwyddyn 2 mewn:<br>  • Rhifedd Gweithdrefnol<br>  • Darllen<br>• Sawl Asesiad Personol ydych chi'n bwriadu eu cyflawni mewn blwyddyn ysgol? |
| | | • Beth yw eich barn ar rôl asesiadau personol ar-lein yn y Cyfnod Sylfaen?<br>(Nid yw'r cwestiwn hwn yn cyfeirio at yr asesiadau blaenorol ar bapur?) |
| | | • Ydych chi wedi defnyddio unrhyw ddeunydd datblygu proffesiynol sydd ar gael ar gyfer y system asesu?<br>• Ydych chi'n ymwybodol o'r deunydd canllawiau sydd ar gael i athrawon? Pa mor aml ydych chi'n cyfeirio ato? |
| | | • Sut mae eich ysgol yn gweinyddu asesiadau personol? Pa bryd ydych chi'n eu cynnal?<br>• Sut caiff asesiadau personol eu gweinyddu o fewn eich ysgol (ee pob athro/aelod arweiniol o staff ar gyfer pob cyfnod allweddol/cydlynydd asesu?)<br>• Faint o amser mae dysgwyr yn ei dreulio fel arfer wrth gyflawni'r asesiadau personol? |
| | | • A oes unrhyw rwystrau rhag cyflawni mwy nag un asesiad personol i bob pwnc mewn blwyddyn ysgol? |
| | | • Sut ydych chi'n esbonio Asesiadau Personol i ddysgwyr?<br>• Ydych chi'n gwneud unrhyw beth ymlaen llaw cyn cyflawni'r asesiadau (ee asesiadau ymgyfarwyddo)? [holwch am ymwybyddiaeth o'r canllawiau] |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Ydych chi'n trefnu i'r dysgwyr gymryd seibiant yn ystod yr asesiadau? [holwch am ymwybyddiaeth o'r canllawiau]<br>• A yw'r dysgwyr yn defnyddio papur a phensel o gwbl yn ystod yr asesiadau rhifedd? (Er mwyn gweithio allan atebion) [holwch am ymwybyddiaeth o'r canllawiau] |
| | | • A yw sgiliau TG dysgwyr yn peri unrhyw rwystrau iddynt gyda'r asesiadau personol? Os felly, sut y caiff dysgwyr eu cefnogi? |
| | | • Sut ydych chi'n defnyddio data'r Asesiadau Personol ar-lein i asesu cynnydd dysgwyr ac i gefnogi dysgu?<br>• Allwch chi roi enghraifft o'r uchod?<br>• Ydych chi'n gwybod am yr amrywiaeth o adroddiadau adborth sydd ar gael o'r system asesu? |
| | | • Os ydych chi wedi cyflawni'r asesiadau personol ddwywaith mewn blwyddyn, beth oedd y fantais o wneud hynny? |
| | | • Ydych chi wedi defnyddio'r adborth sgiliau o'r asesiadau personol? Sut?<br>• Ydych chi wedi defnyddio'r adroddiadau grŵp o'r asesiadau personol? [proffil grŵp, proffil sgiliau, llwybrau dysgwyr, cynnydd grŵp] Sut?<br>• Ydych chi wedi defnyddio adroddiadau cynnydd dysgwyr unigol? Sut?<br>• Pa mor werthfawr yw'r adborth a'r adroddiadau o'r asesiadau personol, ac a oes unrhyw heriau wrth eu defnyddio? |
| | | • Sut yn eich barn chi mae'r Asesiadau Personol yn integreiddio ag egwyddorion ac arferion addysgegol y Cyfnod Sylfaen i gefnogi cynnydd? |
| | | • Sut caiff gwybodaeth o'r Asesiadau Personol ei chyfleu wrth rieni? |
| **7** | **Y Cwricwlwm newydd** | |
| | | • Sut yn eich barn chi y bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn effeithio ar arferion asesu? |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Beth yw eich dealltwriaeth o'r meini prawf y bydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar eu sail? (holwch am beth allai hyn fod: cwricwlwm yr ysgol ei hun, camau cynnydd, rhywbeth arall?)<br>• I ba raddau ydych chi'n credu bod yr asesiadau personol yn cefnogi egwyddorion cynnydd yn y cwricwlwm newydd? (holwch am ddealltwriaeth o gynnydd sgiliau, fformat ymaddasol yr asesiadau) |
| **7** | **Llesiant ac iaith** | | |
| | | | • Sut mae dysgwyr yn ymateb i'r Asesiadau Personol ar-lein?<br>• A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol?<br>• Ydych chi wedi darganfod unrhyw ddulliau penodol yn yr Asesiadau Personol sydd wedi cael effaith mwy cadarnhaol ar lesiant dysgwyr? (A beth oedd yn peri'r problemau mwyaf o ran llesiant?)<br>• Sut maent yn cymharu â'r asesiadau blaenorol ar bapur o ran llesiant dysgwyr? |
| | | | • Ydych chi wedi profi unrhyw anawsterau o ran yr iaith mae dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni'r asesiadau personol?<br>• (Os ydynt) Pa fath o anawsterau sydd wedi bod yn amlwg?<br>• I ba raddau mae anawsterau o ran galluoedd iaith (Cymraeg neu Saesneg) yn effeithio ar asesu ehangach o ddatblygiad y dysgwr? |